


The background of the entire page is a solid blue color. Scattered across this background are numerous small, light blue raindrops of varying sizes, some of which are slightly blurred to create a sense of falling rain.

glas

Glas Cymru Cyfyngedig

ADRODDIAD A
CHYFRIFON
2014

BYDDWN NI'N
ENNILL FFYDD
EIN CWSMERIAID
BOB DYDD



DATGANIAD Y CADEIRYDD

Mae'n dda gennyf nodi i Dŵr Cymru sicrhau ei berfformiad cyffredinol gorau yn 2013-14 ers iddo gael ei gaffael gan y cwmni daliannol, Glas Cymru, yn 2001. Rydym wedi dangos unwaith eto, yn fy marn i, fod model perchenogaeth unigryw Glas Cymru nad yw'n cynnwys dosbarthu elw i gyfranddalwyr yn ein galluogi i berfformio cystal neu'n well na'n cymheiriaid yn y diwydiant.

Ein hamcan fel cwmni yw darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid am brisiau fforddiadwy.

Ers i Glas Cymru Cyfyngedig gaffael Dŵr Cymru, mae'r Bwrdd wedi bod yn benderfynol bod ein cwsmeriaid nid yn unig yn cael gwasanaeth o'r safon uchaf bosibl ond bod y taliadau a godir gennym mor isel â phosibl. Llunedd, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, bu ein cynnydd blynyddol mewn prisiau yn is na chyfradd chwyddiant, ac mae rheoleiddiwr y diwydiant, Ofwat, wedi rhoi Dŵr Cymru yn ail ar y cyd yn nhabl cynghrair y diwydiant o ran boddhad cwsmeriaid.

Cyflawnwyd ein perfformiad cadarn dros y 12 mis diwethaf er gwaethaf amodau tywydd eithafol; haf poeth iawn a stormydd a glaw eithriadol yn y gaeaf. Bu'r rhain yn her i gyfnerthedd ac ymrwymiad ein holl gyflogaion yn ogystal ag i'n systemau a'n hasedau. Llwyddwyd i gyfyngu effaith yr amodau tywydd hyn ar ein gwasanaethau i'n cwsmeriaid ac rwy'n ddiolchgar i bawb yn Dŵr Cymru a gyfrannodd gymaint dros y misoedd hir hyn, a fu'n anodd iawn weithiau.

Nid yw Glas Cymru yn gwmni cydweithredol nac yn gwmni o dan berchenogaeth cyflogaion. Mae'n unigryw o fewn y sector cyfleustodau yng Nghymru a Lloegr gan mai cwmni preifat ydyw, sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ond heb fudd preifat yn ei elw.

Caiff ein helw i gyd ei ddosbarthu er budd cwsmeriaid ond yn unol â phenderfyniadau Cyfarwyddwyr ac aelodau'r cwmni. Felly mae perfformiad ac ansawdd y Cyfarwyddwyr a'r Aelodau yn bwysig iawn ac rydym yn buddsoddi cryn dipyn o amser i'w dethol. Mae'n rhaid bod yr Aelodau yn meddu ar y sgiliau a'r profiad i ddwyn y Bwrdd i gyfrif. Mae'n rhaid bod y Cyfarwyddwyr yn meddu ar y sgiliau busnes a'r profiad angenrheidiol ond hefyd y rhinweddau personol er mwyn galluogi'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd i weithredu ar y lefel uchaf.

Felly roedd dod o hyd i olynydd i Nigel Annett, ein cyn-Reolwr-Gyfarwyddwr, yn arbennig o bwysig ac ar ôl proses ddethol agored a chystadleuol iawn, penodwyd Chris Jones fel ein Prif Weithredwr newydd ym mis Medi. Bu Chris yn Gyfarwyddwr Cyllid gynt yn Dŵr Cymru ers sefydlu Glas Cymru ar y cyd â Nigel Annett yn 2000.

Penodwyd Graham Edwards hefyd fel Cyfarwyddwr Anweithredol newydd ym mis Hydref 2013. Mae profiad a chyflawniadau Graham yn y sector cyfleustodau yn amlwg iawn ac mae wedi arwain Wales and West Utilities fel ei Brif Weithredwr ers 2005. Rwyf yn ei groesawu i'r Bwrdd.

Yn ogystal â chynnal ein lefelau uchel o berfformiad a chwblhau'n llwyddiannus flwyddyn olaf ein Cynllun Busnes pum mlynedd presennol a gymeradwywyd gan Ofwat (o'r enw PR09), mae Chris Jones a'i Dîm Gweithredol wedi bod yn gweithio'n ddyfal dros y flwyddyn ddiwethaf i baratoi'r Cynllun Busnes pum mlynedd newydd ar gyfer 2015 i 2020 (PR14). Yn ystod y cylch hwn o bennu prisiau, bu Ofwat yn awyddus iawn i sicrhau bod buddiannau cwsmeriaid yn cael eu diogelu, bod Byrddau cwmniâu a reoleiddir yn cymryd rhan weithredol yn y broses o ddatblygu ein Cynlluniau a'u bod hwy, y Byrddau, yn ymrwymo'n llwyr iddynt. Er bod hynny wedi bod yn wir am Dŵr Cymru erioed, gobeithiaf ein bod wedi llwyddo i ddangos i Ofwat ein bod yn ystyried bod buddiannau ein cwsmeriaid o'r pwys mwyaf. Yn y Cynllun Busnes fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol gennym, gostyngodd y taliadau a godir ar gwsmeriaid mewn termau real dros y cyfnod o bum mlynedd, a gwelwyd gwelliant ym mherfformiad gwasanaethau a pherfformiad amgylcheddol a rhaglen buddsoddi cyfalaf gwerth tua £1.5 biliwn.

Ni chafodd y Cynllun hwn ei ddatblygu gan y cwmni ar ei ben ei hun ond ar ôl gwaith ymchwil ac ymgysylltu â chwsmeriaid ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen. Gofynnwyd yn uniongyrchol i gwsmeriaid nodi'r hyn yr oeddent am ei weld ond hefyd cyflwynwyd ein cynigion i 'Grŵp Her Cwsmeriaid' a oedd, o dan gadeiryddiaeth Diane McCrea (Cadeirydd Cyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru) yn cynrychioli buddiannau cwsmeriaid ac yn dylanwadu ar ein cynigion. Felly bu'n bleser mawr i ni nodi bod 94% o gwsmeriaid (arolwg o sampl gynrychioliadol) yn cefnogi fersiwn terfynol ein Cynllun pum mlynedd newydd fel y'i cymeradwywyd gan y Bwrdd. Bydd hyn yn golygu, y byddwn wedi sicrhau, erbyn 2020, gynnydd blynyddol mewn prisiau islaw cyfradd chwyddiant am ddeng mlynedd yn olynol i gwsmeriaid. Mae hefyd yn gam bras tuag at wireddu ein gweledigaeth am 25 mlynedd fel y'i hamlinellwyd yn 'Ein Dyfodol Cynaliadwy' a gyhoeddwyd yn 2007.

Ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni'r hyn a gyflawnwyd o ran perfformiad y llynedd oni bai am gyfraniad pob un o gyflogaion Dŵr Cymru, yr hoffwn dalu teyrnged iddynt a diolch iddynt ar ran y cwmni cyfan. Ac ni fyddai wedi bod yn bosibl ychwaith heb arweinyddiaeth y Tîm Gweithredol o dan Nigel Annett i ddechrau ac wedyn Chris Jones, a hoffwn ddiolch iddynt hwythau hefyd. Nac ychwaith heb ymrwymiad a chyfraniad Aelodau'r cwmni a Bwrdd y Cyfarwyddwyr eu hunain. Rydym yn ffodus ein bod wedi denu Aelodau a Chyfarwyddwyr o safon mor uchel sy'n rhoi gwasanaeth mor fedrus a phroffesiynol.

Ddechrau'r flwyddyn ddiwethaf, trawyd fy ngwraig Julia yn wael iawn ac roeddwn am ofalu amdani. Heb betruso am eiliad camodd John Bryant i'r adwy gan ysgwyddo cyfrifoldebau'r Cadeirydd a rhoddodd y Bwrdd gyfnod o absenoldeb di-dâl i mi. Nid oes amheuaeth gennyf fod y gweithredoedd hael hyn wedi helpu Julia i gael gwellhad llwyr, gobeithio. Ac mae'r ddau ohonom yn ddiolchgar dros ben.

Ar ran y Bwrdd a holl gyflogaion Dŵr Cymru, hoffwn ddiolch unwaith eto i Nigel Annett (CBE bellach) am ei weledigaeth a'i ymrwymiad ac am arwain y cwmni drwy gyfnod o drawsnewid sylweddol.

Cyflawnwyd perfformiad Dŵr Cymru y llynedd, i raddau helaeth, oherwydd ein gallu i ymaddasu i amodau newydd a'r amgylchedd gwaith sy'n newid mor gyflym.

Yn anad dim, mae ein perfformiad yn adlewyrchu ymdrechion ein holl gyflogaion sy'n gweithio'n ddiflino drwy amodau eithafol, drwy'r flwyddyn gron, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau i'n cwsmeriaid o'r safon uchaf bosibl.

Mae eu hymrwymiad, eu brwdfrydedd a'u penderfyniad yn allweddol er mwyn i ni ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid a dangos bod model 'Glas', lle mae 'pob budd yn mynd i'r cwsmeriaid' yn ffordd dda o fod yn berchen ar Dŵr Cymru a rheoli ei gyfrifoldebau.



Robert Ayling, Cadeirydd
12 Mehefin 2014

ADOLYGIAD STRATEGOL

Fel cwmni, rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein hadroddiadau corfforaethol yn rhoi adolygiad cytbwys a chynhwysfawr o'n perfformiad rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014.

Mae'r adran hon wedi'i strwythuro i roi trosolwg o'n strategaeth a'n model busnes; dadansoddiad o'n perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol; a chrynodeb o'r prif risgiau ac ansicrwydd a reolwn.

- Adolygiad y Prif Weithredwr
- Cerdyn Sgorio Perfformiad 2013-14
- Pwy ydym
- Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd
- Pam ein bod yn wahanol
- Bwrdd Cyfarwyddwyr Glas Cymru
- Ein diwydiant a'n rheoleiddwyr
- Gwrandd ar ein cwsmeriaid
- Rheoli risg ac ansicrwydd
- Risgiau allweddol a wynebir gan y Grŵp
- Ein cynllun ar gyfer 2014-15
- Mesur ein cynnydd
- Trosolwg o berfformiad y cwmni

A man with short, graying hair, wearing a dark blue suit jacket, a light blue shirt, and a red tie with a small blue pattern. He is smiling and looking slightly to his right. A blue lanyard with the word 'STAFF' in white capital letters is around his neck. The background is a plain, light-colored wall.

ADOLYGIAD Y PRIF WEITHREDWR

Fel cwmni heb gyfranddalwyr, ein cwsmeriaid yw ein hunig ffocws, a'n gweledigaeth yw ennill eu ffydd bob dydd drwy ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl am y pris mwyaf fforddiadwy.

Yn y 12 mis diwethaf cafwyd blwyddyn arall o gynnydd sylweddol wrth i ni lwyddo i sicrhau ein blwyddyn orau erioed o ran perfformiad cyffredinol i gwsmeriaid a rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd. Cyflawnwyd hyn yn ystod cyfnod o her a newid sylweddol.

PERFFORMIAD

O ran ein perfformiad gweithredol cyffredinol, hon fu'r flwyddyn gryfaf i ni erioed a buddsoddwyd bron £1 filiwn y dydd mewn gwelliannau mawr i ddiogelwch dŵr yfed, ansawdd amgylcheddol, gwasanaeth cwsmeriaid ac effeithlonrwydd ynni.

Rydym yn parhau i ddarparu dŵr yfed gyda'r gorau o ran safon yng Nghymru a Lloegr ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella ansawdd a chyfnerthedd y dŵr yfed a ddarparwn. Rhwng 2010 a 2015, rydym yn buddsoddi bron £120 miliwn mewn adeiladu neu uwchraddio 12 o brosesau gwaith trin dŵr yn ein hardal weithredol ac mae hyn ein helpu i wrthsefyll heriau megis rheoli ansawdd cyfnewidiol dŵr heb ei drin yn ei darddle a bodloni rheoliadau newydd er mwyn i ni allu cynnal cyflenwad di-dor o dŵr tap o safon uchel i'n cwsmeriaid.

Mae cyfyngu ein heffaith ar yr amgylchedd yn hanfodol o ran cynaliadwyedd hirdymor ein gwasanaethau a gwellodd ein perfformiad amgylcheddol ymhellach yn 2013. Er gwaethaf y gaeaf gwlypaf ers bron 250 mlynedd, sicrhawyd cyn lleied â phosibl o effaith ar ein cwsmeriaid a'r amgylchedd wrth i ni gyflawni'r nifer isaf erioed o achosion o lygru.

Mae hyn yn allweddol gan fod diogelu ein dŵr arfordirol a'n hafonydd rhag llygredd yn un o'n cyfrifoldebau pwysicaf. Rydym yn falch ein bod ein gwaith wedi cyfrannu at sicrhau 33 o Faneri Glas yng Nghymru ar gyfer tymor ymdrochi haf 2013 - tua thraean o Faneri Glas y DU - er ein bod ond yn rheoli tua 15% o arfordir Prydain. Ar ben hynny, gwnaeth y Gymdeithas Cadwraeth Forol 'argymell' y nifer uchaf erioed o draethau yng Nghymru, sef 109, am ansawdd rhagorol eu dŵr yn 2014.

Fodd bynnag, mae meysydd amgylcheddol penodol lle mae angen gwelliant pellach. Mae hyn yn cynnwys rheoli rhai asedau lleol, ar ôl i nifer o ffactorau - gan gynnwys gwall dynol - arwain at fethiant gorsaf bwmpio leol yn Nhreorci, a achosodd lifogydd mewn 19 eiddo ym mis Rhagfyr 2013. Rydym yn sylweddoli bod y digwyddiad hwn wedi achosi gofid mawr a buom yn gweithio'n agos â'r cwsmeriaid dan sylw i adfer eu cartrefi. Hefyd, adolygwyd pob un o'r gorsafoedd pwmpio eraill yn yr ardal yn ogystal â'n gweithdrefnau gweithredu ein hunain er mwyn lleihau'r risg y bydd rhywbeth tebyg yn digwydd eto yn y dyfodol.

Yn anffodus, arweiniodd y tywydd garw at bwysau cost ychwanegol hefyd dros y flwyddyn. Fel un o ddefnyddwyr ynni mwyaf Cymru, rydym yn ceisio gwrthbwysu rhai o'n costau gweithredu drwy gynhyrchu ein hynni ein hunain drwy dreulio anerobig ar ein safleoedd trin dŵr gwastraff (drwy dynnu nwy methan o ddŵr gwastraff a ddefnyddir wedyn i gynhyrchu trydan). Fodd bynnag, ar ddiwedd 2013 a dechrau 2014, amharwyd ar ein gweithrediadau gan y tywydd gwlyb a oedd yn golygu hefyd bod angen defnyddio mwy o ynni i bwmpio cryn dipyn o ddŵr glaw o amgylch ein rhwydwaith.

Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes modd datrys y broblem o garthffosydd sy'n gorlifo drwy adeiladu carthffosydd mwy o faint, tanciau storio ac ymestyn ein rhwydwaith yn unig - ni fyddai hyn yn fforddiadwy i'n cwsmeriaid ac ni fyddai'n mynd i'r afael â'r broblem sylfaenol, sef bod gormod o ddŵr wyneb yn llifo i mewn i'n rhwydwaith. Rydym bellach ar flaen y gad yn y diwydiant o ran datblygu a defnyddio cynlluniau costeffeithlon, cynaliadwy ac arloesol ar lefel dalgylch a fydd yn ailgyfeirio'r dŵr wyneb sy'n llifo i mewn i'r rhwydwaith o garthffosydd ac yn ei arafu. 'GlawLif' yw'r enw ar y dull gweithredu hwn.

CWSMERIAID


Er ein bod yn gwasanaethu tua thair miliwn o bobl, anaml iawn y bydd angen i'r rhan fwyaf o'n cwsmeriaid gysylltu â ni. Fodd bynnag, fel cwmni heb gyfranddalwyr, ein cwsmeriaid yw ein prif ffocws ac rydym am ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl iddynt. Dyna pam mai ni oedd y cwmni cyntaf i ddechrau rhybuddio cwsmeriaid am broblemau posibl gyda gwasanaethau drwy neges destun. Mae'n dda gennym nodi bod gwaith ymchwil annibynnol gan ein rheoleiddiwr, Ofwat, yn dangos ein bod yn ail ar y cyd yn y diwydiant a'n bod yn cael cyfraddau boddhad cwsmeriaid o tua 90% yn rheolaidd.

Er mwyn cynnal y perfformiad hwn, rydym yn benderfynol o ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid. Mae'n rhaid i ni bob amser arddel y gwerthoedd a'r ymddygiadau cywir ac ar ôl ymgynghori â thros 1,000 o gydweithwyr, roeddwn yn falch o lansio ein gweledigaeth a'n gwerthoedd newydd yn 2013 a fynegodd yn glir yr hyn a wnawn a'r hyn a arddelwn. Ein cydweithwyr yw ein hased pwysicaf ac rydym yn benderfynol o roi'r hyfforddiant gorau posibl tra hefyd yn adeiladu ar lwyddiant ein cynlluniau pwrpasol ar gyfer prentisiaid, graddedigion a gweithwyr dan hyfforddiant.

Bydd hyn oll yn rhoi cyfle i ni adeiladu ar ein sgôr gorau erioed sef 79% (2012: 76%) yn yr Arolwg Ymgysylltu â Chyflogeion yn 2013.

Dengys ein gwaith ymchwil fod cwsmeriaid am gael perthynas agosach â ni wrth i ni geisio darparu'r gwasanaeth gorau posibl. Mae hyn yn bwysig ar adeg pan fo angen i'n cwsmeriaid ein helpu i sicrhau canlyniadau busnes allweddol fel y dangoswyd y llynedd gan lwyddiant ein hymgyrch dri mis 'Stop cyn Creu Bloc'. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda chwsmeriaid domestig a busnes yn Rhondda Cynon Taf a Chaerffili a helpodd i leihau nifer yr achosion o garthffosydd wedi'u blocio yn eu cymunedau o 30%. Ers hynny mae'r ymgyrch wedi cael ei chyflwyno yng Nghaerdydd a bwriedir parhau â'r gweithgarwch drwy gydol 2014.

Parhawyd hefyd i godi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o'r hyn a wnawn ac i dynnu sylw at y peryglon a geir mewn rhai o'n safleoedd gweithredol, a hynny yn sgil marwolaethau trist dau unigolyn fis Gorffennaf diwethaf mewn dau achos ar wahân o nofio mewn cronfeydd dŵr yn ne Cymru yn ystod penwythnos eithriadol o boeth. Er ein bod yn croesawu ymwelwyr sydd am ddod a mwynhau ein cyfleusterau hamdden, byddwn yn gwneud pob ymdrech i dynnu sylw at beryglon nofio yn ein cronfeydd dŵr.



GWERTH AM ARIAN

Roedd y cynnydd blynyddol mewn prisiau yn 2013-14 islaw chwyddiant am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Fodd bynnag, gydag amddifadedd cymharol uchel mewn rhannau o'n rhanbarth, erys fforddiadwydd yn her allweddol i ni o hyd. Mae tua 60,000 o gwsmeriaid yn cael cymorth i dalu eu biliau drwy ein tariffau cymdeithasol a bwriadwn gyflwyno tariff newydd yn 2015 a fydd yn cynyddu nifer y bobl sy'n cael cymorth i fwy na 100,000 erbyn 2020.

Er gwaetha'r cymorth a roddwn i'r rhai hynny sydd wir yn cael anhawster i dalu eu biliau, mae lefelau cymharol uchel o ddyled o hyd yn ein hardal weithredol gyda chwsmeriaid dŵr yn talu tua £20 yn ychwanegol ar filiau blynyddol er mwyn talu am gost y rhai nad ydynt yn dewis talu neu na'r rhai na allant dalu. Bwriadwn leihau'r ddyled drwy ddefnydd gwell o wybodaeth am gwsmeriaid, a chefnogwn reoliadau newydd Llywodraeth Cymru a fydd yn annog landlordiaid i anfon manylion eu tenantiaid atom oherwydd dylai hyn ein helpu i leihau cost dyledion sy'n broblem benodol o ran eiddo â thenant.

ARLOESI AC EFFEITHLONRWYDD

Un o elfennau allweddol ein cynllun i roi gwell gwerth am arian i'n cwsmeriaid yw pennu targedau heriol i ni'n hunain o ran lleihau costau. Er mai ni yw'r unig gwmni dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr sydd wedi lleihau ein costau gweithredu mewn termau real ers 2001, rydym am adeiladu ar y llwyddiant hwn a hyrwyddo mentrau megis ein technegau rheoli dŵr wyneb sy'n arwain y gad yn y diwydiant, sef GlawLif. Dyma pam yr aethom ati hefyd i sefydlu ein Labordy syniadau ein hunain yn 2013 sydd bellach yn ein galluogi i fuddsoddi mewn mwy o amser ac adnoddau er mwyn datblygu syniadau newydd. Rydym hefyd yn hyrwyddo ymarfer arloesol drwy feincnodi a rhannu arfer gorau gyda chwmnïau dŵr rhyngwladol eraill megis Oasen Drinkwater yn yr Iseldiroedd.


LLUNIO'R DYFODOL

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae cwmnïau dŵr wedi cyflwyno eu Cynlluniau Busnes ar gyfer 2015 i 2020 i reoleiddiwr y diwydiant, Ofwat. A ninnau mewn sefyllfa unigryw i sicrhau bod ein Cynllun yn cael ei ysgogi'n gyfan gwbl gan anghenion a dymuniadau ein cwsmeriaid a rhanddeiliad eraill, cynhaliwyd ein hymarfer ymchwil ac ymgynghori â chwsmeriaid mwyaf erioed. Cymerodd dros 11,000 o gwsmeriaid a rhanddeiliad ran yn 'Eich Cwmni, Eich Barn' a arweiniodd at gyfradd derbyn o 94% o ran ein buddsoddiad arfaethedig gwerth £1.5 biliwn. Mae'n cynnwys nifer o welliannau uchelgeisiol i wasanaethau a'r amgylchedd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ein cwsmeriaid, gan gynnwys ein hymrwymiad i sicrhau bod cynnydd mewn prisiau o leiaf 1% islaw cyfradd chwyddiant bob blwyddyn tan 2020.

Rydym hefyd wedi gweld llawer o drafodaeth yn 2013 i 2014 ynglŷn â chyfeiriad rheoleiddio yn y diwydiant dŵr gyda Deddf Dŵr 2014 Llywodraeth y DU a 'Strategaeth Dŵr Cymru' Llywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i chwarae rhan weithredol yn y broses o lywio'r trafodaethau polisi hyn er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa o hyd i barhau i roi'r gwerth gorau posibl i'n cwsmeriaid.

Fel un o gwmnïau mwyaf blaenllaw Cymru, rydym wedi parhau i wneud cynnydd da yn 2013-14. Mae'r ffaith ein bod wedi cyflawni'r perfformiad hwn mewn amgylchiadau heriol i'w phriodoli'n llwyr i ymdrechion mawr y tîm yma yn Dŵr Cymru, ynghyd â gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'n contractwyr a'n cadwyn gyflenwi. Rydym bob amser yn anelu at wneud y peth iawn dros ein cwsmeriaid a lle nad ydym yn cael pethau'n iawn, byddwn bob amser yn agored ac yn onest wrth geisio unioni'r sefyllfa.

Drwy weithredu felly, cawsom ein cydnabod yn 2013 gan Busnes yn y Gymuned Cymru fel 'Cwmni Mawr Cyfrifol y Flwyddyn'. Gyda'n gilydd, mae Dŵr Cymru a'n cwsmeriaid wedi cyfrannu tua £5 miliwn i'n helusen enwebedig, WaterAid, dros y 10 mlynedd diwethaf. Nod yr elusen yw trawsnewid bywydau drwy wella mynediad at ddŵr diogel, hylendid a glanweithdra ymhlith cymunedau tlotaf y byd.



Fel un o'r cwmnïau cyntaf i lofnodi Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2011, rydym yn benderfynol o hyd i chwarae ein rhan yn y gwaith o wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru yn yr hirdymor.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a fu'n rhan o'n blwyddyn orau erioed o ran perfformiad cyffredinol. Mae ymrwymiad di-syfl a phroffesiynoldeb ein cydweithwyr yn golygu y gallwn adeiladu ar y llwyddiant hwn er mwyn sicrhau ein bod gyda'r gorau yn y diwydiant dŵr a dŵr gwastraff ac y gallwn wireddu ein gweledigaeth o ennyn ymddiriedaeth cwsmeriaid drwy'r amser.





Chris Jones, Prif Weithredwr
12 Mehefin 2014

CERDYN SGORIO

PERFFORMIAD 2013-14

On most of the measures that matter for our customers and other stakeholders, our performance now ranks us towards the top of the industry league tables.

The regulated water industry is particularly measurable, which allows the Board to set targets for the business that are based on sector benchmarks and to judge where we stand compared with the best performers in the sector. We use a number of key measures to make up our Performance Scorecard against which – alongside the achievement of cost efficiency targets – variable pay for every member of staff is calculated. Last year we achieved or beat the targets set by the Board for 13 of the 18 measures on our Performance Scorecard.



PWY YDYM

Dŵr Cymru yw'r chweched mwyaf o blith y deg cwmni dŵr a dŵr gwastraff a reoleiddir yng Nghymru a Lloegr.

Ein prif gyfrifoldeb yw sicrhau dŵr yfed diogel a dibynadwy a glanweithdra i'r 3.2 miliwn o bobl a wasanaethwn yng Nghymru, swydd Henffordd a rhannau o Lannau Dyfrdwy.

Rydym yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol ac, fel gwarcheidwaid y diwydiant dŵr yn ein hardal, rydym yn gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd a darparu gwasanaeth dibynadwy o safon uchel i'n cwsmeriaid.

Mae llawer o'r hyn a wnawn o ddydd i ddydd yn ymwneud â gweithredu a chynnal a chadw rhwydwaith enfawr o asedau a fyddai'n costio tua £26 biliwn i'w hailadeiladu - sy'n cyfateb i £20,000 fesul cwsmer sy'n ddeiliad tŷ.

Rydym yn darparu ein gwasanaethau drwy:

- rheoli 91 o gronfeydd dŵr a chyflenwi dros 800 miliwn litr o ddŵr yfed diogel a glân bob dydd drwy fwy na 27,000km o bibellau. Rydym hefyd yn cynnal bron 400,000 o brofion y flwyddyn ar ddŵr tap yn ein labordai hynod fodern yng Nghasnewydd yn y de ac yn Bretton yn y gogledd

- casglu dŵr gwastraff (gan gynnwys dŵr wyneb) drwy fwy na 30,000km o garthffosydd. Rydym yn ymdrin â mwy na 2,000 o achosion o bibellau wedi'u blocio y mis ac yn llwyddo i atal llifogydd neu lygredd mewn 99% o achosion, gan helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd

- rheoli 40,000 hectar o dir. Mae hyn yn cynnwys pedair canolfan i ymwelwyr sydd, gyda'i gilydd, yn denu tua 1 filiwn o ymwelwyr y flwyddyn

- cyflogi bron 3,000 o gydweithwyr ledled Cymru, swydd Henffordd a rhannau o Lannau Dyfrdwy a chefnogi 3,500 o swyddi eraill er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth hanfodol o'r radd flaenaf.





EIN GWELEDIGAETH A'N GWERTHOEDD

Mae'n rhaid bod cwsmeriaid yn gallu ymddiried bod y gwasanaethau hanfodol a ddarparwn yn ddiogel ac o'r safon uchaf.

Gwyddom fod yn rhaid bod modd dibynnu arnom i wneud y peth iawn ar eu rhan. Dyna pam rydym yn rhoi ein cwsmeriaid yn gyntaf. Nhw sydd wrth wraidd popeth

a wnawn.

Byddwn yn gwneud hyn drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol o safon uchel sy'n diogelu iechyd ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'r amgylchedd o'n cwrdd.

Byddwn ni'n ennill ffydd ein cwsmeriaid bob dydd.

ONEST gyda phawb

RHAGORI yn ein gwaith

BALCH o roi cwsmeriaid yn gyntaf

YMDDIRIED ynom i wneud y peth iawn

AGORED i syniadau newydd

DIOGEL ym mhopeth a wnawn

PAM EIN BOD YN WAHANOL

Mae Dŵr Cymru o dan berchenogaeth Glas Cymru Cyfyngedig, sef cwmni un diben heb gyfranddalwyr sy'n cael ei redeg er budd cwsmeriaid yn unig. Sefydlwyd Glas Cymru yn benodol i fod yn berchen ar Dŵr Cymru, ei ariannu a'i reoli.


Mae ein strwythur llywodraethu yn cael ei gefnogi gan y rôl a chwaraeir gan Aelodau Glas, nad oes ganddynt fudd ariannol yn y cwmni ond sy'n cyflawni swyddogaeth llywodraethu hanfodol ac sy'n dwyn y Bwrdd i gyfrif er llywodraethu da y Grŵp. Amlinellir strwythur y Grŵp yn fanylach ar dudalen 57.

Unig ddiben Dŵr Cymru yw darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff o safon uchel am y gost leiaf bosibl i'w gwsmeriaid, yn awr ac am amser hir i ddod. Gan nad oes cyfranddalwyr, nid yw'n talu difidendau ac mae hyn yn galluogi'r cwmni i rannu ei holl enillion gyda'i gwsmeriaid.

Rhwng 2010 a 2015, rydym ar y trywydd iawn i ddychwelyd £136 miliwn i gwsmeriaid drwy fuddsoddi:

- £87 miliwn i ariannu prosiectau cyfalaf wedi'u cyflymu drwy gyllid er mwyn gwella gwasanaethau i gwsmeriaid a'r amgylchedd
- £22 miliwn i helpu cwsmeriaid sy'n cael anhawster i dalu eu biliau
- £27 miliwn i dalu am gostau rhwymedigaethau cyfreithiol newydd megis trosglwyddo 17,000 km o garthffosydd preifat yn 2011.

MODEL GLAS CYMRU



THE GLAS CYMRU BOARD OF DIRECTORS



ROBERT AYLING,
Cadeirydd



JOHN BRYANT,
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol



CHRIS JONES,
Prif Weithredwr



PETER PERRY,
Prif Swyddog Gweithredu



GRAHAM EDWARDS,
Cyfarwyddwr Anweithredol



YR ATHRO STEPHEN PALMER,
Cyfarwyddwr Anweithredol



MENNA RICHARDS,
Cyfarwyddwr Anweithredol



JAMES STRACHAN,
Cyfarwyddwr Anweithredol



ANNA WALKER,
Cyfarwyddwr Anweithredol



JOHN WARREN,
Cyfarwyddwr Anweithredol

EIN DIWYDIANT A'N RHEOLEIDDWYR

Mae Dŵr Cymru yn un o blith deg cwmni dŵr a dŵr gwastraff ac mae naw cwmni rhanbarthol hefyd sy'n cyflenwi gwasanaethau dŵr yn unig mewn rhai ardaloedd.

Mae ein rheoleiddwyr yn cynnwys y canlynol:

- Mae **Ofwat** (ein rheoleiddiwr economaidd) yn bodoli er mwyn sicrhau bod cwmnïau dŵr yn darparu gwasanaeth o safon dda am bris teg. Mae'n pennu terfynau prisiau ar gyfer biliau cwsmeriaid er mwyn sicrhau nad ydynt yn uwch nag sydd ei angen. Mae'n asesu'r costau gweithredu a'r buddsoddiad sydd ei angen arnom er mwyn cynnal a chadw ein rhwydwaith o asedau er mwyn bodloni'r safonau gofynnol a darparu gwasanaethau o safon uchel i gwsmeriaid. Mae Ofwat yn hyrwyddo buddiannau cwsmeriaid drwy gymell effeithlonrwydd a gwasanaeth da a chosbi aneffeithlonrwydd a gwasanaeth gwael
- Mae'r **Cyngor Defnyddwyr Dŵr** (corff annibynnol a sefydlwyd i gynrychioli buddiannau cwsmeriaid) yn ymchwilio i gwynion, yn hyrwyddo materion sy'n bwysig i gwsmeriaid, ac yn archwilio ein perfformiad mwy cyffredinol ar wasanaeth cwsmeriaid, yn ogystal â dylanwadu ar bolisi
- Mae **Llywodraeth Cymru** yn gosod y fframwaith ar gyfer materion polisi cyhoeddus i Gymru, gan gynnwys polisi a deddfwriaeth ar faterion dŵr ac amgylcheddol

— Caiff ansawdd dŵr yfed ei reoleiddio a'i fonitro gan yr **Arolygiaeth Yfed Dŵr**

— Caiff ein perfformiad amgylcheddol, yn enwedig y ffordd rydym yn tynnu dŵr o afonydd a chronfeydd dŵr ac yna'n gollwng dŵr gwastraff ar ôl iddo gael ei lanhau, ei reoleiddio gan **Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd**. Maent yn goruchwyllo'r ffordd rydym yn rheoli safleoedd dynodedig ar gyfer gwarchod natur a'r ffordd rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau i warchod a gwella bioamrywiaeth a'n hadnoddau naturiol

— Yr **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** yw'r rheoleiddiwr annibynnol cenedlaethol ar gyfer iechyd, diogelwch a salwch sy'n ymwneud â gwaith

— Prif nod **Comisiynydd y Gymraeg** yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym yn cyflwyno adroddiad cydymffurfio blynyddol i swyddfa'r Comisiynydd sy'n manylu ar y ffordd rydym wedi cydymffurfio â darpariaethau ein Cynllun Iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu sut y darparwn wasanaethau dwyieithog i'n cwsmeriaid.

GWRANDO AR EIN CWSMERIAID



Fel cwmni heb gyfranddalwyr, rydym mewn sefyllfa unigryw i sicrhau bod ein cynlluniau'n cael eu llunio'n gyfan gwbl yn ôl anghenion a dymuniadau ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.



Dyna pam mae gwranddo ar ein cwsmeriaid mor bwysig i ni ac rydym yn falch o fod wedi cynnal ein hymgynghoriad mwyaf erioed â chwsmeriaid a rhanddeiliaid yn 2013 er mwyn llunio ein Cynllun Busnes ar gyfer 2015 i 2020.

Roedd hyn yn cynnwys:

- trefnu chwe sioe deithiol tri diwrnod a ymwelodd â chymunedau o Abertawe i Landudno
- cynnal 3,000 o gyfweiliadau
- gwahodd cwsmeriaid a rhanddeiliaid i wyth noson agored
- cydlynw gweithdy i rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr cwsmeriaid y mae eu sefyllfa ariannol yn fregus
- cynnal 40 o grwpiau ffocws gyda gwahanol fathau o gwsmeriaid.

8,800

wedi ymweld â sioe deithiol

260,000

o argraffiadau facebook

200,000

o negeseuon trydar

3,900

o drawiadau ar y wefan

Ers i ni gyflwyno ein Cynllun Busnes gwreiddiol ar gyfer 2015 i 2020 i Ofwat ym mis Rhagfyr 2013, rydym wedi diwygio ein Cynllun mewn ymateb i waith ymchwil newydd ynglŷn â chwsmeriaid a gwaith ymchwil economaidd a chanllawiau rheoleiddio newydd. Cawsom benderfyniad drafft gan Ofwat ar 30 Mai, yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd. Caiff penderfyniad terfynol ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2014.

Mae'r penderfyniad drafft yn cynnig gostyngiad o 5% cyn chwyddiant ym mil dŵr a dŵr gwastraff cyfartalog cartref erbyn 2020 tra'n gwneud y buddsoddiad mwyaf erioed o £2.5 biliwn.

Mae newidiadau allweddol eraill yn cynnwys:

- bydd bil cyfartalog cartref yn 2019-20 £21 yn is nag yn 2014-15 cyn chwyddiant
- graddfa symudol o wobrau a chostau ariannol i adlewyrchu perfformiad uwch neu is na'r hyn a ddisgwyllir.

RHEOLI RISG AC ANSICRWYDD

Gwyddom fod rheoli risg yn effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau strategol.

Ceir nifer o risgiau ac ansicrwydd masnachol a allai gael effaith sylweddol o safbwynt gweithredol, ariannol ac enw da ac rydym yn buddsoddi cryn adnoddau i nodi, dadansoddi a rheoli'r heriau hyn:

— mae pob aelod o'n tîm arweinyddiaeth yn cynnal cofrestr fanwl o risgiau, sy'n cael ei hadolygu'n fisol gyda'u timau. Caiff y risgiau sylweddol gan bob tîm eu cyflwyno i gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a'u hadolygu bob mis

— wedyn caiff y risgiau hyn eu 'mapio' i Risgiau Strategol cyfredol y Bwrdd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fylchau ac er mwyn rhoi darlun o statws cyfredol pob risg, gan ystyried effeithiolrwydd y camau lliniaru sy'n cael eu cymryd

— caiff Adroddiad Dadansoddi Risg Strategol, sy'n dangos gwaith mapio materion cyfredol a chamau lliniaru yn erbyn pob Risg Strategol ei gynnwys ym mhapurau pob cyfarfod Bwrdd ac mae ystyried yr adroddiad yn eitem ar yr agenda. Mae Aelod Gweithredol yn berchen ar bob risg yn yr Adroddiad Dadansoddi Risg Strategol er mwyn sicrhau cysondeb ac atebolrwydd

— bob chwe mis mae'r Bwrdd yn adolygu p'un a yw o'r farn bod y risgiau a restrwyd yn dal i gyfateb i'r risgiau pwysicaf a chytunir ar restr newydd o risgiau strategol

— mae atebolrwydd ar y Pwyllgor Archwilio i oruchwyllo'r prosesau a'r gweithdrefnau rheoli risg, a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd.

Mae llwyddiant hirdymor y Grŵp yn dibynnu ar nodi, asesu a rheoli risgiau'n effeithiol ac mae pob cydweithiwr yn chwarae rhan yn ein proses o reoli risg. Mae'r dull hwn o reoli risg o'r gwaelod i'r brig yn rhoi sicrwydd bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol gan y busnes er mwyn nodi'r meysydd hynny lle mae angen cymryd camau lliniaru pellach ac er mwyn helpu'r Bwrdd i adolygu risgiau strategol a wynebwr gan y busnes.

RYDYM YN DEFNYDDIO MODEL 'AMDDIFFYN TAIR LLINELL' I SICRHAU CYDYMFFURFIAETH Â RHEOLAETHAU MEWNOL:



Mae'r Bwrdd o'r farn bod y prif risgiau ac ansicrwydd sy'n effeithio ar weithgareddau busnes y cwmni yn cynnwys y canlynol:

RISGIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN Y GRŴP

RISGIAU ALLWEDDOL

1 ACHOS MAWR SY'N EFFEITHIO AR IECHYD A DIOGELWCH
Iechyd a Diogelwch ein cyflogaion a'r cyhoedd wrth ddarparu ein gwasanaethau ac ar ein safleoedd yw ein blaenoriaeth bennaf. Byddai risg achos mawr sy'n effeithio ar iechyd a diogelwch yn cynnwys damwain bosibl i aelod o'r cyhoedd, ar un o'n safleoedd neu o ganlyniad i'n gweithredoedd, neu i gyflogai wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau.

2 RISG O ACHOS MAWR SY'N EFFEITHIO AR IECHYD Y CYHOEDD
Gallai unrhyw broblem sy'n effeithio ar ansawdd dŵr yfed (e.e. cryptosporidiwm neu fethiant bacteriolegol) achosi salwch i'n cwsmeriaid, a byddai angen hysbysiad berwi dŵr eang er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, gan darfu ar ein cwsmeriaid. Gallai achos o'r fath hefyd arwain at erlyniad.

3 CANLYNIAD CYNLLUN BUSNES 2015 I 2020 (PR14)
Bu hon yn flwyddyn o ansicrwydd ynglŷn â chynlluniau buddsoddi a lefelau biliau yn y dyfodol ar gyfer pob cwmni dŵr a dŵr gwastraff, tra'n aros canlyniad proses adolygu prisiau 2014 (PR14) a'r penderfyniad terfynol ar y materion hyn gan y rheoleiddiwr economaidd, Ofwat. Gallai'r canlyniad yn y diwedd gael effaith ar gynlluniau buddsoddi'r cwmni ar gyfer 2015-2020, ei ddulliau ariannu a'i statws credyd. Gallai penderfyniad heriol iawn ei gwneud yn amhosibl i gyflawn ein buddsoddiadau arfaethedig, gan beri risgiau hirdymor i wasanaeth cwsmeriaid, dibynadwyedd asedau a pherfformiad gweithredol.

4 DYLED DEFNYDDWYR

Mae newidiadau i'r system budd-daliadau a'r wasgfa o hyd ar safonau byw yn peri risg i brosesau casglu arian.

5 METHIANT I SICRHAU GOSTYNGIADAU MEWN COSTAU
Y risg na fydd y cwmni yn gallu sicrhau'r gostyngiadau mewn costau dros y flwyddyn nesaf ac yn ystod y cyfnod buddsoddi rheoleiddiol er mwyn cyflawni'r targedau llym a nodir yn ein Cynllun Busnes PR14.

6 DIWYGIADAU I'R FARCHNAD A DATBLYGIAD PARHAUS Y FARCHNAD GYSTADLEUOL

Y risg o newidiadau posibl i'r farchnad gan gynnwys cyflwyno cystadleuaeth fasnachol i gwsmeriaid busnes, a fydd yn golygu newidiadau sylweddol i'r drefn reoleiddio o ganlyniad i weithredu Deddf Dŵr 2014.

CAMAU LLINIARU ALLWEDDOL

Mae gan Dŵr Cymru Strategaeth a Chynllun Rheoli Iechyd a Diogelwch ar waith gyda gweithdrefnau gweithredol wedi'u hachredu gan Wasanaethau Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.

Tynnir sylw at bwysigrwydd Iechyd a Diogelwch drwy gynlluniau cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth. Cynhaliwyd rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr i'n cydweithwyr. Eleni, canolbwyntiwyd ar raglen hyfforddiant diogelwch ymddygiadol o'r enw 'Safety Takes Every Person'. Cynhelir Diwrnodau Diogelwch chwarterol o dan arweiniad Cyfarwyddwr, Cynhadledd Iechyd a Diogelwch flynyddol, a Fforymau Ymgynghori Iechyd a Diogelwch Undebau Llafur ar lefel y cwmni ac ar lefel weithredol.

Cyflwynir adroddiadau ar Iechyd a Diogelwch i Fwrdd Weithredol Dŵr Cymru a'r Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd.

Mae gan Dŵr Cymru Strategaethau Dŵr Yfed ar waith sy'n cael eu cymeradwyo gan Bennaeth Ansawdd Dŵr a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr Yfadwy a'u monitor gan y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd.

Mae rhaglen buddsoddi cyfalaf o'r enw 'Go to Green' ar waith i adeiladu neu adnewyddu 12 o Weithfeydd Trin Dŵr am gost o tua £120 miliwn. Cynhelir adolygiad o ddata er mwyn dod o hyd i feysydd o risg bosibl a blaenoriaethu meysydd ar gyfer gwella.

Cafodd ein Cynllun Busnes gefnogaeth gref gan gwsmeriaid a byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos ag Ofwat er mwyn hyrwyddo'r canlyniadau hirdymor gorau i'n cwsmeriaid.

Rydym yn parhau i hyrwyddo ein cynllun cymorth a nifer o dariffau cymdeithasol i'r cwsmeriaid hynny sy'n cael anhawster gwirioneddol i dalu eu biliau. Bwriedir lansio cynllun newydd o fis Ebrill 2015, gyda'r nod o gynyddu nifer y rhai a all gael cymorth o blith y cwsmeriaid hynny sy'n cael anhawster i dalu eu biliau o 60,000 i 100,000. Er mwyn cadw biliau mor isel â phosibl, crëwyd tîm ymglyfreitha newydd gan ddefnyddio ein system rheoli dyled Tallyman III sydd wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar i gynyddu faint o ddyled a adenillir oddi wrth y rhai sy'n gallu talu.

Crëwyd cynllun lleihau costau ar gyfer 2014-15 er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni gofynion penderfyniad adolygiad 2009 Ofwat o brisiau. Mae Dŵr Cymru yn datblygu amrywiaeth eang o fentrau lleihau costau ar gyfer y pum mlynedd nesaf, er mwyn lleihau costau gweithredu a chyfalaf a chefnogi'r nodau heriol a nodir yn ein cynlluniau arfaethedig ar gyfer y cyfnod hwn. Caiff hyn ei ategu gan drefn rheoli cyllideb ac iddi reolaethau uwchdrosglwyddo clir.

Sefydlwyd Grŵp Llywio Agor y Farchnad er mwyn ystyried goblygiadau i'r busnes ac rydym yn dilyn datblygiadau yn y sector yn fanwl. Mae ein strategaeth fusnes wedi'i hanelu at ddarparu gwasanaethau o werth uchel a safon uchel i'n cwsmeriaid am bris cystadleuol.

RISGIAU ALLWEDDOL**7 RHEOLEIDDIO AMGYLCHEDDOL CYNYDDOL**

Gallai dehongliadau newydd o reoliadau sy'n bodoli eisoes neu'r ffordd y cânt eu gorfodi neu safonau rheoleiddio newydd arwain at gostau sylweddol i ni neu i'r sector yn ei gyfanrwydd.

CAMAU LLINIARU ALLWEDDOL

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n Panel Ymgynghorol Amgylcheddol Annibynnol er mwyn ceisio gwerth gorau i'n cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Rydym yn noddi gwaith ymchwil ac astudiaethau eraill i roi tystiolaeth i'r rhai sy'n llunio polisi er mwyn cefnogi proses gwneud penderfyniadau gwell. Rydym yn cynnal deialog strwythuredig rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU, a'n cymdeithas fasnach, Water UK, er mwyn gwerthuso unrhyw safonau rheoleiddio newydd neu addasedig.

8 CYDYMFFURFIO Â GOFYNION RHEOLEIDDIO

Mae rhwymedigaethau pwysig arnom i ddarparu gwybodaeth gyflawn a chywir i'n rheoleiddiwr. Gallai methiant i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn arwain at gosbau sylweddol. Mae adolygiad o'r ffordd rydym yn cofnodi data rheoleiddio wedi nodi rhai meysydd lle y gellir gwella ein gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cywirdeb adroddiadau a chydymffurfiaeth â gofynion adrodd.

Rhoddyd Tîm Cydymffurfiaeth newydd ar waith yn ystod y flwyddyn. Canolbwyntiodd ar helpu'r busnes i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion adrodd rheoleiddiol ac i fonitro datblygiadau arfer gorau yn y maes hwn.

9 DIRYWIAD POSIBL MEWN PERFFORMIAD

Er mai 2013 i 2014 oedd y flwyddyn gryfaf o bosibl hyd yn hyn i Dŵr Cymru o ran perfformiad gweithredol cyffredinol, nid ydym yn hunanodlon ac rydym wedi cymryd camau i warchod rhag dirywiad yn y perfformiad hwn. Gallai dirywiad parhaus mewn perfformiad dros ddwy flynedd arwain at asesiad defnyddioldeb 'ymylol' a risg o gosb mewn adolygiad dilynol o brisiau.

Caiff strategaethau gweithredol ar gyfer Ansawdd Dŵr a Dŵr Gwastraff eu hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Gweithredol, gyda buddsoddiadau cyfalaf yn cael eu targedu fel y bo'n briodol er mwyn lliniaru risgiau i berfformiad. Caiff perfformiad gweithredol ei olrhain drwy'r Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd.

10 METHIANT ASEDAU STRATEGOL

Gallai methiant asedau strategol neu rwydwaith arwain at lifogydd neu golli cyflenwad i filoedd o gwsmeriaid.

Mae gennym strategaethau asedau a chynllun rheoli asedau manwl er mwyn lleihau'r risg o fethiant asedau nas rhagwelwyd. Pan fo digwyddiadau, mae gweithdrefnau llym ar gyfer ymateb i achos brys sydd i'w dilyn gan dimau gweithredu. Mae gennym strategaeth gynhwysfawr ar gyfer diogelwch cronfeydd dŵr a rhaglen gwyliadwriaeth.

At hynny, rydym wedi cael adborth cadarnhaol ynglŷn ag archwiliadau diogelwch allanol eleni a byddwn yn parhau i adeiladu ar y camau a gymerwyd i sicrhau diogelwch ein hasedau.

11 GALLU SEFYDLIADOL, MATERION OLYNU A NEWID DIWYLLIANT

Gallai prinder cyflogaion brwdfrydig neu alluog arwain at wasanaeth gwael i gwsmeriaid neu gydymffurfiaeth wael, a gwaethygu risgiau strategol eraill a nodwyd.

Mae Dŵr Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o dalent ac adnoddau ac yn datblygu cyflogaion ar bob lefel drwy'r cwmni cyfan. Ceir rhaglenni i raddedigion, hyfforddeion a phrentisiaid yn ogystal â rhaglenni gweithredwyr cymwys a datblygu arweinyddiaeth. Lle y bo'n briodol ac yn angenrheidiol, ceir recriwtio allanol wedi'i dargedu.

Mae Dŵr Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o ymgysylltu â chyflogaion ac mae'r Bwrdd yn monitro ac yn adolygu'r canlyniadau. Eleni, cyflawnwyd cyfradd o 79% ar gyfer ymgysylltu â chyflogaion, sef y lefel ymgysylltu uchaf hyd yn hyn. Datblygwyd proses cynllunio camau gweithredu gynhwysfawr er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd.

12 RISG TGCH

Byddai colli gwasanaeth TGCh ar raddfa fawr yn peryglu perfformiad y busnes. At hynny, mae sawl cynllun gwella busnes yn dibynnu ar systemau TGCh newydd.

Crëwyd Bwrdd Systemau a Newid [pwyllgor rheoli mewnol] o dan arweiniad cyfarwyddwr er mwyn goruchwyllo rhaglen TGCh fawr, ac mae'r tîm TGCh mewnol wedi cael ei gynyddu i fodloni'r gofynion hyn. Yn 2013, rhoddyd sylw i wella systemau, diogelwch TGCh a chadw dogfennau.

EIN CYNLLUN AR GYFER 2014-15

Bydd 2014 i 2015 yn 'flwyddyn o drawsnewid' i Dŵr Cymru. Yn ystod y flwyddyn olaf hon o'r cylch buddsoddi cyfredol, mae'r cwmni yn anelu at gyflawni'r targedau gweithredol a pherfformiad gwasanaethau cwsmeriaid ymestynol iawn, am gost sylweddol is.

Yn y byrdymor, mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2014-15 yn nodi 12 o flaenoriaethau allweddol i'r cwmni. Mae'r rhain yn cynnwys amcanion perfformiad ar gyfer cydymffurfiaeth, gwasanaeth cwsmeriaid a chost. Os caiff y targedau hyn eu cyflawni, byddent yn golygu bod ein lefelau o wasanaeth gyda'r gorau yn y sector o ran y rhan fwyaf o fesurau.


BLAENORIAETHAU BUSNES ALLWEDDOL AR GYFER 2014 I 2015:

CWSMER

1. **Iechyd a diogelwch:** Canolbwyntio ar ddiogelwch ymddygiadol; datblygu dull gweithredu 'diogelwch proses' mewn timau perthnasol.
2. **Gwelliannau i wasanaeth cwsmeriaid:** Gwella prosesau gwasanaeth cwsmeriaid a hyrwyddo sianeli gwasanaeth ar-lein.

COST

3. **Costeffeithlonrwydd:** Bydd angen gwneud arbedion sylweddol er mwyn cyrraedd targedau ar gyfer 2010 i 2015 a thalu am gostau ynni cynyddol.
4. **Sefydlu cangen fasnachol:** Caiff tîm bach ei greu i ystyried cyfleoedd masnachol newydd gan gynnwys prosiectau ynni adnewyddadwy ychwanegol.
5. **Cynllunio ar gyfer 2020:** Disgwylir i Ofwat gyhoeddi'r penderfyniad terfynol ar gyfer y cyfnod buddsoddi rheoleiddiol nesaf rhwng 2015 a 2020 ym mis Rhagfyr 2014 ac mae Ofwat hefyd yn datblygu cynlluniau ar gyfer cystadleuaeth gynyddol yn Lloegr yn 2017. Byddwn yn adolygu goblygiadau'r penderfyniadau hyn a sut maent yn effeithio ar Dŵr Cymru.



CYDYMFFURFIAETH

6. **Perfformiad dosbarthu dŵr gwell:** Gwella strategaethau gweithredol a mabwysiadu ymagwedd cynllun diogelwch dŵr yfed.
7. **Perfformiad amgylcheddol:** Cynnal perfformiad rhagorol ynglŷn â llygru amgylcheddol a throsglwyddo'r un adnoddau i fuddsoddi er mwyn atal carthffosydd rhag gorlifo mewn eiddo.
8. **Pobl a diwylliant:** Parhau i ddatblygu ein pobl, atgyfnerthu ein cronfa o reolwyr cadarn a'n harbenigwyr ac ymgorffori ein gweledigaeth a'n gwerthoedd.
9. **Cydymffurfiaeth â sefyllfa reoleiddiol:** Bydd i gydymffurfiaeth fwy o broffil drwy'r busnes cyfan a bydd y Tîm Cydymffurfiaeth newydd yn canolbwyntio ar amrywiaeth ehangach o faterion.

GALLUOGWYR

10. **Gweithrediadau darbodus:** Cyflwyno arferion gweithredu Darbodus ym mhob gwaith trin dŵr a chanolfan trin llaid dŵr gwastraff.
11. **Datblygu busnes clyfar:** Datblygu strategaethau arloesol ar gyfer dŵr a dŵr gwastraff hyd at 2020; symud tuag at reoli rhwydweithiau mewn amser real a tharged buddsoddi'n well.
12. **Rhaglen newid TGCh:** Adnewyddu ein system filio (Prosiect Newid); diweddarau ein systemau gweithredu TG (Prosiect RevITalise).

Ar yr un pryd, dros y 12 mis nesaf byddwn hefyd yn datblygu nifer o strategaethau gwella busnes allweddol, a fydd yn ein rhoi mewn sefyllfa i ateb yr heriau hyd yn oed mwy ymestynnol yn y cyfnod buddsoddi nesaf o 2015 i 2020 - o ran lleihau costau, targedau perfformiad a gwerth a ddychwelir i gwsmeriaid. Rydym wedi datblygu Cynllun Busnes manwl ar gyfer 2015 i 2020 sy'n nodi ein hamcanion a'n targedau perfformiad ar gyfer y cyfnod. Efallai y bydd angen diwygio'r cynllun hwn yng ngoleuni Penderfyniad Terfynol Ofwat ym mis Rhagfyr 2014.

MESUR EIN CYNNYDD

Mae ein gwaith cynllunio busnes wedi'i strwythuro ar sail wyth 'canlyniad' allweddol sydd wedi ysgogi perfformiad ers cyhoeddi 'Ein Dyfodol Cynaliadwy' yn 2007 ac sydd wedi cael eu defnyddio yn ein Cynllun Busnes diweddaraf ar gyfer 2015-2020.

Gyda thargedau heriol ond cyflawnadwy ar gyfer pob canlyniad, mae'n rhoi llwyfan cyson a thryloyw i ni allu mesur ein perfformiad gweithredol, amgylcheddol ac ariannol a'n perfformiad cwsmeriaid er mwyn cadarnhau ein cynnydd.

YR WYTH CANLYNIAD ALLWEDDOL RYDYM YN ANELU AT EU CYFLAWNI YW:



1

DŴR YFED O SAFON UCHEL

Byddwch yn hollol ffyddiog bod eich dŵr yfed yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn blasu'n dda.



4

GWASANAETH CWSMERIAID RHAGOROL

Bydd ein gwasanaeth i gwsmeriaid cystal â'r cwmnïau cyfleustodau gorau yn y DU.



2

DIOGELU'R AMGYLCHEDD

Byddwn yn diogelu amgylchedd cynaliadwy y byddwn yn falch o'i drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.



5

BILIAU FFORDDIADWY

Bydd ein prisiau yn rhoi gwerth da am arian i'n cwsmeriaid, gydag amrywiaeth effeithiol o gymorth ar gael i'r rhai sy'n cael anhawster talu.



3

YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD

Byddwn yn addasu ein gweithgareddau er mwyn ymdrin ag effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd, tra'n lleihau ein hól troed carbon ein hunain.



6

GOFALU AM EIN HASEDAU

Byddwn yn cynnal ein hasedau i genedlaethau'r dyfodol, am y gost fwyaf effeithlon.



8

BUSNES EFFEITHLON

Byddwn yn parhau i fod yn fusnes effeithlon gydag ansawdd credyd cadarn.



7

DATBLYGU EIN POBL

Byddwn yn datblygu tîm o bobl a fydd yn darparu gwasanaeth gwyb i'n cwsmeriaid.

Drwy sicrhau'r canlyniadau hyn a mesurau atodol, byddwn yn rhoi gwell gwerth am arian i gwsmeriaid, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r rhain yn sail i'n cynlluniau hirdymor a'u nod yw ymateb i faterion a heriau sy'n codi fel y gallwn barhau i ennill ymddiriedaeth ein cwsmeriaid ymhell yn y dyfodol.



EURWYN THOMAS — Peiriannydd Piblinellau

Cadw dŵr i lifo am
41 o flynyddoedd

1

DŴR YFED O
SAFON UCHEL

EIN HUCHELGAIS:

Byddwch yn hollol ffyddiog bod eich dŵr yfed yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn blasu'n dda.

CYFLWYNIAD

Gwyddom mai cyflenwi dŵr yfed diogel drwy'r amser yw ein cyfrifoldeb pwysicaf. Mae darparu 800 miliwn litr o ddŵr tap glan o safon uchel i'n cwsmeriaid bob dydd - sy'n cyfateb i fwy na 320 o byllau nofio Olympaidd - yn gwneud cyfaniad hollbwysig i iechyd y cyhoedd ac felly gwyddom fod yn rhaid nad oes ynddo gemegion niweidiol na bacteria a'i fod yn blasu'n dda.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dim ond tua 3% o 'lawiad gweithredol' yng Nghymru rydym yn ei dynnu ar gyfer y cyflenwad cyhoeddus tra'n cynnal dros 1,000,000 o brofion bob blwyddyn yn ein labordai hynod fodern ar samplau a dynnwyd o'n ffynonellau dŵr amrywiol (llynnoedd, afonydd a chronfeydd dŵr). Caiff 400,000 o brofion eraill eu cynnal a'u dadansoddi o dan reoliadau sy'n cael eu monitro gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a'u hasesu yn erbyn cyfres unigryw a helaeth o safonau a bennir gan Gyfarwyddbau'r UE a deddfwriaeth y DU.

UCHAFBWYNTIAU

Yn 2013, gwnaeth safon uchel y dŵr a gyflenwn wella hyd yn oed ymhellach gyda 99.97% (2012: 99.96%) o samplau a gafodd eu tynnu a'u dadansoddi yn cyrraedd safonau ansawdd dŵr yfed o dap cwsmeriaid. Gyda dim ond un methiant bacteriolegol (2012: 3) yn ein gweithfeydd trin dŵr, rydym unwaith eto wedi cyflawni ein targedau perfformiad o ran pedwar o'r chwe mesur allweddol a ddefnyddir gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed i fesur cydymffurfiaeth ag ansawdd dŵr ym mhob pwynt yn y system cyflenwi dŵr. Llwyddwyd i ragori hefyd ar gyfartaledd y diwydiant o ran pedwar o'r chwe mynegai allweddol hyn.

Cydymffurfiaeth
gyffredinol o 99.97%
o ran ansawdd dŵr

Yn seiliedig ar ein Cynlluniau Diogelwch Dŵr Yfed, rydym yn adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy nodi ac ymdrin â risgiau posibl i ddŵr tap (o'r tarddle i'r tap). Oherwydd ansawdd dŵr heb ei drin sy'n newid, mae'r problemau hyn wedi bod yn fwy amlwg yn y gogledd ac felly rydym ar gam datblygedig iawn o adeiladu gweithfeydd trin dŵr newydd sbon yn Llyn Conwy ger Betws-y-coed (£15 miliwn), Alwen ar Fynydd Hiraethog (£10 miliwn), Alaw (£17 miliwn) a Cefni (£15 miliwn) ar Ynys Môn, Dolbenmaen ger Porthmadog (£28 miliwn) a'r Bont-goch yn y canolbarth (£9 miliwn). Mae ein cronfa ddŵr wasanaethu newydd gwerth £9 miliwn yng Nghoed Dolwyd hefyd yn gwbl weithredol bellach gan gynnig sicrwydd cyflenwad ychwanegol i 70,000 o gwsmeriaid ym Mae Colwyn a Llandudno.

£120m

wedi'i fuddsoddi mewn
adeiladu neu uwchraddio
12 gwaith trin dŵr

HERIAU A WYNEBIR

Haeearn yw un o'r prif achosion dŵr wedi'i afliwio yng nghartrefi a busnesau ein cwsmeriaid ac erys yn bryder o hyd ar ôl i ni fethu â chyrhaedd y targed o 99.70% eleni drwy gyflawni cydymffurfiaeth o 99.54% yn unig. Er gwaethaf y rhaglen adnewyddu prif bibellau dŵr dros y ddeng mlynedd ddiwethaf sy'n cynnwys adnewyddu 13km o brif bibellau dŵr haeearn yn Henffordd a Chasnewydd ar gost o £2 filiwn yn ddiweddar, mae dros 6,500km o brif bibellau haeearn heb leinen o hyd a all afliwio dŵr. Er y byddwn yn parhau i fynd i'r afael â hyn rhwng 2015 a 2020, erys yn risg sylweddol ac yn her fawr i ni, yn enwedig mewn mannau megis swydd Henffordd, Caergybi a'r Wyddgrug, Caerdydd a Chasnewydd lle ceir problemau penodol.

Dim mesurau
cyfyngu ar ddŵr ers
dros 25 mlynedd.

O ganlyniad i batrymau tywydd eithafol dros y 12 mis diwethaf, rhoddwyd ein rhwydwaith o dan bwysau mawr. Yn sgil cyfnod hir o dywydd poeth a sych yn ystod yr haf, gwelwyd galw cynyddol am ddŵr gyda chyflenwadau'n cynyddu i ychydig o dan 1,000 miliwn litr y dydd – y lefel uchaf ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, ar ôl cludo cyflenwadau ychwanegol mewn tanceri i lawer o'n cronfeydd dŵr gwasanaethu, ymdopwyd yn dda y cyfan er bod yn rhaid i ni reoli ardaloedd o bwysedd isel ac afliwio drwy'r rhwydwaith i gyd. Er i hyn arwain yn uniongyrchol at gynydd o 30% yn nifer y galwadau gan gwsmeriaid yn ystod mis Gorffennaf o gymharu â gweddill y flwyddyn, roedd ein cyfradd cyswllt cwsmeriaid yn 2013, sef 2.02 fesul 1,000 o gwsmeriaid, yn is na'r flwyddyn flaenorol (2012: 2.14). Er gwaethaf y cyfnod heriol hwn lle cafodd adnoddau penodol ar gyfer gollyngiadau eu dargyfeirio er mwyn cynnal cyflenwadau dŵr, llwyddwyd o hyd i gyflawni ein targed heriol o ran gollyngiadau ar gyfer y flwyddyn.

Ar ôl y cyfnod sych hwn, cafwyd gaeaf eithriadol o wlyb a gwyntog a arweiniodd at fethiannau pŵer a llifogydd mewn rhai o'n safleoedd trin dŵr a gorsafoedd pwmpio, a hynny ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen, ym mis Chwefror 2014. Bu'n heriol cynnal ein gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn a bu'n rhaid defnyddio generaduron fel mesurau wrth gefn ym mhob un o'n 66 o weithfeydd trin dŵr ar un adeg neu'i gilydd. Er i ni sicrhau'r cyflenwad o ddŵr yfed i'n cwsmeriaid yn ystod y tywydd eithriadol hwn yn 2013 i 2014 gan arwain at gostau ychwanegol, bu'r adnoddau ychwanegol hyn o gymorth i ni osgoi unrhyw darfu eang pellach ar wasanaethau.





Llanrath, sir Benfro
— Er i'r brif linell ddŵr
gael ei dinistrio gan y
môr stormus ym mis
Ionawr 2014, adferwyd
cyflenwadau ddŵr i'r
gymuned leol o fewn
tua phum awr.

EDRYCH YMLAEN

Fel rhan o'n cynlluniau i gynnal cyflenwad ddŵr dibynadwy yn ystod digwyddiadau tywydd eithriadol, rydym bellach wedi cyhoeddi ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 25 mlynedd er mwyn sicrhau y bydd digon o ddŵr i fodloni gofynion ein cwsmeriaid yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi llunio fersiwn terfynol o'n Cynllun Sychder oherwydd, er nad ydym wedi gorfod cyflwyno mesurau cyfyngu ar ddŵr ers dros 25 mlynedd, mae angen o hyd i ni ddeall a chynllunio sut y byddem yn ymateb i amodau tywydd eithriadol o'r fath. Bydd hyn yn ein galluogi i baratoi a gweithredu'r atebion gorau posibl er mwyn i ni barhau i ateb y galw gan ein cwsmeriaid yn ystod cyfnodau eithriadol o sych tra'n diogelu'r amgylchedd.

ASTUDIAETH ACHOS

MAE ALGÂU YN RISG ALLWEDDOL I ANSAWDD DŴR YN EIN CRONFEYDD DŴR.

Pan fydd ddŵr a dynnwyd i'w drin fel ddŵr yfed yn cynnwys blŵm algâu, gall atal hidlyddion a pheri i aroglau ddatblygu yn y ddŵr wedi'i drin. Rydym bellach yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ffyrdd arloesol newydd o reoli'r risg hon drwy osod bwi sain ar ddŵr wyneb y gronfa ddŵr. Mae hwn yn monitro ansawdd y ddŵr, yn nodi unrhyw algâu ac yn addasu ei don uwchsain yn awtomatig er mwyn dinistrio'r algâu. Bydd hyn yn ein helpu i wella ansawdd ddŵr a lleihau ein costau cyffredinol.



RICHARD POOLE — Rheolwr Tiroedd Ardal

Yn gweithio i ddiogelu ein
hamgylchedd - er mwyn
cwsmeriaid heddiw a
chenedlaethau'r dyfodol



2

DIOGELU'R
AMGYLCHEDD

EIN HUCHELGAIS:

Byddwn yn diogelu amgylchedd cynaliadwy y byddwn yn falch o'i drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

CYFLWYNIAD

Er mwyn darparu ein gwasanaeth cyhoeddus hanfodol a diogelu iechyd y cyhoedd, rydym yn dibynnu ar yr amgylchedd i dynnu dŵr ohono, yna ei drin cyn ei gyflenwi i gwsmeriaid ei ddefnyddio. Yna rydym yn ei gasglu eto i'w hidlo, ei drin a'i ddychwelyd i'n hafonydd a'n moroedd. Gyda thros 4,600 milltir o afonydd a 1,000 milltir o arfordir, mae'r ffordd rydym yn gwarchod yr amgylchedd yn hanfodol er budd hirdymor ein cwsmeriaid.

Mae angen i ni sicrhau bod ein hasedau'n gweithredu'n effeithiol a'n bod yn gallu trin carthion ac elifion a ollyngir yn unol ag amodau'r caniatadau a roddir gan ein rheoleiddwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y gallwn ddiogelu bywyd gwyllt, cynefinoedd a defnyddwyr eraill y dyfroedd hyn.

UCHAFBWYNTIAU

Mae ein rhwydwaith o garthffosydd wedi perfformio'n dda yn gyffredinol y rhan fwyaf o'r amser yn ystod y 12 mis diwethaf er gwaethaf yr amodau tywydd eithafol. Roedd nifer yr achosion o lygredd a gofnodwyd, sef 124, ar ei lefel isaf erioed, 40% yn is nag yn 2012 (205). Mae'r ffigur hwn hyd yn oed yn fwy trawiadol o'i gymharu â lefelau cyn 2009 pan gafwyd mwy na 300 o achosion o lygru bob blwyddyn yn aml.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi buddsoddi £62 miliwn i wella ein rhwydwaith dŵr gwastraff ac wedi gwella ein prosesau gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys tanc storio dŵr storm newydd gwerth £7 miliwn yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Heswall – maint tri phwll nofio Olympaidd – sydd wedi gwella ansawdd dŵr ym Moryd Afon Dyfrdwy. Enghraifft arall yw'r £2.5 miliwn a fuddsoddwyd yn y Bynia, Llanelli, er mwyn adnewyddu 1km o brif garthffos i gynyddu capasiti ar y rhwydwaith a gwella ei berfformiad yn ystod tywydd garw.

Mae ein 834 o safleoedd trin dŵr gwastraff wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn ac wedi ymdopi â'r dŵr ychwanegol yn sgil glaw trwm yn ystod y gaeaf. Erbyn hyn, ni sydd â'r record orau yn y diwydiant o ran achosion o lygredd fesul 100 ased trin ac er bod nifer y gweithfeydd sy'n methu â chydymffurfio'n llawn â chaniatadau gollwng ychydig yn fwy ers 2012, o 8 i 12, rydym yn dal i fod o fewn y targed a bennwyd gan Ofwat.

33

Mae ein buddsoddiad yn y rhwydwaith o garthffosydd a gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn sicrhau canlyniadau gwirioneddol fel y dengys y ffaith i 33 o Faneri Glas gael eu dyfarnu i ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru yn 2013. Gyda safonau cynyddol uwch i'w cyrraedd, gwyddom fod dyfroedd ymdrochi'n bwysig i economi twristiaeth Cymru – sydd eisoes yn cyfrif am tua 14% o CMC – ac mae ein buddsoddiad o £1 biliwn dros y degawd diwethaf yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddiogelu'r amgylchedd sy'n ased cenedlaethol.

Gyda thros 2,000 o flociadau y mis yn ein rhwydwaith o garthffosydd ar gost o fwy na £7 miliwn y flwyddyn, mae'n rhaid i ni hefyd weithio gyda'n cwsmeriaid i ddiogelu ein hamgylchedd. Yn ogystal â'n llinell gymorth llygredd 24 awr a'n hadrodd cofnodi ar y we, lansiwyd ymgyrch newydd uchelgeisiol yn 2013 o'r enw 'Stop Cyn Creu Bloc'. Cafodd ei thargedu at gwsmeriaid mewn ardaloedd ledled Rhondda Cynon Taf a Chaerffili lle mae hanes o flociadau mewn carthffosydd a bu'n ymgyrch newid ymddygiad ar y cyd a oedd yn eu hannog i beidio â gwaredu eitemau bob dydd (e.e. bydiau cotwm a chynhyrchion misglwyf) na braster, olew a saim. Dangosodd gwaith ymchwil dilynol gyda chwsmeriaid fod 40% o gwsmeriaid yn ymwybodol o'r ymgyrch a arweiniodd at ostyngiad o 30% yn nifer y carthffosydd yn cael eu blocio yn y cymunedau hyn yn ystod yr ymgyrch.

Dengys ein gwaith ymchwil gyda chwsmeriaid fod lleihau nifer y gollyngiadau hefyd yn dal i fod yn brif flaenoriaeth wrth i ni gydbwyso faint o ddŵr a dynnir o'r amgylchedd yn erbyn y galw am ddŵr gan ein cwsmeriaid. Ers y 1990au, rydym wedi haneru gollyngiadau yn ein system cyflenwi dŵr ac rydym wedi gwneud cynnydd da eleni gyda 183.75 megalitr yn cael eu gollwng bob dydd ac felly wedi cyflawni ein targed.

o Faneri Glas wedi'u dyfarnu i ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru

164,000+

o ddisgyblion wedi ymweld ag un o'n pedair canolfan addysg

Rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda chwsmeriaid yn yr ardal hon ac roedd ein hymgyrch 'Cadw Cymru'n Gynnes' yn ystod y gaeaf, ar y cyd â sefydliadau cynrychioliadol megis Age Cymru, wedi'i hanelu at wella ymwybyddiaeth o'r angen i ddiogelu pibellau dŵr cartrefi rhag rhewi a arweiniodd at ddosbarthu dros 1,500 o becynnau inswleiddio i gwsmeriaid fel rhan o'r ymgyrch.

Mae cefnogi addysg cwsmeriaid yn parhau i fod yn un o'n prif feysydd o gymorth yn y gymuned. Mae ein rhaglen allgymorth barhaus, sy'n cyfuno ymweliadau ag ysgolion ac ymweliadau â'n canolfannau addysg, yn ein helpu i ddangos pwysigrwydd arbed dŵr a diogelu'r amgylchedd i bobl ifanc. Ers 1997, mae dros 164,000 o ddisgyblion wedi ymweld ag un o'n pedair canolfan addysg. Maent yn cynnig cyfoeth o wybodaeth a ddatblygir ar y cyd ag arbenigwyr addysgol ac sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm cenedlaethol.

Oherwydd llwyddiant y canolfannau, mae ein rhaglen allgymorth wedi cael ei hestyn ac mae athrawon bellach yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd er mwyn addysgu disgyblion ynglŷn â'r negeseuon allweddol sy'n ategu ein hymgyrchoedd newid ymddygiad. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, cymerodd tua 40,000 o ddisgyblion ran yn y gweithdai hyn.

HERIAU A WYNEBIR

Er i ni roi 28 o gynlluniau buddsoddi ar waith yn 2013 er mwyn lleihau nifer yr eiddo sy'n wynebu perygl llifogydd o ganlyniad i garthffosydd mewnol yn gorlifo, gwyddom fod hyn yn parhau i fod yn risg i rai cwsmeriaid. Dyma'r math gwaethaf oll o fethiant gwasanaeth, ac er i ni ragori ar y targed drwy'r rhan fwyaf o 2013, cafodd y tywydd eithriadol o wlyb ddiwedd 2013 effaith sylweddol arnom.

Eleni, gwelsom achosion difrifol o garthffosydd mewnol yn gorlifo mewn dau ddigwyddiad ar wahân ym mis Rhagfyr 2013 (Treorci yn y de a Chaergybi yn y gogledd) ond llwyddwyd i osgoi mwy o achosion drwy bwmpio miliynau o alwyni ychwanegol o ddŵr wyneb drwy'r rhwydwaith o garthffosydd tra hefyd yn defnyddio tanceri i waredu unrhyw lifau dros ben. O ganlyniad i hynny wynebai'r cwmni bwysau cost ychwanegol a gwariwyd £2 filiwn yn ychwanegol ar drydan ym mis Ionawr a mis Chwefror 2014 yn unig.

Parhawyd i weithio'n galed i leihau achosion o lygredd, ac yn 2013, dim ond dau achos difrifol o lygredd a gafwyd (2012: 6), sef y nifer isaf yng Nghymru a Lloegr. Er bod un y tu hwnt i'n rheolaeth, a achoswyd gan dir yn symud yn Aberystwyth, achoswyd y llall gan



gyflwr gwael ein prif garthffos pwmpio sy'n gwasanaethu cwsmeriaid yn y Rhyl a Bae Cinnel yn y gogledd. Ar ôl iddo achosi nifer o heriau gweithredol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, penderfynwyd gosod carthffos newydd a bydd y buddsoddiad gwerth £4.5 miliwn yn cael ei gwblhau bellach erbyn diwedd 2014.

Yn ystod y flwyddyn, parhawyd hefyd i weithio ar y cyd â rhanddeiliaid lleol, drwy Fforwm Llyn Padarn, er mwyn nodi ffyrdd o wella ansawdd dŵr yn y llyn. Ym mis Gorffennaf 2013, canfu adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr achos o flŵm algâu yn 2009 fod lefelau maetholion yn yr elifion terfynol o Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanberis wedi effeithio ar ansawdd y dŵr. Er nad oedd lefel yr elifion hyn wedi torri terfynau gollwng a bennwyd ar y pryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym wedi buddsoddi dros £2.5 miliwn yn ein gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r terfynau newydd. Rydym hefyd, yn ystod y flwyddyn, wedi bod yn rhan o achos yn yr Uchel Lys a ddygwyd gan Fish Legal (a oedd yn cynrychioli genweirwyr yn yr ardal leol) yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru, a heriodd broses gwneud penderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru wrth roi Hysbysiad i ni adfer y llyn o dan Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009.

Byddwn yn parhau i geisio gweithio gyda phob rhanddeiliad i ddiogelu ecoleg y llyn.

EDRYCH YMLAEN

Gwyddom y bydd gweithredu ein hystâd o weithfeydd trin dŵr gwastraff cynyddol hen - er mwyn i ni barhau i ddiogelu ein hafonydd a'n dyfroedd arfordirol sydd ymhlith y goreuon yn y DU - yn parhau i fod yn un o'n heriau mwyaf anodd.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff perthnasol eraill er mwyn atgyfnerthu ein dull cydweithredol o ddiogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwaith cynllunio ar gyfer y cylch nesaf o'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a fydd yn dechrau yn 2015 ac yn rhoi arweiniad pellach ynglyn â'r ffordd orau o ddiogelu'r amgylchedd dŵr.

Ar ôl trosglwyddo'r rhwydwaith o garthffosydd preifat yn llwyddiannus yn 2011 a arweiniodd at ddyblu maint ein rhwydwaith o garthffosydd, rydym bellach yn rheoli'r broses o fabwysiadu tua 800 o orsafoedd pwmpio preifat erbyn 2016. Erys cryn ansicrwydd ynglŷn ag union nifer yr asedau hyn a'u lleoliad ond dechreuwyd ar y rhaglen drosglwyddo yn 2013 drwy fabwysiadu tua chwe gorsaf yr wythnos.

Monitro cyfaint ac ansawdd dŵr sy'n mynd i mewn i Gronfa Ddŵr Alwen cyn dechrau gwaith ar Brosiect Lliniaru Llifogydd Mynydd Hiraethog.

ASTUDIAETH ACHOS

PROSIECT LLINIARU LLIFOGYDD MYNYDD HIRAETHOG

Yn sgil y gaeaf gwlypaf ers bron 250 mlynedd a'r ffaith bod arbenigwyr yn rhagweld y bydd mwy o batrymau tywydd eithriadol yn y dyfodol, mae achosion o lifogydd yn debygol o gynyddu. Rydym bellach yn gweithio gydag asiantaethau allanol eraill er mwyn helpu i fynd ati i ymdrin â hyn drwy gymryd camau i gynyddu faint o ddŵr a amsugrir mewn ardaloedd ucheldirol fel y gallwn atal dŵr ffo sy'n cyfrannu at lifogydd mewn ardaloedd ar dir isel.

Dyma pam ein bod yn gweithio gyda Phrosiect Adfer Mawndiroedd Eryri a Hiraethog sy'n anelu at adfer 450 hectar o wlyptiroedd ar Fynydd Hiraethog. Mae'r cynllun, sy'n cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, RSPB Cymru ac eraill yn bartneriaid, yn adfer mawndiroedd naturiol ar Fynydd Hiraethog fel y byddant yn storio mwy o ddŵr ac yn lleihau dŵr ffo. Yn ogystal â helpu i gynnig ateb naturiol i broblemau llifogydd, bydd y mawndiroedd wedi'u hadfer hefyd yn gartref i fwy o fywyd gwylt ac yn rhyddhau llai o garbon.



3

YMATEB I NEWID
YN YR HINSAWDD

EIN HUCHELGAIS:

Byddwn yn addasu ein gweithgareddau er mwyn ymdrin ag effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd, tra'n lleihau ein hól troed carbon ein hunain

CYFLWYNIAD:

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf a wynebwn heddiw. Er ein bod wedi dechrau cymryd camau i sicrhau y gall ein rhwydwaith ymdopi â'r amodau tywydd eithafol a hynod amrywiadwy, deallwn fod angen i ni fuddsoddi i ddatblygu ffyrdd arloesol o gynnal rhwydwaith mwy cadarn a chynaliadwy yn y dyfodol.

UCHAFBWYNTIAU:

Wrth baratoi ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol mwy mynych, rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol yn 2013 drwy gyflwyno ein system arloesol newydd o reoli dŵr wyneb, sef GlawLif. Mae hyn yn golygu ôl-osod systemau draenio trefol cynaliadwy er mwyn dal y glaw sy'n dod i mewn i'n rhwydwaith o garthffosydd, ei ddargyfeirio neu ei arafu. Mae hyn nid yn unig yn lleihau perygl llifogydd neu lygredd o garthffosydd sy'n gorlifo yn sgil glaw trwm ac yn ein helpu i gyfyngu ar faint o ddwr sy'n gollwng o ollyngfeydd carthion â chaniatadau ond mae'n fwy cost-effeithiol a chynaliadwy ac mae hefyd yn gwella ecosystemau lleol drwy greu lleoedd gwyrddach a glanach i fyw ynddynt.

Mae GlawLif, ein prosiect blaenllaw gwerth £12 miliwn, yn Llanelli yn mynd rhagddo'n dda ac mae eisoes yn sicrhau buddiannau amgylcheddol gwirioneddol drwy waredu mwy na 12,000m³ o ddwr wyneb o'r rhwydwaith o garthffosydd lleol. Bwriadwn fuddsoddi dros £40 miliwn mewn 70 o gynlluniau gwahanol yn Llanelli rhwng 2015 a 2020, sy'n ddull gweithredu amgen llawer rhatach na'r £600 miliwn y byddai ei angen i adeiladu atebion storio traddodiadol. Enillodd ein cynllun sy'n arwain y gad o fewn y diwydiant y Categori Amgylcheddol yng Ngwobrau Arloesedd 2013 y Sefydliad Dŵr ac yn fwy diweddar cafodd ei ddyfarnu'n Fenter Draenio Cynaliadwy a Rheoli Llifogydd y Flwyddyn yng Ngwobrau Cyflawni'r Diwydiant Dŵr yn 2014.

Mae gweithio gyda chwsmeriaid yn allweddol i'n helpu i ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd a dyma pam y buddsoddwyd £150,000 arall yn 2013 yng Nghronfa'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Mae hon yn cynnig cymorth ariannol i sefydliadau nid er elw ar gyfer prosiectau a fydd yn sicrhau gwelliannu i ansawdd ein hafonydd, ein llynnoedd a'n dyfrffyrdd ac a fydd yn creu amgylchedd mwy bywiog ac iach i bobl a bywyd gwyllt. Ymhlith y sefydliadau sydd wedi cael cymorth eleni mae Prosiect Afonydd Iach gan Groundwork Caerffili sydd â'r nod o ddileu rhwystrau i ymfudiad pysgod yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i wirfoddoli ar brosiectau sy'n gysylltiedig ag afonydd.

Fel un o'r defnyddwyr ynni mwyaf yng Nghymru, sydd â bil ynni blyneddol o £44 miliwn, un her allweddol yw lleihau ein hól troed carbon. Rydym wedi parhau i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy i helpu i bweru ein safleoedd yn fwy cynaliadwy, ac yn ystod 2013, cynhyrchwyd 43 GWh o ynni adnewyddadwy gennym, sef y lefel uchaf erioed, a arbedodd 21,000 tonnall o garbon. Un o'r prif gynlluniau a gafodd ei gwblhau yn 2013 oedd ein cynllun solar mwyaf erioed yng Ngwaith Trin Dŵr Bolton Hill yn Sir Benfro. Mae ein buddsoddiad o £2 filiwn yn ein safleoedd solar yn ein helpu i arbed dros £230,000 bob blwyddyn, sy'n ategu ein prosesau cynhyrchu ynni drwy dreulio anerobig ac ynni dŵr, gan wneud cyfanswm o 30 o safleoedd gennym sy'n cynhyrchu ynni gwyrdd.

HERIAU A WYNEBIR

Yn sgil y tywydd gwlyb eithriadol yn ystod gaeaf 2013, bu'n rhaid i'r busnes dŵr gwastraff wario tua £25,000 y dydd yn fwy na'r arfer ar drydan ym mis Ionawr a mis Chwefror. Fodd bynnag, oherwydd ein mesurau cynhyrchu ynni gwyrdd a'n mesurau effeithlonrwydd drwy gydol y flwyddyn, dim ond 417 GWh o drydan yr oedd angen i ni ei brynu yn ystod y flwyddyn - 2% yn is na'r flwyddyn flaenorol. At hynny, cynhyrchodd ein safleoedd treulio anerobig 40GWh (2012: 35GWh) o ynni adnewyddadwy. Mae trydan yn cyfrif am 85% o'n hallyriadau carbon a thrwy leihau ein defnydd, ynghyd â lleihau'r cynnwys carbon yn nhrydan y Grid, bu allyriadau carbon 7% yn is na'r flwyddyn flaenorol, sef 241,637 tonnall.

£12m

Buddsoddiad GlawLif yn Llanelli

100

o gynlluniau GlawLif newydd rhwng 2015 a 2020

£2m

o fuddsoddiad yn ein safleoedd ynni'r haul

Er bod ein gweithfeydd trin dŵr yn trin dŵr i'r safonau uchaf er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael cyflenwad diogel, wynebwn broblemau o bryd i'w gilydd o ran ansawdd y dŵr heb ei drin sy'n dod i mewn i'n gweithfeydd. Er nad yw hyn yn effeithio ar ansawdd terfynol y dŵr yfed, mae angen i ni ddeall pam bod hyn yn digwydd fel y gallwn osgoi problemau o'r fath yn y dyfodol. Ar Ynys Môn, rydym yn gweithio fel rhan o grŵp ehangach, sy'n cynnwys Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, er mwyn helpu i adfer 750 hectar o wlyptir mawr yn prin iawn. Bydd adfer y gwlyptir yn helpu i wella ansawdd dŵr i fyny'r afon yng nghronfa ddŵr Llyn Cefni.

EDRYCH YMLAEN

Rydym yn falch o adeiladu ar lwyddiant GlawLif yn Llanelli drwy lansio menter debyg yng Nghaerdydd yn 2014. Bydd y cynllun diweddaraf hwn, o'r enw 'Grangetown Werddach' yn golygu gweithio'n uniongyrchol gyda Chyngor Dinas Caerdydd a Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n rhan o'n cynllun tymor hwy i gyflwyno tua 100 o gynlluniau GlawLif drwy'r ardal weithredol gyfan erbyn 2020.

Mae ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac sy'n amlinellu sut y byddwn yn cadw cydbwysedd cynaliadwy rhwng cyflenwadau dŵr a'r galw dros y 25 mlynedd nesaf yn adolygu'n benodol effaith newid yn yr hinsawdd ar ein hadnoddau dŵr a bydd hyn, unwaith eto, yn ein helpu i ddiogelu cyflenwad dibynadwy o ddŵr yfed i'n cwsmeriaid.

O ran cynhyrchu ynni, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn prosiectau ynni dŵr ac ynni'r haul yn ogystal â chodi ein tyrbîn gwynt cyntaf yn 2014 yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Trefonnen yng Nghasnewydd. Bydd y tyrbîn, a fydd yn cynhyrchu digon o ynni i bweru 50% o'r safle, yn arbed dros £500,000 y flwyddyn a hefyd 2,000 tonnall o garbon bob blwyddyn.






ASTUDIAETH ACHOS

YN YSTOD HAF 2013, buddsoddwyd £500,000 mewn cynllun gwaredu dŵr wyneb yn Ysgol Gynradd Stebonheath yn Llanelli. Mae'r cynllun, sydd wedi haneru faint o ddŵr wyneb o'r ysgol sy'n mynd i mewn i'r rhwydwaith o garthffosydd, hefyd yn fodd i greu ystafell ddosbarth gardd ddŵr i'r disgyblion, y cyntaf o'i bath yn y DU. Er iddo gael cryn sylw yn y cyfryngau, gydag eitemau ar BBC News at Ten a rhaglen Today Radio 4, mae'n cael ei gefnogi hefyd gan ein rheoleiddiwr Cyfoeth Naturiol Cymru a'i ganmol fel esiampl gan randdeiliaid gwleidyddol, gan gynnwys Alun Davies AC, Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd Llywodraeth Cymru.

(Chwith – De) Joyce Watson AC, Nia Griffiths AS, Alun Davies AC, Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, Nigel Annett, Keith Davies AC yng nghwmni disgyblion o Ysgol Gynradd Stebonheath i ddathlu lansiad cynllun arloesol GlawLif yn Llanelli.



4

GWASANAETH
CWSMERIAID
RHAGOROL**EIN HUCHELGAIS:**

Bydd ein gwasanaeth i gwsmeriaid cystal â'r cwmnïau cyfleustodau gorau yn y DU.

CYFLWYNIAD

Fel cwmni, ein cwsmeriaid yw ein prif ffocws ac rydym am ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl fel y gall cwsmeriaid bob amser ymddiried ynom a dibynnu arnom i wneud y peth iawn. Gobeithio mai anaml y bydd gan gwsmeriaid reswm dros gysylltu â ni ond pan fydd angen iddynt wneud hynny, mae'n bwysig ein bod yn anelu at unioni pethau y tro cyntaf, bob tro.

UCHAFBWYNTIAU

Rydym wedi cynnal ein safonau uchel o ran gwasanaeth cwsmeriaid yn 2013 gyda gwaith ymchwil annibynnol a gynhaliwyd bob mis yn dangos bod boddhad cwsmeriaid, wedi parhau'n gyson dros 90%. O ganlyniad mae Dŵr Cymru yn yr ail safle ar y cyd yn nhabl cynghrair y diwydiant ar gyfer y mesur allweddol hwn. Gellir priodoli'r llwyddiant hwn i'n hyfforddiant pwrpasol ynglŷn â gwasanaeth i gwsmeriaid gan gynnwys rhaglen ymdrin â galwadau ein Canolfan Gyswllt a'n menter 'How2Wow' y mae dros 600 o gydweithwyr o bob rhan o wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff wedi cymryd rhan ynddi.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi lleihau'r angen i gwsmeriaid gysylltu â ni ynglŷn â phroblemau megis afliwio neu golli cyflenwad dŵr, a hynny'n bennaf am ein bod yn darparu gwybodaeth wedi'i thargedu'n well ar ein gwefan yn ogystal â'n gwasanaeth negeseuon testun rhagweithiol rydym yn ei ddefnyddio bellach i hysbysu cwsmeriaid am unrhyw doriad posibl heb ei gynllunio i'w cyflenwadau dŵr. Fel y cwmni dŵr cyntaf i wneud hyn, anfonwyd dros 850,000 o negeseuon testun yn ystod y flwyddyn ddiwethaf at gwsmeriaid a oedd mewn perygl o wynebu problemau gyda'u gwasanaeth.

Rydym hefyd wedi gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â chwsmeriaid yn 2013 drwy fireinio ein gwefan a bod yn rhan o Twitter a Facebook i'r cwsmeriaid hynny sy'n dymuno cysylltu â ni drwy gyfryngau cymdeithasol. Mae'r llwyfannau hyn, yn ogystal â'r cyfleuster 'sgwrs fyw' a gynigiwn eisoes, wedi bod yn llwyddiannus gyda nifer y dilynwyr Twitter yn cynyddu dros 300% yn ystod y 12 mis diwethaf.

Caiff cwsmeriaid y mae angen iddynt gysylltu â ni eu hannog i rannu adborth adeiladol. Rydym bob amser yn ceisio gweithredu ar hyn a gall ein cwsmeriaid hefyd enwebu cydweithwyr am ddarparu gwasanaeth da drwy ein cynllun cydnabod newydd, y gwobrau 'diolch'. Mae hwn yn cydnabod y cydweithwyr hynny sy'n mynd 'yr ail filltir' i gwsmeriaid ac rydym yn falch o gael dros 500 o enwebiadau gan gwsmeriaid ledled ein hardal weithredol yn ystod y 12 mis diwethaf.

HERIAU A WYNEBIR

Cynyddodd nifer y cwynion ysgrifenedig gan gwsmeriaid ynglŷn â'u gwasanaethau dŵr, dŵr gwastraff a bilio i 4,079 eleni (2012: 3,652) ac rydym yn benderfynol o wella o ran y mesur hwn. Gellir priodoli'r problemau a gafodd gwsmeriaid yn rhannol i'r tywydd poeth yn ystod yr haf a arweiniodd at heriau o ran cyflenwadau dŵr yma a thraw yn ein hardal weithredol, gan gynnwys Penrhyn Llŷn ac ardaloedd gwledig swydd Henffordd. Cyfrannodd y digwyddiadau hyn hefyd at nifer y cwsmeriaid a oedd heb ddŵr am fwy na chwe awr.

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda Cyngor ar Bopeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o gyfryngwyr trydydd parti sydd wedi bod yn cysylltu â'n cwsmeriaid ac yn cynnig - am ffi benodol - adennill arian oddi wrth Dŵr Cymru ar eu rhan. Fel arfer mae hyn yn ymwneud â chadarnhau cymhwysedd i gael ad-daliadau dŵr wyneb - gwasanaeth rydym eisoes yn ei gynnig am ddim. Felly byddwn yn parhau i hyrwyddo ein gwasanaeth i gwsmeriaid a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol y gallant gysylltu'n uniongyrchol â ni. Gan ein bod yn gweithredu rhwydwaith enfawr, mae'n anochel y gall pethau fynd o chwith i gwsmeriaid. Pan fydd hyn yn digwydd, ein blaenoriaeth yw cymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i unioni pethau, a dysgu gwersi er mwyn lleihau'r risg y bydd yr un peth yn digwydd eto. Y math gwaethaf o fethiant gwasanaeth yw llifogydd am fod carthffosydd mewnol wed gorlifo ac, yn anffodus, digwyddodd hyn i 19 o gwsmeriaid yn Nhreorci ym mis Rhagfyr 2013. Fel yr amlinellir yn yr astudiaeth achos gyferbyn, gweithiwyd yn agos gyda'r rhai dan sylw nes bod eu cartrefi wedi'u hadfer yn llwyr.

300%

yn fwy o ddilynwyr Twitter

850,000

o negeseuon testun i'n cwsmeriaid

EDRYCH YMLAEN

Er mwyn cynnal ein gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid, gwyddom fod angen i ni dderbyn tueddiadau a phatrymau newidiol cwsmeriaid. Dyna pam y bwriadwn ddatblygu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ymhellach o fewn ein sianeli cwsmeriaid ac rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da o ran 'Newid', ein prosiect mawr i gyflwyno system filio newydd yn lle'r hen system sydd wedi cael ei defnyddio ers 25 mlynedd. Bydd yn rhoi llwyfan bilio sicr o'r radd flaenaf i Dŵr Cymru er mwyn ei gwneud yn bosibl i welliannau eraill gael eu gwneud i wasanaeth cwsmeriaid.

O ran cwsmeriaid busnes, mae ein cynlluniau yn cynnwys cymorth i fusnesau feincnodi eu taliadau dŵr yn erbyn sefydliadau tebyg er mwyn nodi cyfleoedd i leihau defnydd, ynghyd ag ehangu ein gwasanaethau telemetreg er mwyn galluogi cwsmeriaid i weld yn union ble maent yn defnyddio dŵr ar eu safleoedd. Ynghyd â hyn, byddwn yn darparu gwasanaeth atgyweirio gollyngiadau ac archwiliadau o broses er mwyn nodi lle y gallai busnesau fod yn fwy effeithlon o ran dŵr. Bydd ein system filio newydd yn golygu y gall mwy o'n busnesau gael un bil ar gyfer yr holl safleoedd drwy e-bost.

ASTUDIAETH ACHOS

Mae HANNAH WILSON yn aelod o Dîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Dŵr Cymru a chwaraeodd ran allweddol yn y gwaith o helpu trigolion yn Nhreorci yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd ar ddiwedd 2013.

"Mae bob amser yn ofnadwy pan fydd rhywbeth fel hyn yn digwydd, ond yn enwedig cyn y Nadolig. Gwnaethon ni weithio'n agos gyda chwsmeriaid er mwyn sicrhau y gallem helpu mewn unrhyw ffordd bosibl. Roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith ein bod yno ar y safle, yn ateb unrhyw gwestiynau a'n bod yn barod i roi atebion gonest.

"Bu'n anodd iawn i gwsmeriaid ac wrth iddynt fynd ati i adfer eu cartrefi, roedd yn bwysig nad oeddent yn teimlo eu bod ar eu pennau eu hunain a bod ganddyn nhw ffordd glir o gyfathrebu â'r busnes. Wedi'r cyfan, mae dyletswydd arnon ni i wneud y peth iawn."

5

BILIAU
FFORDDIADWY

EIN HUCHELGAIS:

Bydd ein prisiau yn rhoi gwerth da am arian i'n cwsmeriaid, gyda amrywiaeth effeithiol o gymorth ar gael i'r rhai sy'n cael anhawster talu.

CYFLWYNIAD

Ein nod yw darparu'r gwasanaeth dŵr a dŵr gwastraff gorau posibl i'n cwsmeriaid a bod yn rhaid i'r gwasanaethau hyn barhau i fod yn fforddiadwy. Mae ein cwsmeriaid, mewn sawl achos, wedi wynebu incwm cartref is yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd hinsawdd economaidd anffafriol ac erys hon yn her benodol i'n cwmni. Mae incwm cyfartalog cartrefi yng Nghymru yn gymharol isel a cheir ardaloedd llawer yn uwch o amddifadedd incwm sylweddol. Amcangyfrifir bod tua 15% o'n cwsmeriaid domestig yn gwario mwy na 5% o'u hincwm gwario ar eu biliau dŵr a dŵr gwastraff. O ganlyniad, mae fforddiadwyedd yn her allweddol i ni, a bydd yn parhau felly.


UCHAFBWYNTIAU

Ein cynnydd blynyddol mewn prisiau yn 2013 i 2014 oedd yr isaf yn y diwydiant am y drydedd flwyddyn yn olynol, a dyma'r bedwaredd flwyddyn i ni gadw'r cynnydd mewn prisiau islaw cyfradd chwyddiant. Mae'r cynnydd cyfyngedig diweddaraf hwn yn golygu ein bod ar y trywydd iawn i sicrhau bod biliau cwsmeriaid domestig yn debygol o ostwng 6% ar gyfartaledd cyn chwyddiant rhwng 2010 a 2015.

Oherwydd ein sefyllfa ariannol gadarn rydym wedi gallu gwneud llawer mwy i'n cwsmeriaid nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mae hyn yn golygu rhoi cymorth i fwy o gwsmeriaid nag erioed gyda thua 60,000 yn cael cymorth i dalu eu biliau dŵr drwy ein tariffau i gwsmeriaid y mae eu sefyllfa ariannol yn fregus.


HERIAU

Er gwaethaf sawl cynnydd islaw cyfradd chwyddiant yn olynol mewn biliau, mae ein bil yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd y diwydiant yng Nghymru a Lloegr, a hynny'n rhannol oherwydd ein hamgylchedd gweithredol mynyddig a chymharol wledig sy'n gofyn am fwy o asedau fesul cwsmer ac felly, fwy o gost.





Gellir hefyd ei briodoli i'r elfen o'r bil sy'n ymwneud â dŵr gwastraff oherwydd bu'n rhaid i ni fuddsoddi £1 biliwn yn y 1990au i adeiladu gweithfeydd trin newydd ar hyd arfordir Cymru er mwyn cyrraedd safonol amgylcheddol cynyddol uwch - a ariannwyd drwy filiau cwsmeriaid. Fodd bynnag, rydym wedi llwyddo i leihau'r bwlch rhwng ein bil cyfartalog a chyfartaledd y diwydiant cyfan. Yn 2000, roedd ein bil 14% yn uwch na chyfartaledd y diwydiant ond erbyn 2015 rhagwelir y bydd ein bil domestig cyfartalog ond 5% yn uwch na chyfartaledd y diwydiant ac rydym yn benderfynol o wella ar hyn eto.



Fel y rhan fwyaf o gwmnïau dŵr eraill, erys adennill dyledion cwsmeriaid yn flaenoriaeth uchel, yn enwedig mewn amgylchedd economaidd anodd lle na all cwmnïau gosbi cwsmeriaid drwy ddatgysylltu cyflenwadau i gwsmeriaid domestig nad ydynt wedi talu eu biliau. Cafwyd tâl drwg ddyledion o £28 miliwn ar gyfer y flwyddyn (2013: £27 miliwn) sef tua 4% o drosiant blyneddol.

Gyda chwsmeriaid dŵr yng Nghymru yn talu tua £20 yn ychwanegol ar eu biliau blyneddol er mwyn talu am gostau'r rhai nad ydynt yn dewis talu, neu'r rhai na allant dalu, mae hon yn broblem benodol o ran eiddo â thenant. Felly rydym yn cefnogi rheoliadau arfaethedig Llywodraeth Cymru a fydd yn annog landlordiaid i drosglwyddo manylion eu tenantiaid i gwmnïau dwr.

EDRYCH YMLAEN

Wrth i ni gynllunio ein gweithgarwch yn y dyfodol, gwyddom fod fforddiadwyedd yn dal i fod yn bryder gwirioneddol i gwsmeriaid.

Bydd angen i ni reoli'r cydbwysedd rhwng y gallu i gyllido'r busnes a fforddiadwyedd biliau'n ofalus iawn fel y gallwn barhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel am bris fforddiadwy - i gwsmeriaid heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol.

Dyma pam y bwriadwn ddatblygu fframwaith tariffau cymdeithasol newydd dros y 12 mis nesaf a fydd yn ein galluogi i ddyblu bron nifer y cwsmeriaid sy'n cael cymorth i dalu eu biliau dŵr a charthffosiaeth. Gyda bron 190,000 o'n cwsmeriaid domestig yn gwario dros 5% o'u hincwm gwario ar eu bil dŵr a dŵr gwastraff, bydd angen i ni barhau i dargedu ein cymorth i sicrhau fforddiadwyedd yn gyflym ac yn effeithiol. Dyna pam ein bod yn gweithio gyda Tai Cymunedol Cymru, Moneyline Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu tariff cymdeithasol newydd a fydd yn cynyddu nifer y rhanddeiliaid yn sylweddol - sy'n cael cymorth ar hyn o bryd i dalu eu biliau dŵr o 60,000 i fwy na 100,000.

Rydym hefyd wedi bod yn paratoi ein cynlluniau buddsoddi terfynol yn y dyfodol ar gyfer y cyfnod rheoleiddio nesaf (2015-2020) er mwyn sicrhau y bydd unrhyw gynnydd mewn biliau islaw chwyddiant bob blwyddyn hyd at 2020. Golyga hyn y bydd ein cwsmeriaid wedi gweld degawd o gynnydd islaw chwyddiant yn eu biliau erbyn 2020 ac y bydd y bil domestig cyfartalog 14% yn is mewn termau real erbyn hynny nag yn 2010.

ASTUDIAETH ACHOS

CWSMER DŴR CYMRU, ABERTAWE

"Pan fydd pobl yn wynebu anhawster ariannol, yn aml maent yn dewis anwybyddu'r pentwr o ddyled. Dyna'n union a wnes i pan nad oeddwn yn gallu gweithio oherwydd salwch. A minnau'n mynd i fwy a mwy o ddyled o ran fy nhaliadau dŵr, fe wnes i barhau i anwybyddu'r llythyrâu atgoffa. Wrth iddynt gronni, daeth yn amlwg yn fuan fod angen cymorth arna i."


"Yn gyntaf, gwnaeth Dŵr Cymru fy ngosod ar ei gynllun Cymorth Dŵr Cymru sydd ar gael i bobl sydd â chyflyrau meddygol penodol. Gwnaeth hefyd fy nghofrestru i fod yn rhan o'i Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid sydd â'r nod o helpu'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol mawr. Ers i fi ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael, rwy'n gwneud taliadau rheolaidd ac rwyf hefyd yn cymryd camau i ddellio â'm dyledion eraill. Bu o gymorth mawr ac yn rhyddhad mawr."

RUSSELL CLARKE — Rheolwr Cynhyrchu Dŵr

Gwella'r ffordd rydym
yn gweithio drwy
ddysgu oddi wrth
y goreuon



6

GOFALU AM
EIN HASEDAU

EIN HUCHELGAIS:
Byddwn yn cynnal ein hasedau
i genedlaethau'r dyfodol, am y
gost fwy effeithlon.

CYFLWYNIAD

Ein prif gyfrifoldeb yw gweithredu, cynnal ac uwchraddio ein rhwydwaith o asedau fel y gallwn ddarparu cyflenwad diogel a dibynadwy o ddŵr yfed ac ymdrin â dŵr gwastraff yn effeithiol. Dyna pam y buddsoddwyd £345 miliwn yn ein prosiectau cyfalaf y llynedd fel y gallwn ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd naturiol yn ein gofal.

Gyda rhwydwaith gwerth £26 biliwn (neu £20,000 fesul cwsmer domestig), rydym yn gweithredu 66 o weithfeydd trin dŵr sy'n cyflenwi dŵr yfed diogel a glân drwy fwy na 27,000km o bibellau ynghyd â rhwydwaith o thua 30,000km o garthffosydd sy'n cynnwys tua 1,800 o orsafoedd pwmpio a 3,500 o ollyngfeydd carthffosydd â chaniatad. Mae ein topograffi a'n daearyddiaeth, lle ceir sawl ardal prin ei phoblogaeth yma a thraw, yn golygu bod gennym fwy o asedau fesul cwsmer ac mai prin yw'r cyfleoedd i fanteisio ar arbedion maint.

'Defnyddioldeb' asedau yw'r mesur allweddol a ddefnyddir gan Ofwat i fonitro sut mae cwmnïau dŵr yn buddsoddi yn eu hasedau er mwyn cynnal gwasanaeth i gwsmeriaid ar lefel 'sefydlog'. Drwy wneud hynny, rydym yn helpu i gynnal ein gwasanaeth i gwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol.

UCHAFBWYNTIAU

Yn 2013 i 2014, bu ein perfformiad o ran asedau ar y tir ac o dan y ddaear ar gyfer dŵr a dŵr gwastraff yn gadarn iawn. Rydym bellach yn atgyfnerthu'r gwelliannau a wnaed gennym er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau ardderchog o ran ansawdd dŵr (rhaglen buddsoddi 'Go to Green' gwerth £120 miliwn i ailadeiladu, adnewyddu neu uwchraddio 12 o weithfeydd trin dŵr) a chydymffurfiaeth amgylcheddol (buddsoddiad o £29 miliwn i adnewyddu neu uwchraddio 40 o asedau dŵr gwastraff). O ganlyniad, rydym wedi llwyddo i gyflawni'r rhan fwyaf o'n targedau 'defnyddioldeb'.

Rydym yn dibynnu ar nifer o bartneriaid allweddol i'n helpu i gynnal ein hasedau a'n gwasanaethau ac ymatebwyd yn gyflym i gynnal lefelau gwasanaethau ym mis Mai 2013 ar ôl i un o brif bartneriaid peiranyddol ein rhwydwaith, Daniel Contracting Limited, gael ei roi yn nwylo'r gweinyddydd. Llwyddwyd i weithio gyda'r partion dan sylw er mwyn hwyluso trosglwyddo cyflogaion o dan TUPE i gontractwr gwaith brys arall a thrwy hynny sicrhau parhad di-dor mewn gwasanaethau, gan osgoi unrhyw effaith ar ein gwasanaethau i gwsmeriaid.

Rydym hefyd yn parhau i wella ein heffeithlonrwydd gweithredol drwy gyflwyno egwyddorion gweithredu Darbodus. Y nod yw sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o'n hasedau drwy leihau ein costau gweithredu'n sylweddol a hynny drwy gadw'r arferion hynny yn unig sy'n ychwanegu gwerth ac sy'n greiddiol i weithrediadau a rheoli asedau da. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cael ei ymgorffori mewn rhai o'n gweithfeydd trin dŵr a chanolfannau llaid dŵr, ac rydym bellach yn llunio cynlluniau terfynol i'r egwyddorion hyn gael eu cyflwyno dros ein rhwydwaith cyfan.

Rydym hefyd wedi parhau i feithrin ein gallu TG dros y 12 mis diwethaf drwy fuddsoddi dros £26 miliwn i gefnogi gweithrediadau rheng flaen, cyflawni prosiectau cyfalaf a darparu gwasanaethau cwsmeriaid. Rydym wedi dechrau darparu'n fewnol wasanaethau TG a oedd yn arfer cael eu gosod ar contract allanol a dylai hyn ei gwneud yn bosibl i wneud arbedion cost o fwy na £700,000 a ragwelir o fis Ebrill 2015 ymlaen.

HERIAU A WYNEBIR

Yr her fwyaf i'n hasedau dros y 12 mis diwethaf oedd yr amodau tywydd eithafol yn ystod y gaeaf yn ein hardal. Bu'n rhaid cymryd cynllunio brys, ac ar ôl rhoi ein Canolfannau Rheoli Arian ar waith yn ystod y rhan fwyaf o fis Tachwedd a mis Rhagfyr 2013 er mwyn cydlynu ein hymateb i'r amodau gwael, cafodd ein Canolfan Reoli Aur ar gyfer gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff ei chynnull ar yr un pryd am y tro cyntaf ym mis Chwefror eleni. Bu hon yn hanfodol er mwyn i ni ymateb i heriau megis llifogydd, llanw mawr, gwyntoedd cryfion, methiant pŵer a chymryd camau brys i helpu i

£26m

a fuddsoddwyd mewn TG i gefnogi gweithrediadau rheng flaen, cyflawni prosiectau cyfalaf a darparu gwasanaethau cwsmeriaid

osgoi unrhyw darfu cyffredinol ar ein gwasanaethau.

Gyda rhwydwaith mor helaeth, mae'n rhaid i ni roi gofal arbennig i nifer o asedau y mae angen buddsoddiad arnynt. Arweiniodd hyn at broblemau i wasanaethau sy'n effeithio ar ein cwsmeriaid gan gynnwys dŵr wedi'i afliwio (swydd Henffordd), pwysedd dŵr isel (Carmel, Ynys Môn), cyflenwadau ysbeidiol (Penrhyn Llŷn) ac aroglau o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff (Caer ac Abertawe) a gorsafoedd pwmpio (Pant-y-Waco, ger Treffynnon).

Yn ystod y flwyddyn, wynebwyd sawl erlyniad a ddygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn y gogledd am dorri caniatadau gollwng. Rydym wedi gwneud gwelliannau amrywiol i brosesau yn sgil yr achosion hyn, a byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheoleiddiwr er mwyn sicrhau ein bod yn cael cyn lleied o effaith ar yr amgylchedd â phosibl.

EDRYCH YMLAEN

Er bod ein hasedau wedi'u cynllunio i wrthsefyll amodau tywydd eithafol a risgiau hysbys eraill, rydym yn wynebu bygythiadau eraill drwy'r amser (e.e. llifogydd, erydu arfordirol a methiannau pŵer) yn ogystal â throsgedd a therfysgaeth. Ceir tystiolaeth bod amllder a difrifoldeb rhai o'r peryglon hyn yn cynyddu o bosibl oherwydd effeithiau ffactorau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd) a gallant effeithio'n andwyol ar y gwasanaethau a ddarparwn i'n cwsmeriaid a'r effaith a gawn ar yr amgylchedd. Bydd gwella gallu ein hasedau i wrthsefyll y risgiau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau eithafol o'r fath yn rhan allweddol o'n rhaglen fuddsoddi yn y dyfodol.

£1.5bn

o fuddsoddiad cyfalaf rhwng
2015 a 2020

Er mwyn paratoi ar gyfer y cylch buddsoddi nesaf rhwng 2015 a 2020, rydym bellach yn bwriadu gweithio'n wahanol a chreu Cynghrair newydd a fydd yn dwyn ynghyd sgiliau cydweithwyr a phartneriaid. Bydd hyn yn ein galluogi i ysgogi gwerth yn y cam cynllunio a'r cam cyn cynllunio drwy gydleoli Dŵr Cymru, contractwyr ac ymgynghorwyr mewn un Tîm Atebion Integredig er mwyn helpu i hwyluso cydweithredu ac arloesi.

Fel rhan o'n gwaith yn y dyfodol, rydym hefyd yn ymrwymedig i gyflawni ein huchelgais o ddatblygu rhwydwaith Deallus ledled y rhwydweithiau dŵr a dŵr gwastraff er mwyn helpu i ragweld problemau cyn iddynt effeithio ar ein cwsmeriaid. Ar ôl nodi meysydd o berfformiad gwael a risgiau sy'n dod i'r amlwg, rydym eisoes yn cynnal cynlluniau peilot (gan gynnwys ar y rhwydwaith dŵr gwastraff yn Nhre Gŵyr, Caer a Llai ger Wrecsam) sy'n profi'r defnydd o gyfarpar monitro soffistigedig a fydd yn helpu i lywio'r ffordd y gweithredir y rhwydwaith yn y dyfodol a sefydlu Canolfan Rhwydwaith Deallus.


ASTUDIAETH ACHOS

RUSSELL CLARKE yw Rheolwr Cynhyrchu Dŵr Gwaith Trin Dŵr Broomy Hill, Henffordd.

"Ar ôl cyflwyno egwyddorion Darbodus fel rhan o weithgarwch cynnal a chadw Dŵr Cymru, ein safle oedd un o'r rhai cyntaf i gyflwyno arferion Darbodus yn ein gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae hyn wedi golygu dadansoddi ein prosesau o ddydd i ddydd a gwerthuso'r hyn y mae angen i ni ei wneud a'r hyn sy'n ychwanegu gwerth at yr hyn a wnawn. Tra'n creu amgylchedd gwaith diogelach a gwell i'r timau, mae hefyd wedi sicrhau cysondeb gwirioneddol a gwell dibynadwyedd o ran ein gwaith o ddydd i ddydd. Mae'n sicrhau manteision gan gynnwys lleihad yn nifer y methiannau, nifer y galwadau gan gwsmeriaid a chostau cyffredinol. Mae'n braf bod pawb wedi bod yn rhan o'r broses sydd wedi ein helpu yn y pen draw i ddarparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid."



7

DATBLYGU
EIN POBL

EIN HUCHELGAIS:

Byddwn yn datblygu tîm o bobl a fydd yn darparu gwasanaeth gwych i'n cwsmeriaid.

CYFLWYNIAD

Fel y pedwerydd cwmni mwyaf yng Nghymru, mae gennym bron 3,000 o gydweithwyr sydd oll yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol. Maent yn fedrus iawn, wedi cael yr hyfforddiant cywir ac yn llawn cymhelliant bob amser i gyrraedd y safonau uchel a ddisgwylyr gan ein cwsmeriaid.

Gyda 28% (825) o'n gweithlu'n fenywod bellach, rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn y gweithlu ac yn parhau i'w hyrwyddo ac mae gennym weithdrefnau a pholisïau ar waith er mwyn sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Caiff pob cais am swydd ei ystyried yn llawn ac yn deg, ar ôl rhoi sylw i fedrau a galluoedd yr ymgeisydd sy'n berthnasol i'r rôl. Os bydd aelod o staff yn mynd yn anabl, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y gyflogaeth yn parhau ac y caiff addasiadau priodol eu gwneud ac y caiff hyfforddiant ei roi. Mae datblygiad gyrfa a phrosesau dyrchafu yn union yr un fath i bobl anabl ag y maent i gydweithwyr eraill.

Fel y dangoswyd yn ystod y patrymau tywydd eithriadol a welwyd yn ystod y 12 mis diwethaf, mae cydweithwyr yn aml yn 'mynd yr ail filltir' a'n cyfrifoldeb fe cwmni yw sicrhau eu bod yn dychwelyd adre'n ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod gwaith. Mae dyletswydd arnom i sicrhau y cânt eu hyfforddi'n briodol i'w rolau a hefyd i annog yr ymddygiadau cywir gan fod eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles yn hollbwysig.

UCHAFBWYNTIAU

O ran iechyd a diogelwch, rydym wedi parhau i wneud cynnydd da tuag at ein 'Taith i Sero' - ein nod yn y pen draw o sicrhau dim anafiadau i'n cydweithwyr na'n contractwyr sy'n peri iddynt gollu amser gwaith. Un dangosydd a ddefnyddir i fesur perfformiad yw nifer yr anafiadau y hysbysir yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ohonynt bob blwyddyn o dan Reoliadau Cofnodi Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR). Rydym wedi gweld lleihad cyffredinol yn nifer y digwyddiadau RIDDOR gyda 23 yn 2013 o gymharu â 26 ar gyfartaledd dros y tair blynedd ddiwethaf. Nid ydym wedi peryglu diogelwch, ac ni fyddwn yn gwneud hynny, ac fel rhan o'n hymgyrch 'Safety Takes Every Person' (STEP), dechreuwyd ar raglen hyfforddiant diwylliant diogelwch fawr i fwy na 200 o reolwyr yn 2013. Gwelwyd effaith hynny wrth i nifer yr 'Ymyriadau Cadarnhaol' a gofnodwyd gynyddu 50% i bron 16,300 dros y 12 mis diwethaf (2012: 10,500). Drwy gynyddu nifer yr 'Ymyriadau Cadarnhaol' a gofnodwyd a chymryd camau i ddileu peryglon a risgiau, dengys ymchwil y dylai hyn arwain at leihad yn nifer yr anafiadau cofnodadwy.

Er mwyn cynnal ein lefelau uchel o wasanaeth i gwsmeriaid, rydym wedi parhau i ymgorffori diwylliant 'rhoi'r cwsmer yn gyntaf' drwy ein rhaglen hyfforddiant pwrpasol ar wasanaeth cwsmeriaid 'How2Wow'. Cafodd hon ei hachredu gan y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid ac mae 600 o gydweithwyr gweithredol eisoes wedi cael yr hyfforddiant, a bydd yn cael ei chyflwyno i staff mewn swyddogaethau eraill bellach.

Gwyddom hefyd fod cydnabod a dathlu cyflawniadau a chyfraniadau cydweithwyr yn allweddol ac roeddem yn falch o lansio'r gwobrau 'diolch' newydd ym mis Ionawr 2014. Mae'r cynllun cydnabod newydd hwn yn gwobrwo timau ac unigolion o bob rhan o'r cwmni - ynghyd â'n partneriaid strategol a'n cwmnïau contractio - sydd yn amlwg yn arddel ein gweledigaeth tra'n rhoi ein gwerthoedd craidd wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae gwranddo ar ein cydweithwyr yn ein helpu i wella ein perfformiad. Dyna pam ein bod yn cynnal Arolwg Blynnyddol Ymgysylltu â Chyflogaion. Er ein bod yn falch o gyflawni sgôr ymgysylltu o 79% - cynnydd o 10% ers ein harolwg cyntaf yn 2011 - mae'r un mor braf bod y canlyniadau hefyd yn dangos bod gennym ethos cwsmeriaid cadarn. Mae 83% o gydweithwyr yn credu bod Dŵr Cymru yn rhoi ei gwsmeriaid yn gyntaf.

Gwyddom hefyd fod yn rhaid i ni gael deialog onest, ddwyochrog â chydweithwyr ym mhob rhan o'n busnes a thros y 12 mis diwethaf, rydym wedi ceisio sicrhau y caiff pob cydweithiwr ei hysbysu am benderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar y busnes. Cymerodd dros 1,000 o gydweithwyr ran mewn gweithdai yr haf diwethaf er mwyn helpu i ddatblygu gweledigaeth newydd y cwmni; cynhaliwyd wyth gweithdy hefyd gyda chydweithwyr i geisio eu barn ynglŷn â'n Cynllun Busnes drafft ar gyfer 2015 i 2020; trefnwyd dau gylch o sioeau teithiol i gyflogaion ym mis Mawrth a mis Medi, mewn mwy na 19 o leoliadau, a fynychwyd gan fwy na 2,000 o gydweithwyr; a chynhaliwyd dwy Gynhadledd ar Arweinyddieth i uwch reolwyr hefyd.

83%

o gydweithwyr yn credu bod Dŵr Cymru yn rhoi ei gwsmeriaid yn gyntaf

Caiff y digwyddiadau hyn eu hategu gan bapur newydd mewnol bob chwe wythnos [dŵr] a bwletin e-bost wythnosol [dŵr weekly].

HERIAU A WYNEBIR

Er gwaethaf amodau economaidd heriol, rydym yn parhau'n ymrwymedig i fuddsoddi yn ein cydweithwyr a'u datblygu. Rydym yn falch iawn o'n Rhaglen Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac undebau llafur. Mae dros 350 o gydweithwyr wrthi'n gweithio tuag at gyflawni tua 700 o gymwysterau mewn rhifedd, llythrennedd a sgiliau TG. Ni yw'r unig gwmni mawr o hyd yng Nghymru sy'n cael ei gydnabod gan Ddyfarniad Addewid y Cyflogwr o ganlyniad i'r rhaglen hon a'i llwyddiant.

79%

sgôr ymgysylltu yn 2013

Yn y cyfamser, rydym hefyd wedi parhau i fuddsoddi yn ein cymuned o uwch arweinwyr gyda thros 220 yn dilyn rhaglen datblygu rheolwyr a gynlluniwyd yn fewnol ac sydd wedi cael ei hachredu gan y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Mae hyn yn adeiladu ar y gefnogaeth a roddwn i brosesau datblygu proffesiynol ein gwyddonwyr a'n peirianwyr sy'n gweithio tuag at statws Siarter.

Mae ein cydweithwyr rheng flaen hefyd yn cael budd o'n rhaglen Gweithredwr Cymwys a achredir gan City and Guilds sy'n sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaeth cyson a chymwys i'n cwsmeriaid.



Cydweithwyr yn cael eu cydnabod am gwblhau'r Rhaglen Sgiliau Hanfodol gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dŵr Cymru, Linda Williams.

EDRYCH YMLAEN

Gyda bron un o bob 10 cydweithiwr wedi rhoi mwy na 35 mlynedd o wasanaeth a bron un o bob pump yn cyrraedd 65 oed neu drosedd yn ystod y 10 mlynedd nesaf, mae cyflawni ein nodau busnes yn dibynnu ar sicrhau llif cadarn o bobl dalentog sy'n barod i gamu i mewn i rolau wrth i'w cydweithwyr ymddeol. Dyna pam ein bod yn falch o fod wedi datblygu rhaglenni pwrpasol fel ein Rhaglen Arolygwyr Dosbarthu dan Hyfforddiant sydd â'r nod o fynd i'r afael â phrinder posibl yn y maes hwn. Croesawyd hefyd chwech o raddedigion, pum arolygydd dan hyfforddiant ac wyth prentis i'r cwmni yn 2013.

Bydd sicrhau iechyd a diogelwch cydweithwyr yn brif ffocws hefyd yn y dyfodol. Gyda'r rhan fwyaf o ddamweiniau'n cael eu hachosi oherwydd llithro neu godi pethau, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddigwyddiadau lle mae ymddygiad wrth wraidd y mater. Rydym eisoes wedi dechrau canolbwyntio ar wella diogelwch 'ffactor dynol' drwy ddarparu hyfforddiant pwrpasol, wedi'i dargedu megis 'Codi a Chario' a 'Diwylliant Diogelwch', ac ar ôl i fwy na 1,500 o weithredwyr ymgymryd ag ef mae'n cael ei gyflwyno i'r cwmni cyfan.

ASTUDIAETH ACHOS

MIKE WILSON yw Swyddog Arweiniol y Rhaglen Sgiliau Hanfodol yn Dŵr Cymru ac fe'i dyfarnwyd yn Gynrychiolydd Dysgu y Flwyddyn T.U.C. Cymru yn 2013.

"Rwy'n gredwr mawr mewn addysg i oedolion ac mewn helpu fy nghydweithwyr yn Dŵr Cymru i ddysgu sgiliau newydd gan fod hyn yn ei dro yn eu helpu i fagu hyder. Gwelsom lawer o enghreifftiau lle mae dysgwyr wedi gallu helpu eu plant ac, mewn rhai achosion, eu hwyrion a'u hwyresau gyda'u gwaith cartref am y tro cyntaf ar ôl mynychu'r sesiynau sgiliau hanfodol. Rwyf mor falch felly o fod yn rhan o ymdrechion Dŵr Cymru i helpu cydweithwyr i gyflawni eu potensial nid yn unig yn y gweithle ond mewn bywyd yn fwy cyffredinol."



GERAINT WILLIAMS — Gweithredwr Carthffosydd

TASGU SYNIADAU,
DILEU RHWYSTRAU

8

BUSNES
EFFEITHLON

EIN HUCHELGAIS:


Byddwn yn parhau i fod yn fusnes effeithlon gydag ansawdd credyd cadarn.

CYFLWYNIAD

Yn Dŵr Cymru, ein prif amcan yw darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff o safon uchel i'r cymunedau a wasanethwn, am y gost leiaf bosbil. Mae sicrhau gwerth gorau yn golygu gwario mor effeithlon â phosibl, gan reoli pwysau cost, ac adennill costau yn y ffordd orau er mwyn cydbwysu buddiannau cwsmeriaid heddiw a buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.

Nid oes gan Glas Cymru gyfranddalwyr – caiff ei ariannu drwy ddyled yn unig – ac felly ni chaiff unrhyw ddifidendau eu talu ac mae Glas Cymru yn defnyddio pob 'elw ecwiti' a gynhyrchir gan Dŵr Cymru er budd cwsmeriaid.

Cymhareb gerio ariannol*



UCHAFBWYNTIAU

Mae Dŵr Cymru yn parhau i gynnal y statws credyd uchaf o blith cwmnïau cyfleustodau a reoleiddir yn y DU. Mae hyn yn ein galluogi i godi arian i fuddsoddi gan fuddsoddwyr bondiau hirdymor am gost isel sy'n dod â manteision sylweddol i gwsmeriaid Dŵr Cymru. Mae'r arbedion ariannol sy'n deillio o'n model perchenogaeth wedi cynhyrchu cronfeydd ariannol wrth gefn – neu ecwiti cwsmeriaid – gwerth £1.6 biliwn ac mae ein gerio ariannol wedi gostwng i 63% erbyn hyn o gymharu â 93% pan gaffaelwyd Dŵr Cymru gan Glas Cymru yn 2001.

Mae costau gweithredu yn 2013 i 2014 wedi lleihau i £296m (2013: £298m) ond mae cynnydd mewn costau yn cynnwys costau ynni uwch (£4m), tâl uwch am ddrwg-ddyledion (£1m) a'r gwariant ychwanegol oedd ei angen i gynnal gweithrediadu yn ystod methiant busnes Daniel Contracting Limited (£4m). Mae'r rhain wedi cael eu gwrthbwysu o dipyn gan leihad mewn costau gan gynnwys credyd cyfrifyddu sy'n ymwneud â'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig (£5m) ac arbedion ychwanegol o ddarparu gwasanaethau'n fewnol a mentrau effeithlonrwydd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu mwy o'n hynni drwy ffynonellau adnewyddadwy a sicrhau £1 filiwn o arbedion mewn costau y flwyddyn ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y broses o drosglwyddo gwasanaethau labordy o'r hen ddarparwr contract a'u troi'n rhai mewnol. Mae'r mesurau hyn wedi chwarae rhan bwysig er mwyn sicrhau mai ni yw'r unig gwmni dŵr a dŵr gwastraff sydd wedi lleihau ei gostau gweithredu mewn termau real ers 2001.

HERIAU

Mae ein heriau hirdymor yn cynnwys cael gafael ar arian ar gyfer ein rhaglen fuddsoddi yn ogystal â rheoli costau'n dynn. Os ydym am gynnal lefelau uchel o fuddsoddiad a chyrhaedd safonau uwch yn y dyfodol, mae'n bwysig ein bod yn parhau i allu cael gafael ar arian am brisiau cystadleuol o'r marchnadoedd cyfalaf preifat. Er mwyn helpu i leihau costau ymhellach, rydym yn cymryd rhan mewn ymarfer Cydweithredu Meincnodi Ewropeaidd sy'n golygu cyfnewid a gwerthuso data allweddol rhwng tua 40 o gwmnïau cyfleustodau o fwy na 18 o wledydd.

Bydd hyn yn parhau i fod yn ffordd ddefnyddiol o gymharu costau a data eraill fel y gallwn anelu at wella'n barhaus a chymharu perfformiad yn erbyn rhai o'r cwmnïau dŵr gorau yn y byd.

ASTUDIAETH ACHOS

Mae GERAINT WILLIAMS, gweithredwr carthffosydd yn Rhondda Cynon Taf, yn disgrifio sut mae wedi datblygu ffordd arloesol o helpu i fynd i'r afael â blociadau yn ein rhwydwaith. Bydd ei waith yn helpu cwsmeriaid yn ogystal â'r cwmni drwy arbed tua £1 filiwn mewn costau erbyn mis Rhagfyr 2015.

"Roedd fy nghydweithwyr a finnau'n gwario mwy a mwy o amser yn ceisio cyrraedd a thynnu eitemau a oedd yn atal y carthffosydd. Pan na allem wneud hynny, byddai'n rhaid i ni gysylltu â pheirianwyr arbenigol i ddod a defnyddio system chwistrellu dŵr dan bwysedd uchel gostus er mwyn glanhau'r carthffosydd a hyd yn oed weithiau dorri'r piblinellau a tharfu ar ein gwasanaethau.

"Fe es i adref ac ar ôl ychydig o nosweithiau hwyr yn y garej, fe ddatblyges i wyth offeryn gwahanol sydd bellach yn ein helpu i symud yr eitemau mwyaf cyffredin sy'n atal carthffosydd yn ein profiad ni. Mae'n gwneud bywyd yn llawer haws i ni ac mae hefyd yn arbed llawer o arian i'r cwmni – ac yn bwysicach byth i'n cwsmeriaid."

Caiff dyfeisiadau Geraint eu treialu gan dimau eraill cyn iddynt gael eu cyflwyno i bob rhan o'r cwmni.

EDRYCH YMLAEN

Fel cwmnïau eraill, byddwn yn wynebu costau cynyddol yn y dyfodol sy'n debygol o effeithio ar filiau cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys costau allanol megis cynnydd ym mhrys pŵer ac ynni yn ogystal â chostau mewnol megis y rhai sy'n gysylltiedig â throsglwyddo carthffosydd preifat a mabwysiadu ac adsefydlu gorsafoedd pwmpio preifat. Eto i gyd, rydym yn benderfynol o barhau i sicrhau gwerth gorau am arian i'n cwsmeriaid drwy wrthbwysu'r costau hynny drwy fentrau effeithlonrwydd.

Rydym ar y trywydd cywir i gyflawni hyn ar ôl sefydlu grŵp llywio mewnol gyda'r dasg o nodi £30 miliwn o arbedion mewn costau gweithredu dros y pum mlynedd hyd at 2020, sy'n rhan o'n Cynllun Busnes drafft cyhoeddus ar gyfer y cyfnod hwn.



Chris Jones, Prif Weithredwr
12 Mehefin 2014

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

CYFLWYNIAD GAN Y CADEIRYDD

Mae llywodraethu corfforaethol ac arweinyddiaeth Bwrdd gref ac effeithiol yn parhau i chwarae rhan allweddol yn ein gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i fwy na thair miliwn o bobl bob dydd. Mae'r Bwrdd a'r tîm rheoli yn gwbl ymrwymedig i gyflawni'r canlyniadau gorau i'n cwsmeriaid: cyflenwi dŵr yfed o'r ansawdd uchaf a diogelu'r amgylchedd ar ran y cymunedau a wasanaethir gennym, a pharhau i wneud hynny mewn ffordd fforddiadwy.

Gwnawn benderfyniadau er budd hirdymor cwsmeriaid Dŵr Cymru, ac mae'r amcan hwn yn sail i'n dull llywodraethu corfforaethol cyfan. Nid ystyriwn fod llywodraethu yn weithgaredd cydymffurfio ond yn hytrach fel canllaw i sicrhau ein bod yn gweithredu yn y ffordd gywir. Credwn fod llywodraethu corfforaethol da er budd gorau ein cwsmeriaid a bydd yn helpu i sicrhau llwyddiant a chynaliadwyedd Dŵr Cymru. Cydymffurfiwn â Chod Llywodraethu Corfforaethol 2012 y DU (y 'Cod') i'r graddau sy'n berthnasol i ni fel cwmni cyfyngedig drwy warant, a chydymffurfiwn yn llawn ag egwyddorion llywodraethu corfforaethol cyhoeddus Ofwat ar gyfer cwmnïau a reoleiddir (sydd ar gael yn: <http://ofwat.gov.uk/regulating/gud-pro20140131leadershipregco.pdf>).

Ym mis Ebrill 2014, gwnaethom gyhoeddi Cod Llywodraethu er mwyn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'r egwyddorion llywodraethu hyn. <http://www.dwrcymru.co.uk/cy-GB/Company-Information/Governance.aspx>

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal busnes yn y ffordd briodol rhaid i'r Bwrdd gynnig arweinyddiaeth briodol; dylai ychwanegu gwerth a gwneud hynny drwy lunio strategaeth, creu atebolrwydd, monitro a llywio perfformiad a phennu naws foesol y cwmni. Yn unol â hynny, mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys Cyfarwyddwyr ag ystod eang o sgiliau a phrofiad er mwyn sicrhau dull gweithredu cytbwys, a lle bo'n briodol herio'r broses gwneud penderfyniadau. Yn ystod 2013-14, rydym wedi gweld newid sylweddol. Rydym yn ddiolchgar i Nigel Annett am ei gyfraniad parhaus fel Rheolwr Gyfarwyddwr tan 1 Medi 2013. Penodwyd Chris Jones fel ein Prif Weithredwr o 1 Medi 2013 ac ymunodd Graham Edwards fel Cyfarwyddwr Anweithredol annibynnol o fis Hydref. Roeddwn hefyd yn ddiolchgar i John Bryant am gadeirio'r cwmni yn ystod fy absenoldeb chwe mis fel Cadeirydd, a dychwelais fel Cadeirydd yn ôl y bwriad ym mis Tachwedd 2013.

Mae cynnal cydberthnasau da ac agored ag Aelodau a buddsoddwyr yn parhau i fod yn bwysig iawn. Rydym yn parhau i fwynhau cyfraddau presenoldeb uchel iawn ymhlith Aelodau yn ein cyfarfodydd chwe misol gyda'r Aelodau, sy'n rhoi cyfleoedd rheolaidd iddynt gwrrdd â'r Bwrdd; yn y cyfarfodydd hyn gwnawn gyflwyniadau ar berfformiad y cwmni, datblygiadau a rhagolygon. Mae pob Cyfarwyddwr, gan gynnwys Cadeiryddion pwyllgorau allweddol y Bwrdd, ar gael i ateb cwestiynau. Ar ôl pob cyfarfod, bydd pob Aelod yn derbyn briff ysgrifenedig o'r materion a drafodwyd a'r ymatebion i gwestiynau a ofynnwyd. Rhwng cyfarfodydd, rhown y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am faterion a datblygiadau allweddol drwy gyfuniad o fwletinau newyddion a diweddariadau.

Eleni, cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol gyda'r Aelodau a ganolbwyntiodd ar yr Adolygiad o Brisiau a chynhaliwyd ein cyfarfod rhanbarthol cyntaf gyda'r Aelodau. Cynhaliwyd nifer helaeth o weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y safbwyntiau hyn yn llywio ein cynllun busnes ar gyfer y cyflwyniad Adolygu Prisiau.

Caiff buddsoddwyr adroddiad chwarterol a phob haf cynhaliwn gyfarfod buddsoddwyr blynyddol yn Llundain. Yn sgil cyhoeddi canlyniadau interim a rhagarweiniol ar gyfer unrhyw gyfnod cynhelir cyfarfodydd anffurfiol â phrif fond-ddalwyr a buddsoddwyr eraill, a all hefyd ofyn am gyfarfod ag aelod o'r Bwrdd ar unrhyw adeg. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad yn dilyn cyfarfodydd â buddsoddwyr a, lle bo'n briodol, yn ystyried y safbwyntiau a fynegir gan fuddsoddwyr ar faterion sy'n effeithio ar y cwmni.

Hefyd, ceir cyfathrebu rheolaidd â Llywodraeth Cymru a phob un o reoleiddwyr economaidd, ansawdd dŵr ac amgylcheddol, a gwasanaeth cwsmeriaid Dŵr Cymru.

Yn 2014, cynhaliwyd adolygiad wedi'i hwyluso'n allanol o'r Bwrdd a nodir y canfyddiadau ar dudalen 60.

Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn ffordd sydd, ym marn y Cyfarwyddwyr, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.



Robert Ayling, Cadeirydd
12 Mehefin 2014

EIN STRWYTHUR LLYWODRAETHU

Mae Dŵr Cymru yn wahanol i gwmnïau dŵr eraill. Nid oes gennym gyfranddalwyr a chawn ein perchenogi a'n rheoli ar ran yr holl gwsmeriaid a wasanaethir gennym.

Strwythur y Cwmni


Rhydd ein cyfrifon (o dudalen 87) fanylion y cwmnïau canlynol o fewn strwythur y Grŵp:

- Cafodd Glas Cymru Cyfyngedig ei ffurfio fel cwmni cyfyngedig drwy warant a'i unig ddiben oedd caffael a rheoli Dŵr Cymru Cyfyngedig.
- Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig yw cwmni dal Dŵr Cymru (Holdings) Limited a'i is-gwmnïau.
- Dŵr Cymru (Holdings) Limited yw cwmni dal cyfryngol Dŵr Cymru Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Financing) Limited.
- Mae Dŵr Cymru Cyfyngedig yn is-gwmni sydd ym mherchenogaeth lwyr Glas Cymru a hwn yw prif gwmni masnachu'r Grŵp.

Ei brif weithgaredd yw cyflenwi dŵr a thrin a gwaredu dŵr gwastraff o dan yr Offeryn Penodi a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan Ddeddf Dŵr 1989.

- Cafodd Dŵr Cymru (Financing) Limited ei ffurfio yn 2001 a hwn yw'r cwmni 'dyroddi' ar gyfer bondiau'r Grŵp, a restrir ar y Luxembourg Bourse. Mae Dŵr Cymru (Financing) Limited yn gorfforedig yn Ynysoedd y Cayman, ond caiff ei reoli ac ystyrir ei fod yn preswyllo yn y DU at ddibenion treth. Mae'r cwmni yn trosglwyddo elw unrhyw ddyroddion bond i Dŵr Cymru Cyfyngedig.
- Mae Dŵr Cymru Customer Services Limited yn darparu gwasanaethau casglu incwm a bilio i Dŵr Cymru Cyfyngedig.

Ein Haelodaeth, Bwrdd a Phwyllgorau – Sut rydym yn wahanol



**Iwan Huws**

"Mae bod yn Aelod o Glas Cymru wedi bod yn brofiad gwerth chweil. Cael gweld sut mae'r diwydiant dŵr yng Nghymru yn gweithredu a chael dylanwad. Mae gen i ddiddordeb yn yr amgylchedd a thwristiaeth."

"Mae Dŵr Cymru yn dirfeddiannwr pwysig ac yn chwarae rhan allweddol yn safon amgylcheddol a safon tirlun a chefn gwlad Cymru. Mae gan Aelodau ddylanwad!"

Rôl Aelodau

Fel Cwmni Cyfyngedig drwy Warant, nid oes gennym unrhyw gyfranddalwyr ond mae ein Haelodau yn cyflawni'r rôl werthfawr y byddai cyfranddalwyr yn ei chwarae ym maes llywodraethu corfforaethol. Nid yw'r Aelodau yn gwneud penderfyniadau strategol ond maent yn dwyn y Bwrdd i gyfrif am stiwardiaeth ein hasedau, a'n nod i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol i fwy na thair miliwn o bobl 24/7 mewn ffordd a fydd yn gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol.

Rôl allweddol ein Haelodau di-dâl yw sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ein prif ddiben, sef darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy o ansawdd uchel i gwsmeriaid Dŵr Cymru.

Mae ein Haelodau yn unigolion, a benodwyd gan y Bwrdd ond a ddewiswyd gan Banel Dethol o Aelodau annibynnol, sy'n ofynnol er mwyn cynnal aelodaeth gytbwys ac amrywiol, ac sydd gyhyd â phosibl yn adlewyrchu'n eang yr amrywiaeth o fuddiannau cwsmeriaid a rhanddeiliaid. Nid ydynt yn derbyn unrhyw ffi, ac nid oes ganddynt ychwaith fudd ariannol yn y busnes. Credwn fod yr annibyniaeth hon yn galluogi llywodraethu cadarn.

Ar hyn o bryd mae 57 o Aelodau annibynnol o Glas Cymru (heb gynnwys y Cyfarwyddwyr). O dan Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni mae pob Cyfarwyddwr hefyd yn Aelod tra'i fod yn cyflawni rôl Cyfarwyddwr.

Gofynnir i Aelodau fynychu dau gyfarfod Aelodau ffurfiol bob blwyddyn. Yn 2013-14, gwnaethom gynnal tri chyfarfod ychwanegol er mwyn hysbysu Aelodau am y gwaith a oedd yn mynd rhagddo i gyflwyno Cynllun Busnes y cwmni ym mis Rhagfyr 2013, ac yn arbennig i geisio barn Aelodau ar y cynigion ar gyfer Cynllun Busnes 2015-2020.

Ceir rhestr o Aelodau annibynnol Glas Cymru, ynghyd â'n Polisi Aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Panel Dethol Aelodau, ar ein gwefan www.glascymru.com.

Rôl y Bwrdd

Caiff y Grŵp ei arwain a'i reoli gan Fwrdd Cyfarwyddwyr, sy'n gyfrifol am ei lwyddiant hirdymor. Mae'r Bwrdd yn pennu nodau strategol y Grŵp, yn monitro perfformiad rheolwyr yn erbyn y nodau strategol, yn sicrhau llywodraethu da, yn gosod yr amgylchedd risg ac yn sicrhau bod rheolaethau effeithiol ar waith o fewn y busnes.

Ceir rhestr o faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd a'r Bwrdd sy'n gyfrifol am feysydd fel strategaeth, risg a llawer o benderfyniadau eraill. Cafodd y rhestr o faterion wedi'u cadw'n ôl ei hadolygu ddiwethaf ym mis Mawrth 2014 ac mae ar gael ar ein gwefan.

Mae llywodraethu ac arweinyddiaeth y Bwrdd yn hanfodol er mwyn cynnal hyder ein cwsmeriaid ac rydym mor dryloyw â phosibl ynghylch ein perfformiad er mwyn cefnogi hyn.

Rôl y Cadeirydd

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am arwain bwrdd unedig, hwyluso cyfarfodydd a chynnal system lywodraethu dda.

Cytunir ar Agendâu Cyfarfodydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Cwmni, er y gall unrhyw gyfarwyddwr ofyn i eitem gael ei hychwanegu at yr agenda. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd y Cadeirydd yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol heb i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fod yn bresennol, er mwyn ystyried perfformiad y Cyfarwyddwyr Gweithredol a rhoi adborth. Yn gyffredinol, mae'r Cadeirydd hefyd yn cyfarfod yn unigol â phob Aelod o'r Bwrdd er mwyn adolygu perfformiad unigolion yn ystod y flwyddyn, er na ddigwyddodd hyn yn 2013-14 am fod Robert Ayling yn absennol am chwe mis. Mae cyfarfodydd rhwng y Cadeirydd a Chyfarwyddwyr unigol wedi'u trefnu ar gyfer blwyddyn galendr 2014.

Rôl yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn pontio'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ac mae mewn cysylltiad â'n Haelodau. John Bryant yw'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ar hyn o bryd, a disgwyliar iddo adael y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2014. Argymhellir i'n Haelodau yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 4 Gorffennaf 2014 y dylid penodi Menna Richards fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol.

Rôl y Cyfarwyddwyr Anweithredol

Caiff Cyfarwyddwyr Anweithredol eu penodi i'r Bwrdd er mwyn rhannu eu harbenigedd a darparu her a chadernid annibynnol yn nhreffodaethau'r Bwrdd. Mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn heb i'r Cadeirydd fod yn bresennol, er mwyn trafod ei berfformiad.



Sarah Jenkins

"Y rheswm y gwnes i gais i fod yn aelod o Glas Cymru oedd er mwyn dysgu am y model dielw a sut y mae'n gweithio. Mae dŵr yn rhywbeth rydw i'n angerddol yn ei gylch ac rwy'n teimlo ei bod hi'n hanfodol sicrhau bod ein dŵr o safon uchel a'n bod ni'n cael gwared ar ein dŵr gwastraff mewn ffordd ddarbodus sy'n sensitif i'r amgylchedd. Mae ymweld â safleoedd trin dŵr a chanolfannau trin dŵr gwastraff wedi rhoi cyfle i mi ddeall y prosesau sydd ynghlwm wrth gyflenwi dŵr i gartrefi cwsmeriaid a chael gwared ar eu dŵr gwastraff."

"Mae chwarae rhan yn y trafodaethau am y cynllun busnes PR14 wedi rhoi cyfle i mi werthfawrogi pa mor gymhleth yw'r model busnes ar y cyd â gofynion Ofwat – rheoleiddiwr y diwydiant dŵr, wrth sicrhau nad yw'r cwsmeriaid yn wynebu unrhyw gynnydd sylweddol yn eu biliau, a bod digon o arian yn cael ei neilltuo i ddatblygu a chynnal y seilwaith cyfalaf."

Rôl y Prif Weithredwr

Mae'r bwrdd wedi dirprwyo cyfrifoldeb y tu hwnt i faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd i'r Prif Weithredwr er mwyn cyflawni strategaeth y cwmni a rheoli ei faterion beunyddiol. Cefnogir y Prif Weithredwr gan Dîm Gweithredol Dŵr Cymru i roi'r strategaeth ar waith.

Rôl Ysgrifennydd y Cwmni

Mae Ysgrifennydd y Cwmni yn gyfrifol am helpu'r Cadeirydd i sicrhau bod y cwmni yn dangos llywodraethu da. Mae Ysgrifennydd y Cwmni ar gael i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ac mae'n sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n dda i'r bwrdd a'i bwyllgorau a rhwng uwch reolwyr a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.


Penodiadau

Mae Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni yn caniatáu i'r Bwrdd benodi Cyfarwyddwyr newydd. Er mwyn i Fwrdd ychwanegu gwerth a bod yn effeithiol mae angen iddo gynnwys unigolion â'r cydbwysedd cywir o sgiliau a phrofiad a chefnidiroedd amrywiol. Rhaid i Gyfarwyddwyr arddel barn annibynnol a gallu cynnig her adeiladol. Y Pwyllgor Enwebu sy'n mynd ati i chwilio am ymgeiswyr Bwrdd ar sail teilyngdod, yn erbyn meini prawf amcanion y rôl, a gyda sylw dyledus i gynnal cydbwysedd priodol o sgiliau a phrofiad a phwysigrwydd sicrhau bod amrywiaeth o gynrychiolaeth ar y Bwrdd. Mae llythyrau penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar gais i Ysgrifennydd y Cwmni.

Mae Dŵr Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo amrywiaeth, dim gwahaniaethu, a chyfle cyfartal yn y ffordd rydym yn trin cyflogaion, darpar gyflogaion, ymwelwyr, cleientiaid, cwsmeriaid a chyflenwyr. Mae'r Bwrdd wedi nodi ei broses recriwtio mewn polisi amrywiaeth sy'n ymrwymedig i'r canlynol.

Amrywiaeth o ran rhyw


O ran lefel briodol o gynrychiolaeth gan fenywod, rydym yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni amcanion Adroddiad Davies. Ar hyn o bryd, mae 25% o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol yn fenywod, mae 30% o'r tîm Gweithredol yn fenywod ac mae 34% o Dîm Arwain ehangach Dŵr Cymru yn fenywod.



Mae'r ystadegau amrywiaeth o ran rhyw ar gyfer y cwmni cyfan ar gael ar dudalen 49.

Hyd gwasanaeth

Dangosir priod gyfnodau gwasanaeth ein Cyfarwyddwyr Anweithredol isod.



Sefydlu a datblygu

Bydd Cyfarwyddwyr yn dilyn proses sefydlu bersonol, sy'n cynnwys pecyn gwybodaeth, ymweliadau safle a chyfarfodydd un i un ag uwch reolwyr. Bydd y bwrdd a phwyllgorau yn cyflawni sesiynau hyfforddi a briffio fel y bo'n briodol. Yn 2013-14 cafodd ein Bwrdd (ar wahân i Graham Edwards ac Anna Walker sydd ill dau yn gyfrifol am faterion iechyd a diogelwch mewn rolau cysylltiedig eraill) hyfforddiant iechyd a diogelwch (Diogelwch IOSH ar gyfer Uwch Gyfarwyddwyr Gweithredol). Eleni rydym wedi cynyddu nifer yr ymweliadau safle a chyfarfodydd o amgylch y busnes ar gyfer DCE a'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi ymweld â safleoedd gan gynnwys safleoedd prosiect GlawLif yn Llanelli a Gwaith Trin Dŵr Llyswen ac mae wedi cyfarfod mewn lleoliadau yn y de a'r gogledd.

Cydbwysedd ac annibyniaeth

Cred y Bwrdd fod ganddo ef a'i Bwyllgorau gyfansoddiad priodol i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd yn parhau i adolygu ei aelodaeth ynghyd ag aelodaeth ei Bwyllgorau yn barhaus er mwyn sicrhau y cynhelir cydbwysedd derbyniol. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan yr holl Gyfarwyddwyr ddigon o amser i ymrwymo i'w rôl ac nad oes unrhyw groes-swyddi Cyfarwyddwr na buddiannau busnes arwyddocaol yn gyffredin rhwng aelodau'r Bwrdd.

Pennwyd bod ein holl Gyfarwyddwyr Anweithredol yn annibynnol yn unol â'r cod ac yn rhydd o unrhyw fusnes neu gydberthynas arall a allai beryglu eu dyfarniadau annibynnol. Fel rhan annatod o gynllun olyniaeth y Bwrdd, rydym wedi penderfynu cydbwysio penodiadau Cyfarwyddwyr newydd â chynnal sefydlogrwydd digonol ar gyfer y Bwrdd cyfan. Ymunodd Graham Edwards â'r Bwrdd yn 2013 ac mae'n dod ag ystod eang o brofiad gweithredol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd (PAA), yn enwedig o ran profiad yn y sector cyfleustodau. Bydd John Bryant yn gadael y Bwrdd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2014 ar ôl 13 mlynedd ar y Bwrdd. Mae John wedi dangos ymrwymiad anhygoel ac mae wedi bod yn gaffaeliad i'r Bwrdd drwy sawl cyfnod o newid enfawr. Mae ganddo wybodaeth drylwyr am y cwmni ac mae wedi cynnal yr annibyniaeth o ran cymeriad a dyfarniadau sydd ei hangen ar Gyfarwyddwr Anweithredol da. Bu Robert Ayling yn Gyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol nes ei benodi'n Gadeirydd yn 2010.

Er mwyn sicrhau bod gennym Fwrdd effeithiol, cynhaliwn adolygiad blynnyddol er mwyn rhoi cyfle i wella'n barhaus. Ym mis Mawrth 2014 gwnaethom gynnal adolygiad wedi'i hwyluso'n allanol gan Wasanaeth Archwilio Annibynnol. Nid oes unrhyw gysylltiad arall rhwng y Grŵp a Gwasanaeth Archwilio Annibynnol. Cafodd canlyniad y gwerthusiad ei adolygu gan y Cadeirydd a'i gyflwyno i'r Bwrdd gan Jonathan Hayward yn ei gyfarfod ym mis Mai 2014. Roedd y canlyniadau'n gadarnhaol iawn ar y cyfan gyda rhai syniadau yn cael eu rhoi ar gyfer gwella papurau'r Bwrdd ac adroddiadau risg ymhellach. Lluniwyd cynllun gweithredu er mwyn ymdrin â'r materion hyn. Mewn ymateb i arolwg effeithiolrwydd y Bwrdd y llynedd, mae rhai gwelliannau eisoes wedi cael eu gwneud i fformat a chynnwys y papurau a anfonir i'r Bwrdd, a chynhaliwyd adolygiad o'n prosesau rheoli

risg gan wneud gwelliannau.

Er mwyn adolygu perfformiad y Bwrdd yn effeithiol a chynnal deialog agored, mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol hefyd yn cyfarfod heb y Cyfarwyddwyr Gweithredol unwaith y flwyddyn a heb y Cadeirydd unwaith y flwyddyn.

Ailethol Cyfarwyddwyr

Yn unol â'r cod, mae pob Cyfarwyddwr yn ceisio cael ei ailethol bob blwyddyn gan Aelodau ac mae unrhyw Gyfarwyddwr a benodwyd yn ystod y flwyddyn yn ceisio cael ei ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nesaf.

Cyfarfodydd Bwrdd

Yn 2013-14, cafodd y Bwrdd naw cyfarfod a drefnwyd a dau gyfarfod ychwanegol a gynhaliwyd er mwyn ymdrin â materion a oedd wedi codi yn ystod yr adolygiad o brisiau PR14. Cynhelir ein cyfarfodydd wedi'u trefnu dros gyfnod o ddeuddydd er mwyn rhoi'r amser sydd ei angen i'r Bwrdd adolygu cynnydd yn erbyn amcanion strategol a chyfarfod â rheolwyr busnes allweddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r materion strategol y mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio arnynt wedi cynnwys: yr adolygiad o brisiau, arloesedd, risg, Gweledigaeth a Gwerthoedd a newid diwylliant y cwmni.

Presenoldeb

Pan na all Cyfarwyddwr fynychu cyfarfod bydd y Cadeirydd yn ceisio ei farn ar eitemau allweddol cyn y cyfarfod fel bod modd eu hychwanegu at y drafodaeth.

Gwrthdaro Buddiannau

O dan gyfraith cwmnïau'r DU rhaid i unrhyw wrthdaro gael ei awdurdodi ymlaen llaw er mwyn osgoi sefyllfa lle mae cyfarwyddwr yn torri'r ddyletswydd statudol.

Rhaid i bob Cyfarwyddwr ddatgelu achos o wrthdaro, neu wrthdaro buddiannau posibl, ar unwaith. Hefyd, bydd pob Cyfarwyddwr yn llofnodi datganiad blynnyddol ac yn datgelu ei benodiadau allanol.

Penodiadau Allanol

Caiiff Cyfarwyddwyr Anweithredol eistedd ar nifer o fyrddau eraill ar yr amod eu bod yn parhau i ddangos yr ymrwymiad gofynnol i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Bydd y Cadeirydd yn ystyried hyn fel rhan o'i adolygiad o effeithiolrwydd pob Cyfarwyddwr. Mae Cyfarwyddwr Gweithredol hefyd wedi cael eu hannog i ennill profiad o eistedd ar Fwrdd arall ac, yn amodol ar gymeradwyo eu penodiad bob blwyddyn gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth (PC), cânt gadw unrhyw ffioedd a enillir o'r fath benodiad.

	RA	CJ	PP	JB	SP	JS	MR	AW	JW	GE	NA
Bwrdd (11)	5	11	11	11	11	11	11	11	9	5	4
Archwilio (4)	2	4	—	2	—	—	4	—	4	—	1
PAA (10)	3	5	10	10	10	—	—	—	—	3	5
PC (6)	3	5	—	6	—	6	—	6	5	—	2
Robert Ayling (RA); Chris Jones (CJ); Peter Perry (PP); John Bryant (JB); Stephen Palmer (SP); James Strachan (JS); Menna Richards (MR); Anna Walker (AW); John Warren (JW); Graham Edwards (GE); Nigel Annett (NA).											
*Nodiadau ar bresenoldeb											
— Bu Robert Ayling yn absennol am chwe mis											
— Dechreuodd John Bryant fynychu'r Pwyllgor Archwilio yn ystod absenoldeb chwe mis Robert Ayling											
— Dim ond am ran o'r flwyddyn y bu Nigel Annett a Graham Edwards ar y Bwrdd											
— Nid oedd Chris Jones yn aelod o'r PAA nes iddo gael ei benodi'n Brif Weithredwr ym mis Medi 2013.											

Y CYFARWYDDWYR

**Robert Ayling, Cadeirydd**

Wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Ebrill 2008, daeth Robert yn Gadeirydd Glas Cymru ym mis Gorffennaf 2010. Mae hefyd yn Gadeirydd Annibynnol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Yn gyfreithiwr ag 20 mlynedd o brofiad yn Ninas Llundain ac fel uwch gynghorydd cyfreithiol y llywodraeth yn yr Adran Masnach a Diwydiant, cyflawnodd nifer o rolau uwch reoli yn British Airways plc, lle bu'n Rheolwr Gyfarwyddwr y Grŵp ac yn Brif Weithredwr rhwng 1993 a 2000. Mae hefyd yn gyn-Gadeirydd Dyson Ltd, The International Dispute Resolution Centre Ltd, Sanctuary Group plc a Holidaybreak plc ac mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol yn Royal & Sun Alliance Insurance Group plc a QANTAS.

**John Bryant, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol**

Wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Mawrth 2001, mae John yn gyn-Brif Weithredwr British Steel a, than fis Rhagfyr 2000, roedd yn Gyd-Brif Weithredwr Corus plc. Roedd yn Gyfarwyddwr Anweithredol yn Costain Group plc tan fis Ionawr 2013 ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol yn Banc Cymru plc rhwng 1996 a 2001.

**Chris Jones, Prif Weithredwr**

Daeth Chris yn Brif Weithredwr ym mis Medi 2013 ar ôl bod yn Gyfarwyddwr Cyllid Dŵr Cymru ers mis Mai 2001 a Glas Cymru ers mis Ebrill 2000. Mae hefyd wedi cyflawni rôl Gyfarwyddwr Rheoleiddio Dŵr Cymru a South Wales Electricity plc. Cyn ymuno â Dŵr Cymru yn 1995, roedd yn Gyfarwyddwr yn National Economic Research Associates a, chyn hynny, gweithiodd i Drysorlys EM. Mae'n Ddirprwy Gadeirydd Cyngor y Prince's Trust – Cymru. Bu'n Gyfarwyddwr Anweithredol gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality ac yn un o Ymddiriedolwyr y Sefydliad Materion Cymreig.

**Peter Perry, Prif Swyddog Gweithredu**

Wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Gweithrediadau ym mis Gorffennaf 2006, mae gan Peter gefndir peirianeg sifil ac roedd yn gyn-Brif Swyddog Gweithredu United Utilities Operational Services (UUOS), ar ôl bod yn gyn-Gyfarwyddwr Gweithrediadau yno â chyfrifoldeb am y contract gweithredol â Dŵr Cymru a buddiannau dŵr UUOS yn yr Alban ac Iwerddon. Cyn ymuno ag UUOS gweithiodd i Dŵr Cymru am dros 20 mlynedd. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr (gan gynrychioli Cymru) yn y Gwasanaeth Cyngori ar Reoliadau Dŵr, sef y corff cenedlaethol sy'n pennu safonau deunyddiau a chreffftwaith a ddefnyddir i gyflenwi dŵr yfadowy.



**Graham Edwards,
Cyfarwyddwr Anweithredol**

Wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Hydref 2013, mae Graham yn cyflawni rôl Prif Swyddog Gweithredu Wales & West Utilities ar hyn o bryd. Mae ganddo brofiad sylweddol fel uwch reolwr yn y sector cyfleustodau gan redeg busnesau dosbarthu trydan a dŵr gyda South Wales Electricity, Hyder a Thames Water. Mae wedi dal uwch swyddi mewn amryw swyddogaethau ar draws ystod eang o fusnesau gan gynnwys Peirianeg, Cynhyrchu, Adnoddau Dynol a Gweithrediadau. Mae'n Gymrawd Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ac ef oedd Cadeirydd diwethaf CBI Cymru.



**Yr Athro Stephen Palmer,
Cyfarwyddwr Anweithredol**

Wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Hydref 2009, mae'r Athro Palmer (62) yn Athro Mansel Talbot Epidemioleg ac Iechyd y Cyhoedd ym Mhrifysgol Caerdydd. Rhwng 2003 a mis Gorffennaf 2010, roedd yn Gyfarwyddwr isadran peryglon cemegol yr Asiantaeth Diogelu Iechyd, yr isadran gwasanaethau lleol a rhanbarthol, ac yn bennaeth proffesiwn ar gyfer epidemioleg yn yr ADI. Yn gymrawd y Gyfadran Iechyd y Cyhoedd a Choleg Brenhinol y Ffisigwyr, mae wedi bod yn ffigwr dylanwadol ym maes iechyd y cyhoedd ers dros 25 mlynedd. Mae ganddo CV hir o swyddogaethau proffesiynol iechyd y cyhoedd blaenorol ac mae wedi ysgrifennu sawl llyfr ac wedi cynnal adolygiadau cymheiriaid o bapurau ar glefydau heintus a pheryglon cemegol.



**Menna Richards,
Cyfarwyddwr Anweithredol**

Wedi'i phenodi'n Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Tachwedd 2010, treuliodd Menna Richards ei gyrfa weithredol ym maes darlledu fel Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales (2000-2011) a chyn-Reolwr Gyfarwyddwr HTV Cymru. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality ac Opera Cenedlaethol Cymru. Mae'n un o ymddiriedolwyr yr elusen ALOUD. Bu'n Gadeirydd Llywodraethwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac yn gyn Is-Lywydd. Mae hefyd yn Ddirprwy Ganghellor Prifysgol Caerdydd. Roedd Menna hefyd yn aelod o fwrdd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.



**James Strachan,
Cyfarwyddwr Anweithredol**

Wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Mehefin 2007, mae James yn Gyfarwyddwr Anweithredol Towergate Insurance Limited, JP Morgan Asian Investment Fund plc a Sarasin and Partners LLP. Ymhlith ei rolau blaenorol mae: Cadeirydd y Comisiwn Archwilio, Cyfarwyddwr Anweithredol gyda Banc Lloegr, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, Legal and General Group plc, Care UK plc a Social Finance Limited, aelod Bwrdd Ofgem (y rheoleiddiwr ynni), Uwch Gymrawd Gwadd ym maes risg a rheoleiddio yn LSE, cadeirydd yr elusen RNID a Rheolwr Gyfarwyddwr Merrill Lynch.



**Anna Walker,
Cyfarwyddwr Anweithredol**

Wedi'i phenodi'n Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Mawrth 2011, mae gan Anna gyfoeth o brofiad ym maes rheoleiddio, gwasanaeth cwsmeriaid, llunio polisi a gweithio gyda llywodraethau. Hi yw Cadeirydd Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd a chynhaliodd adolygiad annibynnol ar ran y llywodraeth yn 2008 o daliadau dw'r cartrefi. Ymhlith ei rolau blaenorol mae Prif Weithredwr y Comisiwn Gofal Iechyd (2004-2009), Cyfarwyddwr Cyffredinol, Defnydd Tir a Materion Gwledig yn DEFRA, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Ynni yn yr Adran Masnach a Diwydiant, a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Oftel, sef rheoleiddiwr y sector telathrebu. Mae Anna, a gafodd CBE yn 2003 am wasanaeth cyhoeddus, yn Gadeirydd yr elusen Young Epilepsy, yn gyn Is-Gadeirydd Llais Defnyddwyr, sef y corff hyrwyddo defnyddwyr statudol ac yn aelod o Gyngor Which?



**John Warren,
Cyfarwyddwr Anweithredol**

Wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Mai 2012, mae John yn gyfrifydd cymwys sydd â mwy na 25 mlynedd o brofiad mewn rolau cyllid a phrofiad helaeth o gadeirio Pwyllgorau Archwilio cwmnïau rhestredig mawr y DU. Nes iddo ymddeol yn 2005, roedd yn Gyfarwyddwr Cyllid Grŵp WH Smith plc a, chyn hynny, United Biscuits plc. Ar hyn o bryd mae'n Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn Spectris plc, ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio Greencore Group plc, 4imprint Group plc a Bovis Homes plc.

ADRODDIADAU GAN Y PWYLLGORAU

Committees

Er mwyn cyflawni ei rôl yn yr amser sydd ar gael, caiff rhai o gyfrifoldebau'r Bwrdd eu dirprwyo i Bwyllgorau, sy'n chwarae rhan bwysig yn y broses o weithio gyda rheolwyr i sicrhau bod ein busnes yn gryf yn ariannol, wedi'i lywodraethu'n dda a bod risgiau yn cael eu nodi a'u lliniaru. Mae gan bob Pwyllgor gylch gorchwyl ysgrifenedig (sydd ar gael ar gais gan Ysgrifennydd y Cwmni), wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd, sy'n crynhoi'r cyfrifoldebau a ddirprwywyd iddo.

Ein prif bwyllgorau yw:

- Pwyllgor Enwebu
- Pwyllgor Cyllid
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd ('PAA')
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth
- Pwyllgor Gweithredol Dŵr Cymru

Ar ôl ymuno â Phwyllgor, bydd Cyfarwyddwyr yn dilyn proses sefydlu briodol a chynigir cyfleoedd hyfforddi ac addysg iddynt. Ar ôl pob cyfarfod, caiff crynodeb o'r materion a drafodwyd ei roi i'r Bwrdd, a rhennir cofnodion pwyllgor ymhlith Cyfarwyddwyr. Gall y pwyllgorau ddefnyddio gwasanaethau cynghorwyr fel y bo angen i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Yn ogystal â chadeirio pwyllgor neu fod yn aelod o bwyllgor, mae pob Cyfarwyddwr yn ymrwymo amser a mewnbwn ychwanegol ar y materion canlynol: iechyd y cyhoedd (Stephen Palmer), gweithrediadau (John Bryant a Graham Edwards), gwasanaeth cwsmeriaid a rheoleiddio (Anna Walker), cyllid, rheoleiddio a chydabyddiaeth (James Strachan), cyfathrebu a chysylltiadau Aelodau (Menna Richards) a llywodraeth a rheoliadau (Robert Ayling).

Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Enwebu

Cadeirydd Presennol: Robert Ayling¹
Aelodau: Yr holl Gyfarwyddwyr Anweithredol a'r Prif Swyddog Gweithredol

Rôl y Pwyllgor hwn yw sicrhau bod cynlluniau ar waith ar gyfer penodi olynion i'r Bwrdd mewn ffordd drefnus. Felly, edrychwn ar faint, strwythur, a chyfansoddiad y Bwrdd (a sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ymhlith aelodau'r Bwrdd) a, lle bo'n briodol, argymhellwn ymgeiswyr i'w penodi i'r Bwrdd.

Eleni, mae'r Pwyllgor Enwebu wedi mynd ati i nodi olynnydd i Nigel Annett fel Rheolwr Gyfarwyddwr, ac wedyn Gyfarwyddwr Cyllid yn lle Chris Jones a Chyfarwyddwr Anweithredol annibynnol i olynu John Bryant. Er mwyn gwneud hyn, defnyddiwyd gwasanaethau Odgers Berndston a Spencer Stuart yn y drefn honno i'n helpu.

Mae Dŵr Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo amrywiaeth, dim gwahaniaethu, a chyfle cyfartal yn y ffordd rydym yn trin cyflogeion, darpar gyflogeion, ymwelwyr, cleientiaid, cwsmeriaid a chyflenwyr. Mae'r Bwrdd cyfan yn cymryd diddordeb mewn camau cynllunio olyniaeth ar lefel uwch reoli ac mae wedi nodi ei broses recriwtio mewn polisi amrywiaeth sy'n ymrwymedig i'r canlynol.

// Nid oes unrhyw gysylltiad arall rhwng Odgers Berndston na Spencer Stuart â'r cwmni. Yn dilyn y prosesau hyn, penodwyd Peter Bridgewater yn Gyfarwyddwr Cyllid o fis Medi 2014, ac ymunodd Graham Edwards fel Cyfarwyddwr Anweithredol ym mis Hydref 2013.

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Aelodau: John Bryant; Robert Ayling²; Chris Jones; James Strachan a John Warren.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'i awdurdodi i gymeradwyo trafodion cyllido a thrafodion sy'n ymwneud â'r trysorlys lle mae angen gwneud penderfyniad rhwng cyfarfodydd y Bwrdd. Yn 2013-14 gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyllid gymeradwyo'r fath benderfyniadau ar un achlysur a gwnaeth hynny.

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio

Aelodau: John Warren (Cadeirydd); Robert Ayling¹; Menna Richards a John Bryant

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod 2013-14. Yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn adrodd ariannol 2014-15, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cyfarfod unwaith yn rhagor er mwyn trafod yn fanylach faterion arddel barn ar y datganiadau ariannol gyda'r nod o sicrhau bod Adroddiad Blynnyddol 2013-14 yn rhoi darlun 'cytbwys, teg a dealladwy' o statws ariannol y cwmni, yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig 2012 y DU.

Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael ei gefnogi gan yr archwilwyr allanol, PwC, a ailbenodwyd am flwyddyn arall sy'n dod i ben 31ain Mawrth 2015. Cyn y dyddiad hwnnw, bwriadwn gynnal proses dendro ffurfiol i benodi archwilwyr ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

¹ Ar wahân i 1 Mai – 31 Hydref 2013, pan fu Robert Ayling yn absennol o'r Bwrdd ond parhaodd fel Cyfarwyddwr. Daeth John Bryant yn Gadeirydd yn ystod y cyfnod hwn.

² Ar wahân i 1 Mai – 31 Hydref 2013, pan fu Robert Ayling yn absennol o'r Bwrdd ond parhaodd fel Cyfarwyddwr.

Ymhlith y dyfarniadau a'r materion lle yr ystyriodd y Pwyllgor Archwilio eu bod yn gefndir pwysig i farnu ein perfformiad o ran canlyniadau ariannol roedd y canlynol:

Ar gyfer y datganiadau ariannol Interim: Daniel Contracting Limited

Ar 15 Mai 2013, aeth Daniel Contracting Limited, a oedd wedi darparu contract gwasanaeth cynnal a chadw ar gyfer Dŵr Cymru yn cwmpasu rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth ers sawl blwyddyn, i'r wal. Aeth Dŵr Cymru i gostau ychwanegol o ryw £3.8 miliwn fel rhan o'r gwaith o gefnogi ac yna derfynu contract Daniel a chymryd camau cychwynnol i sefydlu contract newydd. Cafodd yr holl gostau hyn eu cynnwys yn y datganiad incwm. Pan fethodd Daniel, roedd Dŵr Cymru yn berchen ar y busnes hyd at £3.9m o ran y gwasanaethau a ddarparwyd o dan y contract hwn. Pe bai busnes Daniel yn methu, roedd y contract yn darparu ar gyfer rhoi iawndal i Dŵr Cymru am gost lawn terfynu'r contract a phenodi contractiwr newydd. Ym marn y Pwyllgor Archwilio, er nad yw'n debygol y caiff y £3.8 miliwn o gostau ychwanegol eu hadfachu, gellir gwrthbwysu'r costau hyn. Felly, mae £3.2m o hyn wedi'i ryddhau i'r datganiad incwm er mwyn gwrthbwysu'r costau hyn; cadwyd y gweddill ar y fantolen ar 31 Mawrth 2014 fel costau cadw am waith a gwblhawyd yn ddiweddar.

Cyfalafu costau cymorth

Wrth baratoi'r canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013, cynhaliodd y rheolwyr adolygiad cynhwysfawr o'u dull o gyfalafu costau cymorth; ffurfiolodd hyn y modd y cyfrifyddir yr holl gostau cymorth a briodolir yn uniongyrchol i'r rhaglen gyfalaf er mwyn sicrhau cysondeb a llwybr archwilio cadarn. Cymeradwywyd hyn gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2013 ac nid arweiniodd at unrhyw newid perthnasol yn lefel gyffredinol cyfalafu. O ran y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014, ailaseswyd pob categori a chyfradd gyfalafu gan bennaethiaid adran a'r Rheoldd Ariannol; mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu a chymeradwyo'r lefel gyfalafu ddilynol sef £53.9m (2013: £50.3m).

Gwariant adnewyddu seilwaith (IRE)

Cytunwyd i gynnal adolygiad fesul prosiect o gyfalafu costau IRE ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar gyfer datganiadau ariannol diwedd y flwyddyn:

Darparu ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy

Mae darparu ar gyfer dyledion drwg ac amheus yn fater sensitif; wrth wneud eu hargymhelliaid i'r Pwyllgor Archwilio mae'r rheolwyr wedi ystyried perfformiad casglu arian parod ar gyfer cwsmeriaid â mesuryddion a heb fesuryddion yn ystod 2013-14 a, thrwy allosodiad, mae wedi dod i'r casgliad y gallai Dŵr Cymru, dros gyfnod o bedair blynedd, ddisgwyl casglu tua 36% o'r ddyled sy'n weddill ar 31 Mawrth 2014. Mae cyfraddau casglu dros y pum mlynedd diwethaf wedi gweld llai o gasglu arian parod fel cyfran o'r ddyled. Petai'r duedd hon yn parhau, gallai'r cwmni ddisgwyl peidio â chasglu 1.4% arall gan ddyledwyr â mesuryddion a heb fesuryddion. Mewn hinsawdd economaidd sy'n parhau'n ansicr, gostyngiad parhaus mewn cyfraddau casglu a diwygio system lles y wladwriaeth, mae'r rheolwyr o'r farn ei bod yn briodol darparu ar gyfer y duedd hon wrth bennu

darpariaeth dyledion drwg.

Ar ôl adolygu ac ystyried heneiddio dyled cwsmeriaid ar 31 Mawrth 2014, perfformiad hanesyddol o ran casglu arian parod a'r hinsawdd economaidd bresennol, daeth y Pwyllgor Archwilio i'r casgliad y dylai darpariaeth dyledion drwg Dŵr Cymru gael ei phennu'n £66m (2013: £61m) sy'n creu tâl dyledion drwg ac amheus o £28m ar gyfer y flwyddyn ("lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy").

Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol

Mae'r broses o gyfrifo'r rhwymedigaeth pensiwn budd diffiniedig i'w chynnwys ar y fantolen yn unol ag IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio dau amcangyfrif ariannol allweddol, sef y gyfradd ddisgownt a chwyddiant yn y dyfodol. Mae IAS 19 yn nodi y dylai'r gyfradd ddisgownt ddeillio o arenillion bondiau corfforaethol gradd AA. Ar 31 Mawrth 2014, roedd arenillion mynegai AA 15+ iBOXX Sterling Corporates yn 4.3%. Fodd bynnag, nid yw'r cyfnod cyfartalog ar gyfer casglu bondiau o fewn mynegai iBOXX yn ddigon hir i gyfateb i gyfnod rhwymedigaethau'r cynllun, ac roedd y gromlin arenillion ar 31 Mawrth ar i fyny ychydig am gyfnodau hwy. Felly, mae'r rheolwyr wedi penderfynu bod cyfradd ddisgownt o 4.6% yn briodol (2013: 4.5%). Pennwyd y dybiaeth o ran chwyddiant ar ôl ystyried y gwahaniaeth rhwng yr arenillion sydd ar gael ar fondiau llywodraeth llog sefydlog a chysylltiedig â mynegai yn ogystal â ffynonellau eraill rhagamcanu rhyddiant. Ar 31 Mawrth 2014, mae'r rheolwyr o'r farn bod 3.4% yn dybiaeth briodol o ran chwyddiant (2013: 3.2%). Defnyddiwyd cyfradd o 2.3% ar gyfer chwyddiant cyflogau, gan adlewyrchu rhagamcanion RPI-J a gwerth codiadau cyflog cynyddrannol camu ymlaen mewn gyrfa. Adolygwyd y dyfarniadau hyn gan PwC a ddaeth i'r casgliad eu bod o fewn ystod dderbyniol. Ystyriodd y Pwyllgor eu haddasrwydd yn ofalus cyn dod i'r casgliad eu bod yn dderbyniol, at ddibenion y cyfrifon. Nodwyd, ar sail actiwaraid, fod y cynllun pensiwn mewn gwargled.

Gwariant adnewyddu seilwaith

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefel gwariant adnewyddu seilwaith Dŵr Cymru wedi cynyddu ac mae'r rheolwyr wedi cynnal adolygiad o wariant er mwyn nodi unrhyw gynlluniau sy'n cyflawni mwy nag atgyweirio ased er mwyn iddo barhau i weithio am weddill ei oes. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar nodi cynlluniau a arweiniodd at asedau wedi'u huwchraddio, oes ddefnyddiol hwy, gwell effeithlonrwydd gweithredol, mwy o gryfder a/neu gapasiti. Daeth y Pwyllgor Archwilio i'r un casgliad â'r rheolwyr sef y dylai £22m, o gyfanswm o £94m o wariant a ddosbarthwyd yn IRE at ddibenion rheoleiddio, gael ei ddosbarthu'n briodol yn ychwanegiadau cyfalaf yn y datganiadau ariannol statudol a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (2013: £23m).

Cronni incwm mesuryddion

Mae system filio Dŵr Cymru yn cynhyrchu amcangyfrif o'r incwm sy'n ddyledus gan gwsmeriaid â mesuryddion ar gyfer y cyfnod rhwng eu darlleniad mesurydd diwethaf a dyddiad y fantolen. Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar ddefnydd dros y 12 mis diwethaf ac fe'i hadolygir gan reolwyr fel y sail ar gyfer pennu lefelau cronni incwm mesuryddion. Ar 31 Mawrth 2014, roedd yr amcangyfrif hwn yn £64.2m, sef gostyngiad o £1.7m o gymharu â 31 Mawrth 2013. Mae hyn o ganlyniad i leihad yn y nifer gyfartalog o ddiwrnodau a gronnir, a wrthbwsir yn rhannol gan dwf yn y sail cwsmeriaid â mesuryddion ac ychydig o gynnydd mewn defnydd. Ym marn y Pwyllgor Archwilio mae'r lefel hon o Groniad yn rhesymol.

Darpariaethau

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014, mae lefel y ddarpariaeth wedi gostwng £5.7m i £14.9m, yn bennaf yn dilyn y defnydd o'r ddarpariaeth ailstrwythuro (£3.9m) a setliad ac ailasesiad rhwymedigaethau sy'n weddill ar gyfer colledion heb eu hyswirio (£2.0m). Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu'r ddarpariaeth ar adeg cau ac o'r farn bod lefel y ddarpariaeth yn ddigonol.

Offerynnau ariannol deilliadol

Darperir gwerthoedd teg offerynnau ariannol deilliadol gan wrthbartion cyfnewid a chânt eu hadolygu gan y rheolwyr. Mae llwyfan set ddata ariannol Bloomberg yn galluogi rheolwyr i fynd ati'n annibynnol i brisio'r contractau hyn sydd wedyn yn cael ei gymharu â chadarnhad y gwrthbartion. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn fodlon na nodwyd unrhyw amrywiadau perthnasol; mae'r offerynnau wedi cael eu nodi yn y datganiadau ariannol fel y gwerthoedd a ddarparwyd gan y gwrthbleidiau. Roedd cyfanswm rhwymedigaeth y fantolen ar 31 Mawrth 2014 yn £265.0m (2013: £359.2m).

Cydnabod asedau sefydlog anniriaethol

Mae ychwanegiadau anniriaethol o £25.6m yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 yn cynnwys £14.2m mewn perthynas â disodli system filio Dŵr Cymru. Mae £2.5m arall yn ymwneud â gwariant ymchwil a datblygu. Mae'r rheolwyr wedi adolygu'r eitemau ac wedi dod i'r casgliad eu bod wedi cael eu cyfalafu'n briodol yn unol ag IAS 38. Yn ystod y cyfnod rheoleiddio nesaf mae Dŵr Cymru yn bwriadu cynyddu'n sylweddol ei fuddsoddiad mewn ymchwil a datblygu a bydd y rheolwyr yn ceisio gwella'r gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes ar gyfer cyfalafu asedau anniriaethol a'u monitro'n ariannol. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu a chymeradwyo'r lefel gyfalafu yn ystod y flwyddyn yn ogystal â'r camau y bwriedir eu cymryd yn y dyfodol er mwyn buddsoddi mwy yn y maes hwn.

Gweithgareddau eraill y Pwyllgor Archwilio

Yn ystod 2013-14, canolbwyntiodd dau o'r pedwar cyfarfod yn benodol ar adolygu canlyniadau ariannol rhagarweiniol ac interim y Grŵp ynghyd â meysydd cysylltiedig dyfarniadau a pholisi cyfrifyddu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn dibynnu'n fawr ar y rôl weithredol a chwaraeir gan y swyddogaeth Sicrwydd Busnes (Archwilio Mewnol) o fewn y Grŵp. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo cynllun blynyddol manwl Sicrwydd Busnes, ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd wrth gyflawni'r rhaglen archwilio mewnol. Mae'r Pwyllgor yn achub ar y cyfle hwn i herio asesiad y rheolwyr o risgiau ariannol a busnes allweddol a'r strategaethau lliniaru a roddwyd ar waith i ymdrin â hwy. Rhoddir adborth manwl ar drafodaethau'r Pwyllgor Archwilio yn ystod ei gyfarfodydd yng Nghyfarfodydd y Bwrdd, a chaiff pob Cyfarwyddwr gopïau o'r Cofnodion.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael adroddiad manwl ymhob cyfarfod ar unrhyw ddatgeliadau ers y cyfarfod blaenorol a wnaed o dan bolisi chwythu'r chwiban y Bwrdd, ac mae'n monitro ymchwiliadau a gwaith dilynol a wneir o ganlyniad i unrhyw ddatgeliad chwythu'r chwiban. Yn ystod 2013-14, canolbwyntiwyd yn arbennig ar ganlyniad yr ymchwiliad chwythu'r chwiban i weithgareddau cyflogai a fu'n gwerthu cyfarpar a gafwyd drwy brosesau caffael y Grŵp ar eBay er ei fudd ei hun. Mae'r cyflogai hwnnw wedi cael ei ddiswyddo bellach ac wedi pledio'n euog i ladradd mewn achos troseddol cysylltiedig dilynol. Yn sgil problemau o ran y broses a ddilynwyd gan yr unigolyn hwn ar faterion adrodd rheoliadol mae Dŵr Cymru wedi ailbennu ei ffigurau ar gyfer "Amharu ar Gyflenwadau" a nodwyd ar gyfer 2011-12 a 2012-13 ynghyd â thrawsnewid y dull o fesur adroddiadau rheoliadol ar draws y busnes.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael adroddiadau rheolaidd gan y Rheolwr Cydymffurfio ar yr ymchwiliad, a oedd yn cynnwys dadansoddiad achos sylfaenol o'r ffactorau a wnaeth alluogi'r cyflogai i ddwyn a materion adrodd rheoliadol, a monitro cynlluniau gweithredu a roddwyd ar waith i ymdrin â'r materion a nodwyd. Hefyd cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'n ymwneud â'r ymchwiliad ymhob cyfarfod, a chafodd yr Aelodau drosolwg o'r sefyllfa yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a chyfarfod Aelodau mis Rhagfyr.

Ymhlith y pynciau eraill a adolygir gan y Pwyllgor yn ystod 2014/15 mae:

- adolygu'r rheolaethau a'r prosesau a roddir ar waith i ymdrin â materion rheoli risg ar draws y busnes;
- adolygu prosesau adrodd y cwmni ar gyfer Adnodd Cymhelliant Gwasanaeth Ofwat;
- materion diogelwch gwybodaeth;
- cynnwys adroddiadau chwarterol i fuddsoddwyr Glas Cymru;
- polisi a rheolaethau'r trysorlys, gan gynnwys adolygiad manwl o sbardunau statws banciau yn sgil statws credyd dirywiol ar gyfer rhai o fanciau'r cwmni a wnaeth dorri trothwyon statws gofynnol ar gyfer cyfleusterau hylifedd.

Hefyd, mae'r Pwyllgor wedi cael diweddariadau rheolaidd ar y broses o weithredu'r system filio newydd, y disgwylir iddi gael ei chwblhau yn ystod Hydref 2014.

Ar hyn o bryd darperir gwasanaethau archwilio allanol gan PricewaterhouseCoopers LLP. Ein polisi yw na chaiff yr archwilydd allanol eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol, ac y bydd unrhyw waith nad yw'n ymwneud ag archwilio sydd uwchlaw trothwy o £25,000 fel rheol yn destun proses dendro gystadleuol flaenorol a chymeradwyaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Dangosir y ffigurau ar gyfer

ffioedd gwaith archwilio a gwaith arall a dalwyd i PricewaterhouseCoopers LLP yn ystod y flwyddyn 2013-14 ar dudalen 99 o'r adran Datganiadau Ariannol.

Eleni, roedd £101,000 (tua thraean o'r holl ffioedd a enillwyd gan yr archwilydd) yn ymwneud â gwaith nad oedd yn waith archwilio. Codwyd y ffioedd hyn yn sgil gwaith a wnaed mewn perthynas â chyflwyno Cynllun Busnes AMP6 y Cwmni i Ofwat a hefyd gynnal adolygiad llywodraethu o Brosiect Newid, sef datblygu a gweithredu'r system filio newydd.

Yn achos y gwaith i gefnogi PR14 a'r adolygiad o Brosiect Newid, dim ond ar ôl cynnal asesiad llawn a thrylwyr o'r achos gwerth dros ddefnyddio'r archwilydd a'r sgiliau a'r profiad y gallai'r archwilydd eu cyfrannu at bob aseiniad er budd gorau'r Cwmni y gofynnwyd i'r archwilydd gyflawni'r gwaith hwn. Ymhob achos, ymgynghorodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio â mi cyn gofyn iddynt wneud hynny.

Rôl y gwasanaeth archwilio mewnol/sicrwydd busnes yw rhoi sicrwydd a chynghori'r rheolwyr a Phwyllgor y Bwrdd ar y graddau y mae systemau rheolaeth fewnol a threfniadau rheoli risg yn briodol ac yn gweithredu'n effeithiol. Hefyd, caiff y Pwyllgor Archwilio gyngor annibynnol a sicrwydd gan Adroddwr Dŵr Cymru (Black & Veatch) mewn perthynas â materion adrodd rheoliadol.

Mae cynlluniau archwilio ar gyfer y gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol yn canolbwyntio ar y meysydd hynny y nodwyd y gallent beri'r risg fwyaf i'r busnes. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cymeradwyo'r cynlluniau archwilio mewnol ac allanol ar gyfer 2014-15 ac mae wedi cyfarfod yn breifat (heb i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fod yn bresennol) â'r archwilydd allanol a'r Pennaeth Sicrwydd Busnes fel rhan o adolygiad blynnyddol o annibyniaeth archwilio.

Yn seiliedig ar y gwaith hwn, a chyfarfodydd rheolaidd â'r rheolwyr, rydym wedi dod i'r casgliad bod y gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Er mwyn sicrhau bod gennym Bwyllgor Archwilio effeithiol, bob blwyddyn cynhaliwn adolygiad sy'n cynnig y cyfle i wella'n barhaus. Ym mis Mawrth 2014, cynhaliwyd adolygiad pwyllgor mewnol gan ddefnyddio adnodd arolwg electronig a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Annibynnol; adolygwyd canlyniad y gwerthusiad gan y Cadeirydd ac fe'i cyflwynwyd i'r pwyllgor yng nghyfarfod mis Mai 2014. Ar y cyfan, roedd y canlyniadau'n gadarnhaol iawn a nodwyd rhai syniadau ar gyfer gwella ymhellach systemau adrodd risg a rôl yr archwilydd allanol. Lluniwyd cynllun gweithredu er mwyn ymdrin â'r pwyntiau hyn dros y misoedd i ddod.

Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd

Aelodau: Stephen Palmer (Cadeirydd), Robert Ayling³, John Bryant, Graham Edwards⁴, Chris Jones, Peter Perry, Ian Christie (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr), Steve Wilson (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr Gwastraff), Tony Harrington (Cyfarwyddwr yr Amgylchedd), Steve Brown (Cynghorydd Annibynnol), Andrew Davies (Cynghorydd Annibynnol).

Rôl y PAA yw cynghori'r Bwrdd ar unrhyw fater sy'n ymwneud â pholisi ac arfer gweithredol mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd a chydymffurfiaeth â rheoliadau a safonau dŵr yfed ac amgylcheddol, ynghyd â materion iechyd a diogelwch galwedigaethol.

³ Ar wahân i 1 Mai – 31 Hydref 2013, pan fu Robert Ayling yn absennol o'r Bwrdd ond parhaodd fel Cyfarwyddwr.

⁴ O fis Hydref 2013.

Ymhob cyfarfod o'r Pwyllgor ceir hefyd unigolion sy'n mynychu'n rheolaidd o'r busnes ehangach sydd ag amrywiaeth o gyfrifoldebau gweithredol. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn cael budd o ddau gynghorydd annibynnol. Yn 2013-14, y rhain oedd Andrew Davies, a wnaeth gynghori ar faterion ansawdd dŵr, a Steve Brown a wnaeth gynghori ar faterion amgylcheddol.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod ar safleoedd amrywiol ar draws ardal gyflenwi'r cwmni. Yn 2013-14, roedd y safleoedd hyn yn cynnwys Caerdydd, Llyn Alaw, Baglan, Deganwy, Felindre a Llanelli.

Yn 2014, newidiwyd strwythur cyfarfodydd. Bellach, cynhelir wyth cyfarfod y flwyddyn a rennir yn gyfartal rhwng monitro perfformiad a strategaeth. Mae'r pwyllgor yn adolygu perfformiad y cwmni yn fanwl yn erbyn dangosyddion allweddol ansawdd dŵr, perfformiad amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, ac mae'n monitro cynnydd yn erbyn strategaethau allweddol sy'n anelu at amddiffyn iechyd y cyhoedd, diogelu'r amgylchedd, sicrhau bod ein cyflogaion a'n contractwyr yn ddiogel a darparu gwasanaeth effeithlon i'n cwsmeriaid.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu canfyddiadau ymchwiliadau i unrhyw fethiant o ran ansawdd dŵr, yr amgylchedd neu wasanaeth cwsmeriaid (ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gael adroddiad penodol gan y Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer achosion y mae'r Pwyllgor o'r farn eu bod yn ddifrifol), ac mae'n parhau i oruchwylio'r rhaglenni rheoli risg a'r archwiliadau mewnol ac allanol. Cynhaliwyd adolygiad digwyddiad difrifol mewn perthynas â charthffos yn gorlifo yn Nhreorci. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar sicrhau'r canlynol:

- bod trefniadau rheoli risg yn addas at y diben er mwyn nodi risgiau allweddol yn brydlon a'u rheoli'n briodol;
- gwelliant parhaus systemau a phrosesau a sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol;

- monitro swyddogaeth barhaus systemau a phrosesau a goruchwylio'r rheolwyr yn briodol; caiff gwersi priodol eu dysgu o fethiannau mewn perfformiad;
- bod strategaethau a gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol a rheoliadol.

Cyfeirir yn fanwl at welliant nodedig mewn perfformiad yn ystod 2013-14 mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Blynnyddol hwn. Fodd bynnag, roedd y pynciau a gwmpaswyd gan y Pwyllgor yn 2013-14 yn cynnwys:

- ansawdd dŵr
- cronfeydd dŵr gwasanaeth
- gwasanaeth cwsmeriaid
- gollyngiadau
- gorlifo
- materion iechyd a diogelwch
- achosion o lygredd
- cynnydd ar berfformiad amgylcheddol ac ystyried effaith datblygiadau tebygol yn y dyfodol
- arloesedd a strategaeth

Mae'r themâu parhaus y mae'r Pwyllgor wedi'u hystyried wrth adolygu'r agweddau hyn ar y busnes yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys pwyslais ar y canlynol:

- manteision cymryd camau systemataidd i nodi achosion sylfaenol digwyddiadau a methiant i gydymffurfio;
- pwysigrwydd gwyddoniaeth ac arloesedd wrth wella ein prosesau a'n systemau a manteision mentrau meincnodi a dadansoddi data;
- meithrin ymddiriedaeth â rheoleiddwyr y cwmni;
- cyfleu rôl y cwmni a'r strategaeth gyfathrebu gyfan;
- gwerth gweithio ar ragamcanu a nodi meysydd newydd sy'n peri risg. Drwy nodi meysydd risg penodol ar draws y busnes bydd modd blaengynllunio er mwyn ymdrin â'r meysydd hyn;

- llunio strategaethau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'n dyletswyddau statudol a'n gofynion rheoliadol.

// Mae'r data ar berfformiad ansawdd dŵr ac ansawdd amgylcheddol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn ar gyfer blwyddyn galendr 2013. Rhoddir gwybodaeth arall am berfformiad (fel mesurau gwasanaeth cwsmeriaid a pherfformiad yn erbyn safonau gwasanaeth CC Ofwat) ar gyfer blwyddyn adrodd reoleiddiol 1 Ebrill 2013-31 Mawrth 2014.

Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Disgrifir aelodaeth a rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn Adroddiad Cydnabyddiaeth 2014 ar dudalen 79. Mae hyn yn cynnwys crynodeb o'r materion allweddol a drafodwyd gan y Pwyllgor y flwyddyn ddiwethaf a'r polisi a'r trefniadau cydnabyddiaeth a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar gyfer 2014-15.

Rheolaeth fewnol

Y Bwrdd sy'n bennaf cyfrifol am weithrediad ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol a rheoli risg y grŵp. Bwriedir i'r system rheolaethau reoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, ac mae'n cynnwys polisiâu a gweithdrefnau archwiledig sy'n anelu at nodi a rheoli'r risgiau mwyaf sylweddol a wynebier gan y busnes.

Yn ystod 2013, adolygodd y Bwrdd y dull o ymdrin â risg er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag arfer gorau. Mae adolygiad manwl o risg ar gael ar dudalen 19.

Wrth ystyried y broses o ddatblygu'r system rheolaethau, adolygodd y tîm rheoli berthnasedd a chost a budd perthynol pob risg sylweddol a nodwyd. Mae'r systemau rheolaeth fewnol wedi'u cynllunio i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn camddatganiadau neu gollod.

Mae elfennau allweddol ein system yn nodweddiadol ar gyfer busnes o'n maint a'n cymhlethdod ni. Yn eu plith mae'r canlynol:

- ystyried paramedrau risg derbyniol a bennwyd gan y Bwrdd, yn enwedig yng nghyd-destun y broses cynllunio busnes at ddibenion yr adolygiad pris cyfredol;
- nodi'r risgiau a'r peryglon allweddol a gaiff eu mesur a'u rheoli i lefel dderbyniol, ynghyd â'r cyfle i adolygu materion cyfredol a materion sy'n dod i'r amlwg yng nghyfarfodydd y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd;
- atebolrwydd rheoli clir ar gyfer rheoli risg, a gefnogir gan adroddiadau risg rheolaidd i'r Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd a'r Pwyllgor Archwilio;
- rheolaethau sy'n cydnabod bod natur a chydbwysedd risg yn newid ac yn esblygu;
- gweithdrefnau sy'n llywodraethu'r broses o gymeradwyo a rheoli prif eitemau o wariant cyfalaf, caffael a gwaredu asedau perthnasol, ac ymrwymiad i unrhyw drefniant sy'n arwain at rwymedigaeth berthnasol neu a allai arwain at hynny;
- systemau a gweithdrefnau ariannol ar gyfer paratoi cyfrifon cyfunol.

Caiff y Bwrdd sicrwydd drwy waith annibynnol gan Adroddwr Dŵr Cymru (Black & Veatch) a'r rhaglen archwilio mewnol ac ansawdd, a chaiff y prif ganfyddiadau sy'n deillio o hynny eu hadolygu yn y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd. Ystyrir diweddariad risg strategol ymhob cyfarfod o'r Bwrdd ac ystyrir adolygiad strategol o risg ddwywaith y flwyddyn o dan broses a gadeirir gan y Prif Weithredwr, lle diweddarir barn Bwrdd y Cyfarwyddwyr Gweithredol ynghylch y risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r busnes.

Mae'r broses o adolygu effeithiolrwydd rheolaeth fewnol yn cynnwys trafod â rheolwyr faterion risg sylweddol ac adolygu cynlluniau archwilio mewnol ac allanol a'r canlyniadau. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno canlyniadau ei adolygiad i'r Bwrdd sydd wedyn yn llunio ei gasgliad cyfunol ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Bwrdd yn ystyried adroddiadau cyfnodol gan y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd a'r rheolwyr, ac mae'n dibynnu ar ei waith monitro rheolaidd o ddangosyddion perfformiad allweddol ac adroddiadau misol perfformiad ariannol a gweithredol. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol drwy gydol y flwyddyn.

Fel rhan o'r gwaith a wneir i adolygu ei reolaethau mewnol yn flynyddol, mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried effeithiolrwydd ei system rheolaethau mewnol o ran sut maent wedi gweithredu mewn perthynas â'r heriau penodol a wynebir gan y cwmni yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol. Ar gyfer 2013-14, nododd y Bwrdd fod y prosesau rheolaeth fewnol wedi nodi'n gywir y prif risgiau a wynebwyd gan y busnes ac wedi bod yn fodd i'w rheoli.

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

Mae'n bleser cyflwyno adroddiad 2014 gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd ("y Pwyllgor") sy'n rhoi manylion y gydnabyddiaeth a dalwyd i Gyfarwyddwyr yn y flwyddyn ariannol 2013-14 a'n Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer 2014-15.

Nod ein Polisi Cydnabyddiaeth yw cysoni cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol â'r broses o weithredu strategaeth y Cwmni er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'n cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd. Mae'n dangos yn glir sut mae cydnabyddiaeth yn gysylltiedig â pherfformiad yn flynyddol a thros y cyfnod rheoleiddio pum mlynedd a ddaw i ben ym mis Mawrth 2015 ('cyfnod AMP5'). AMP5 yw'r mwyaf heriol ers preifateiddio, gyda chynnydd mewn prisiau ar gyfer cwsmeriaid Dŵr Cymru yn cael ei gadw islaw cyfradd chwyddiant ymhob blwyddyn o'r cyfnod. Er mwyn cyflawni hyn, mae Dŵr Cymru wedi gorfod lleihau costau gweithredu rheoladwy tua 20% tra'n gwella perfformiad gwasanaeth cwsmeriaid, cyflawni targedau gwasanaethed heriol a chyflawni rhaglen buddsoddi cyfalaf gwerth £1.5 biliwn. Ar y cyfan, mae perfformiad gwasanaeth wedi gwella dros gyfnod AMP5 hyd yn hyn, yn unol â'n hamcanion. Mae sefyllfa ariannol y Cwmni wedi cryfhau ymhellach a fydd yn ei gwneud yn bosibl i wella gwerth cwsmeriaid yn fwy yn y dyfodol. Cred y Pwyllgor fod y mesurau perfformiad ar gyfer cyflog cyfnewidiol - sy'n cwmpasu Cerdyn Sgorio Perfformiad y Cwmni (sy'n cynnwys amrywiaeth o fesurau allweddol yn cwmpasu ansawdd dŵr yfed, glanweithdra, diogelu'r amgylchedd rhag llygredd a gwasanaeth cwsmeriaid), lleihau cost gweithredu, mesur Adnodd Cymhelliant Gwasanaeth Ofwat ('SIM') (mesur a ddefnyddir gan y diwydiant cyfan ar gyfer gwasanaeth a boddhad cwsmeriaid cyffredinol) a'r twf mewn ecwiti cwsmeriaid (h.y. cronfeydd ariannol wrth gefn yn werth cyfalaf rheoleiddiol llai dyled net) oll yn helpu i gyflawni'r targedau strategol hyn.

Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad o drefniadau cydnabyddiaeth yn 2010-11 ac yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol (CCB) 2011 mabwysiadodd Bolisi a gynlluniwyd i fod yn briodol ar gyfer cyfnod AMP5. Bob blwyddyn wedi hynny mae'r Pwyllgor wedi ystyried p'un a yw'r polisi cyffredinol yn dal i fod yn briodol. Mae'r Polisi a gafodd ei gymeradwyo yn 2011 wedi'i gymhwyso ymhob ffordd berthnasol ers hynny a chaiff ei gymhwyso ar gyfer 2014-15 mewn ffordd nad yw, yn ei hanfod, wedi newid o'r Polisi a ddisgrifiwyd yn Adroddiad Cydnabyddiaeth 2013 ('trefniadau cydnabyddiaeth AMP5').

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cwmni wedi dechrau ystyried y trefniadau ar gyfer y cyfnod rheoleiddio pum mlynedd a fydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2020. Er nad oes modd pennu'r trefniadau terfynol nes ar ôl y Penderfyniad Terfynol bydd y broses o dalu unrhyw gyflog cyfnewidiol yn parhau i gael ei chysoni â'n strategaeth, gan ganolbwyntio ar dair elfen cwsmeriaid, cost a chydymffurfiaeth.

Pwyntiau allweddol mewn perthynas â chydabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2015

- Cynyddwyd cyflogau'r Gyfarwyddwyr Gweithredol 2% ym mis Ebrill 2014, sy'n cyfateb i'r dyfarniad cyflog cyffredinol o 2% a roddwyd i staff.
- O dan y Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Blyneddol ("AVPS") mae'r cwantwm (fel canran o gyflog) y gellir ei ennill yn 2014-15 yn parhau i fod yn 100% o gyflog. Rydym wedi gwneud rhai mân newidiadau i'r derminoleg sy'n disgrifio'r targedau i'w cysoni â chategorïau Cynllun Busnes Cwsmeriaid, Cost a Chydymffurfiaeth, er enghraifft bellach cyfeirir at OPEX fel Cost.

- O dan y Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Hirdymor ('LTVPS') mae'r cwantwm y gellir ei ennill yn 2014-15 ar gyfer yr elfen gwasanaeth cwsmeriaid yn ddigyfnewid sef 30% o gyflog. Mae'r taliad terfynol fesul cam ar gyfer yr elfen ecwiti cwsmeriaid yn 2013-14 i fyny i 50% o gyflog llai unrhyw daliadau interim y gall fod angen eu hadfachu. Ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Cynllun ar gyfer y flwyddyn olaf hon o AMP5.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn fodlon, er bod y trefniadau cydnabyddiaeth yn cynnwys elfennau cyfnewidiol sy'n gysylltiedig â pherfformiad, nad yw'r Polisi yn annog cymryd risg ddiangen sy'n amhriddol yn sgil proffil risg y Cwmni, ac mae'n sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth yn cynyddu ac yn gostwng yn dibynnu ar berfformiad. Mae'r ffaith bod elfennau cyfnewidiol cyflog wedi'u cynnwys hefyd yn sicrhau bod y Polisi yn ddigon cystadleuol i ddenu a chadw staff o ansawdd uchel.

Cydnabyddiaeth a dalwyd mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

- Cyflog sylfaenol (a gynyddwyd 2% ym mis Ebrill 2013).
- O dan AVPS 2013-14 gwnaed dyfarniadau yn gyfatebol i 23.2 pwynt canran (%) o gyflog sylfaenol ar gyfer perfformiad yn erbyn y Cerdyn Sgorio Perfformiad, 21.9% ar gyfer perfformiad cost weithredu a rhwng 4.75% ac 8.5% yn erbyn amcanion Strategol a Phersonol, gan wneud cyfanswm dyfarnu o 49.9% i 53.6% o gyflog sylfaenol. Mae hyn o gymharu ag uchafswm o 100% o gyflog sylfaenol a dyfarniadau o 60.6 – 63.6% o gyflog ar gyfer perfformiad yn 2012-13.


- O dan Gynllun Cyflog Cyfnewidiol Hirdymor ('LTVPS') 2010, gellir gwneud dyfarniadau fesul cam o dan elfen ecwiti cwsmeriaid y cynllun (gweler tudalen 74). Dros oes y cynllun hyd yn hyn, gwnaed dyfarniad fesul cam o 10% o gyflog mewn perthynas â pherfformiad yn 2010-11, gwnaed 20% o gyflog mewn perthynas â 2011-12, gwnaed 30% o gyflog mewn perthynas â 2012-13 a, gan adlewyrchu perfformiad ariannol yn 2013-14, gwnaed taliad o 40% o gyflog. Ar sail dros dro, roedd Dŵr Cymru yn y 3ydd safle yn nhabl cyngrhair SIM Ofwat ar gyfer 2013-14 a fyddai'n arwain at ddyfarnu 15% o gyflog o dan y Dyfarniad Gwasanaeth Cwsmeriaid a gyfrifir ar sail cyfartaledd tair blynedd treigl (gweler tudalen 74).
- Rhoddodd Nigel Annett y gorau i'w ddyletswyddau ffurfiol fel Rheolwr Gyfarwyddwr ar 1 Medi 2013 ac ar ôl cyfnod trosglwyddo â'r Prif Weithredwr newydd, gadawodd y Cwmni ar 31 Mawrth 2014. Dechreuodd dderbyn ei bensiwn budd diffiniedig a thaliadau a gronnwyd o fewn trefniadau'r Cynllun Buddiannau Ymdeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFBRs) o 1 Ebrill 2014.
- Bydd Nigel yn derbyn ei ddyfarniad AVP cronedig ar gyfer blwyddyn perfformiad lawn 2013/2014. Yn CCB 2013 cymeradwywyd penderfyniad gan Aelodau i wneud taliad iddo a oedd yn adlewyrchu'r buddiannau a gronnwyd ganddo o dan yr LTVPS ar 31 Mawrth 2014. Mae'r taliad hwn yn adlewyrchu cyfraniad hirdymor Nigel Annett at y busnes ac ystyrir ei fod yn deg ar sail y ffaith y bydd wedi cwblhau'r cyfnod perfformiad pro rata ar gyfer y taliad fesul cam hwn ar gyfer 2014-15. Ni fydd yn derbyn unrhyw daliadau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.
- Cafodd Chris Jones ei ddyrchafu o Gyfarwyddwr Cyllid i Brif Weithredwr o 1 Medi 2013.

- Cafodd Peter Perry ei ddyrchafu o Gyfarwyddwr Gweithrediadau i Brif Swyddog Gweithredu o 1 Medi 2013.
- Gwnaed cyhoeddiad ar 14 Mawrth 2014 y bydd Peter Bridgewater yn ymuno â Byrddau Dŵr Cymru a Glas Cymru Cyfyngedig fel y Gyfarwyddwr Cyllid newydd. Disgwylir iddo ymuno erbyn 1 Medi 2014 fan bellaf ar gyflog o £229,500 y flwyddyn gyda phecyn cydnabyddiaeth yn unol â'n polisi ar gyfer penodiadau newydd fel yr amlinellir ar dudalen 72.

Rhoddir rhagor o fanylion am swyddogaethau ein Polisi Cydnabyddiaeth a sut mae'n cael ei weithredu'n ymarferol yn y Polisi a'r Adroddiadau Gweithredu sy'n dilyn.

Cyflwynodd Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau'r Llywodraeth reoliadau newydd yn llywodraethu datgeliadau cyflog ar gyfer cwmnïau sydd wedi'u dyfynnu yn y DU ar 10 Hydref 2013. Rydym wedi llunio Adroddiad Cydnabyddiaeth eleni mewn ffordd sy'n cydymffurfio lle bo'n briodol â'r rheoliadau newydd.

Roeddem yn falch i Adroddiad Cydnabyddiaeth 2012-13 gael ei gymeradwyo yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ('CCB') 2013. Cyflwynir dau benderfyniad ar wahân yn cymeradwyo'r Adroddiad Polisi a'r Adroddiad Blynnyddol ar Gydabyddiaeth i Aelodau yn CCB 2014.



James Strachan
Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
12 Mehefin 2014

Mae'r Adroddiad Cydnabyddiaeth hwn wedi'i baratoi yn unol â darpariaethau atodlen 8 i Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Adroddiadau a Chyfrifon) (Diwygio) 2008 (fel y'u diwygiwyd) ac mae'n cydymffurfio'n llawn â darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ('y Cod Llywodraethu').

Adroddiad Polisi

Polisi Cydnabyddiaeth

Caiff egwyddorion a fframwaith y Polisi Cydnabyddiaeth presennol eu cymeradwyo gan Aelodau yn y CCB ar 4 Gorffennaf 2014 ac os y'i cydnabyddir felly daw i rym o ddyddiad y CCB. Nod y Polisi yw cysoni cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol â'r broses o weithredu strategaeth y Cwmni er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'n cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd. Mae'n dangos yn glir sut mae cydnabyddiaeth yn gysylltiedig â pherfformiad yn flynyddol a thros y cyfnod rheoleiddio pum mlynedd a ddaw i ben ym mis Mawrth 2015 ('cyfnod AMP5'). Cyflawnir hyn drwy dalu cydnabyddiaeth ar lefelau sy'n ddigon cystadleuol i recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel tra'n sicrhau bod y pecynnau cydnabyddiaeth wedi'u strwythuro mewn ffordd nad yw'n annog cymryd risg amhriodol.

Cyflawnir y Polisi drwy:

- Bennu lefelau cyflog sylfaenol a chyfanswm cydnabyddiaeth sydd (pan gânt eu hasesu'n gyfnodol yn erbyn meincnodau'r farchnad) yn cael eu hystyried yn deg ac yn gystadleuol ar ôl ystyried profiad a chyfrifoldeb unigolyn.
- Annog gwell perfformiad drwy sicrhau bod cyfran sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth ar gael drwy gyflog cyfnewidiol – er bod y rhan fwyaf o'r pecyn targed yn gyflog sylfaenol er mwyn sicrhau na chaiff Cyfarwyddwyr Gweithredol eu hannog i gymryd risg amhriodol.
- Sicrhau bod cymhellion yn canolbwyntio ar berfformiad perthynol Dŵr Cymru – yn seiliedig ar wybodaeth a gyhoeddir gan Ofwat, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr – a thrwy hynny hyrwyddo'r amcan o gynhyrchu perfformiad sy'n arwain y farchnad mewn ffordd dryloyw ac atebol.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn fodlon bod y Polisi Cydnabyddiaeth yn cynnwys elfennau cyfnewidiol sy'n gysylltiedig â pherfformiad, nad yw'r Polisi yn annog cymryd risg sy'n amhriodol yn sgil proffil risg y Cwmni, a'i fod yn sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth yn cynyddu ac yn gostwng yn dibynnu ar berfformiad. Mae'r ffaith y cynhwysir elfennau cyfnewidiol cyflog hefyd yn sicrhau bod y Polisi yn ddigon cystadleuol i ddenu a chadw staff o ansawdd da. Mae hyn, yn ei dro, yn sicrhau ei fod yn gyson â llwyddiant hirdymor Dŵr Cymru a buddiannau ei gwsmeriaid.

Wrth lunio'r Polisi Cydnabyddiaeth a'i weithredu, mae'r Pwyllgor yn ystyried trefniadau cydnabyddiaeth ar draws y busnes cyfan ac mae'n ystyried effaith y Polisi yn sgil materion cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethu ehangach. Mae'r Cwmni yn ymgynghori â staff drwy un trefniant tabl â'r undebau llafur cydnabyddedig er mwyn negodi cyflogau'r gweithlu ehangach. Mae'r Pwyllgor yn ystyried y cynnydd cytûn ar gyfer y sail cyflogaion ehangach ac mae hefyd yn adolygu arferion ac amodau'r farchnad. Dylid hefyd nodi bod yr un Cerdyn Sgorio Perfformiad a ddefnyddir yn AVPS y Cyfarwyddwyr Gweithredol, ac elfen cost weithredu debyg, yn cael eu cymhwyso mewn trefniadau cyflog cyfnewidiol ar draws y sefydliad, gan hyrwyddo diwylliant busnes unedig a chysondeb yn ein hasesiad o berfformiad.

Y prif wahaniaeth ym mhecyn cydnabyddiaeth uwch gyfarwyddwyr gweithredol yw'r cyfranogiad o fewn yr LTVPS. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar berfformiad strategol ac ariannol hirdymor Dŵr Cymru, ac fe'i cedwir ar gyfer yr uwch gyfarwyddwyr gweithredol hynny sydd mewn sefyllfa i ddylanwadu ar berfformiad o'r fath.

Mae'r Pwyllgor yn ymgysylltu ag Aelodau (drwy gyfarfodydd rheolaidd â hwy) a rhanddeiliaid eraill ac mae'n gwerthfawrogi eu mewnbwn yn y gwaith o lunio Polisi Cydnabyddiaeth Dŵr Cymru.

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb o'r elfennau sy'n rhan o becynnau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol yn unol â Pholisi Cydnabyddiaeth Dŵr Cymru.

	Diben a chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
Cyflog sylfaenol	— Helpu i recriwtio, cadw a chymell cyflogeion o'r radd flaenaf.	Adolygiad blynyddol fel rheol o 1 Ebrill, sy'n adlewyrchu: — Rôl, profiad a pherfformiad — Amodau economaidd ehangach — Codiadau a ddyfarnwyd ar draws gweddill y gweithlu ehangach — Cyfanswm cyllidebau cyflog sefydliadol — Rhoi cyfrif cyfnodol am lefelau mewn cyfleustodau eraill a'r farchnad ehangach.	— Codiadau blynyddol fel arfer yn gysylltiedig â rhai'r gweithlu ehangach er bod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cadw'r hawl i ddyfarnu codiadau i unigolion uwchlaw'r lefel hon lle bo'n briodol. — Cyflogau cyfredol wedi'u datgelu yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydabyddiaeth.	Dim
Buddiannau	— Darparu pecyn buddiannau cystadleuol o fewn y farchnad er mwyn helpu i recriwtio a chadw cyflogeion — Buddiannau gofâl iechyd yn hyrwyddo parhad busnes.	— Caiff Cyfarwyddwyr yswiriant iechyd preifat, ac yswiriant iechyd a bywyd parhaol — Ni chaiff Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd yswiriant iechyd parhaol — Ni chaiff Cyfarwyddwyr geir cwmni na lwfans ceir — Gellir cynnig buddiannau eraill fel treuliau adeoli neu lwfansau teithio/llety lle bo'n briodol.	— Gwerth buddiannau yn seiliedig ar y gost i'r Cwmni ac nis pennir ymlaen llaw.	Dim
Pensiwn	— Helpu i recriwtio a chadw cyflogeion o'r radd flaenaf — Darpariaeth cynllunio ôl-ymddeol arwahanol.	— Mae'r Cwmni yn gweithredu cynllun pensiwn budd diffiniedig — Lle byddai cyfraniadau uwchlaw'r terfynau cyfraniad gydol oes neu flynyddol gwneir darpariaeth ar ffurf EFRBS nas ariennir. — Oedran ymddeol arferol yn 60 oed — Caiff Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd eu cofrestru'n awtomatig yng Nghynllun Pensiwn Personol Grŵp DCWW gyda'r cyfle i eithrio a chael lwfans arian parod sy'n cyfateb i gyfraniad cyffredinol y Cyflogwr.	— Hyd at 1/45ain o groniad cyflog am bob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy yn amodol ar uchafswm o ddwy ran o dair o gyflog pensiynadwy terfynol — Uchafswm cyfraniad cyflogwr i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp DCWW o 11% ar yr amod bod y cyflogai yn cyfrannu 6% neu fwy.	Dim
AVPS	— Cymell cyflawni targedau pellgyrhaeddol bob blwyddyn a chyflawni amcanion personol.	— Targedau AVPS yn cael eu hadolygu bob blwyddyn gan y Pwyllgor — Targedau a gynlluniwyd i fod yn berthnasol i rannau o'r busnes y mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu rheoli'n arbennig — Alldro yn cael ei bennu gan y Pwyllgor ar ôl diwedd y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn targedau — Telir fel arian parod — Ddim yn bensiynadwy — Darpariaethau adfachu yn gymwys.	— Uchafswm AVP posibl o 100% o gyflog, ar gyfer bodloni amodau perfformiad pellgyrhaeddol.	— Bydd mesurau yn gyson â themâu Cynllun Busnes Cwsmeriaid, Cydymffurfiaeth a Chost gyda thargedau Strategol a Phersonol ychwanegol — Gweler tudalen 74.
LTVPS	— Cysoni buddiannau hirdymor y Cyfarwyddwyr Gweithredol â rhai cwsmeriaid a rhanddeiliaid Dŵr Cymru — Cymell cyflawni creu gwerth yn yr hirdymor — Cefnogi cyfraddau cadw.	— LTVPS 2010 wedi'i gymeradwyo gan Aelodau — Dyfarniadau arian parod yn seiliedig ar dargedau perfformiad pellgyrhaeddol yn ymwneud â: — Perfformiad SIM perthynol tair blynedd treigl — Perfformiad ecwiti cwsmeriaid dros y cyfnod rheoleiddio pum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2015 — Darpariaethau adfachu yn gymwys.	— 300% o gyflog dros y cyfnod rheoleiddio pum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2015.	— 50% yn seiliedig ar berfformiad SIM perthynol — 50% yn seiliedig ar berfformiad ecwiti cwsmeriaid — Gweler tudalen 75.
Cyfarwyddwyr Anweithredol	— Darparu lefel briodol o ffi sefydlog i recriwtio a chadw unigolion ag ystod eang o brofiad a sgiliau i helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau.	— Mae'r Pwyllgor yn pennu'r ffi i'w thalu i Gadeirydd y Bwrdd ac, ar wahân, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Gadeirydd yn cymeradwyo'r lefel ffioedd sy'n daladwy i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.	— Ni chaiff y Cyfarwyddwyr Anweithredol unrhyw ffioedd ychwanegol am gadeirio pwyllgorau.	Dim
Penodiadau newydd	— Caiff lefelau cyflog sylfaenol eu pennu i adlewyrchu profiad yr unigolyn, data marchnad priodol a pherthnasedd mewnol. Os ystyrir ei bod yn briodol penodi Cyfarwyddwr Gweithredol newydd ar gyflog islaw'r farchnad, gall fod yn destun cyfres o godiadau i'r lefel cyflog ddymunol dros gyfnod o amser priodol yn dibynnu ar berfformiad yn y swydd. Bydd hyn yn gymwys i benodiadau mewnol ac allanol. — Y polisi fydd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol newydd gymryd rhan yn y strwythur cydnabyddiaeth fel y nodir uchod. Gallai eithriadau i hyn gynnwys pennu mesurau gwahanol neu weithredu trefniadau trosiannol os bydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymuno ran o'r ffordd drwy'r cyfnod rheoleiddio 5 mlynedd. — Os bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth wedi ystyried bod angen prynu cyflog cymhellant y byddai unigolyn yn ei golli wrth dael ei gyflogwr presennol, byddai iawndal o'r fath, lle bo modd, yn cael ei strwythuro fel bod telerau'r achos o brynu adlewyrchu ffurf a strwythur y gdnabyddiaeth a ddiosodlir.	— Mae'r Pwyllgor yn pennu'r ffi i'w thalu i Gadeirydd y Bwrdd ac, ar wahân, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Gadeirydd yn cymeradwyo'r lefel ffioedd sy'n daladwy i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.	— Ni chaiff y Cyfarwyddwyr Anweithredol unrhyw ffioedd ychwanegol am gadeirio pwyllgorau.	Dim
Polisi taliadau i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n ymadael	— Mae gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol gcontractau gwasanaeth sy'n destun cyfnod rhybudd o 12 mis ac nad ydynt yn darparu iawndal os bydd y Cwmni yn eu terfynu'n gynnar. Yn ôl disgrisiwn y Cwmni, gellir talu cyflog sylfaenol yn unig i Gyfarwyddwr Gweithredol yn lle cyfnod o rybudd. Caiff cryn liniaru ei gynnwys yn y contract ar gyfer unrhyw achos lle gallai'r Cwmni ddewis gwneud taliad yn lle cyfnod o rybudd. — Os bydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn gadael yn sgîl diswyddo ac nad oes angen iddo weithio ei gyfnod rhybudd, caiff Dâl Diswyddo Statudol yn ogystal â 12 mis o gyflog yn lle cyfnod o rybudd a chyflog yn lle gwylau a gronwyd ond nas cymerwyd. Telir unrhyw ddyfarniadau Cyflog Cyfnewidiol Blynyddol neu Gyflog Cyfnewidiol Hirdymor a gronwyd yn unol â phriod reolau'r cynllun. — Os bydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymddiswyddo, bydd disgwyl iddo weithio ei gyfnod rhybudd oni chytunir ar drefniant amgen fel absenoldeb garddio neu gyfnod llai o rybudd. Caiff y Cyfarwyddwr Gweithredol unrhyw ddyfarniadau Cyflog Cyfnewidiol Blynyddol neu Gyflog Cyfnewidiol Hirdymor yn unol â phriod reolau'r cynllun. — Os bydd y Cwmni yn terfynu cyflogaeth Cyfarwyddwr Gweithredol, bydd y Cwmni yn cymryd cyngor cyfreithiol ac ond yn talu'r swm y mae hawl gyfreithiol gan y Cyfarwyddwr Gweithredol iddo. Bydd rheolau cynllun Cyflog Cyfnewidiol Blynyddol a Hirdymor mewn perthynas ag ymadawyr yn gymwys.	— Mae'r Pwyllgor yn pennu'r ffi i'w thalu i Gadeirydd y Bwrdd ac, ar wahân, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Gadeirydd yn cymeradwyo'r lefel ffioedd sy'n daladwy i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.	— Ni chaiff y Cyfarwyddwyr Anweithredol unrhyw ffioedd ychwanegol am gadeirio pwyllgorau.	Dim

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, wrth gymeradwyo polisi Cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr, awdurdodir y Cwmni i anrhydeddu unrhyw ymrwymadau â Chyfarwyddwyr presennol neu flaenorol a ddatgelwyd mewn adroddiadau cydnabyddiaeth blaenorol. Caiff manylion unrhyw daliadau a wnaed i gyn Gyfarwyddwyr eu nodi yn yr Adroddiad Blynnyddol ar Gydabyddiaeth wrth iddynt godi fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Cydnabyddiaeth.

Disgresiwn y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu'r Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Blynnyddol a'r Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Hirdymor yn unol â rheolau pob priod Gynllun ac yn ôl arferion arferol y farchnad, gan gynnwys hyblygrwydd mewn sawl ystyr. Ymhlith y ffyrdd y bydd y Pwyllgor yn cynnal hyblygrwydd mae:

- Pryd i wneud dyfarniadau a thaliadau
- Sut i bennu maint dyfarniad, taliad, neu pryd y dylid breinio dyfarniad a faint
- Sut i ddelio â newid rheolaeth neu ailstrwythuro'r Grŵp
- P'un a yw cyfarwyddwr yn ymadaur da/drwg at ddibenion cynllun cymhelliant a ph'un a yw dyfarniadau yn breinio ar adeg ymadael neu ar y dyddiad(au) breinio gwreiddiol a pha gyfran ohonynt
- Beth ddylai'r pwysoliad, mesurau a thargedau fod ar gyfer y Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Blynnyddol a'r Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Hirdymor o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cadw'r hawl, o fewn y polisi, i addasu targedau a/ neu bennu mesurau gwahanol a newid pwysoliadau ar gyfer y Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Blynnyddol ac addasu targedau ar gyfer y Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Hirdymor os bydd achos sy'n gwneud iddo bennu na all yr amodau gyflawni eu diben bwriadedig gwreiddiol.

Contractau Gwasanaeth

Caiff y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol eu penodi o dan lythyrau penodi y gall y naill barti neu'r llall eu terfynu gyda thri mis o rybudd ysgrifenedig.


Roedd dyddiadau llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol fel a ganlyn:

Bob Ayling	3 Ebrill 2008
John Bryant	5 Mawrth 2001
James Strachan	1 Mehefin 2007
Stephen Palmer	26 Hydref 2009
Menna Richards	22 Tachwedd 2010
Anna Walker	3 Mawrth 2011
John Warren	3 Mai 2012
Graham Edwards	1 Hydref 2013

Sefyllfaedd Perfformiad

Mae'r Pwyllgor yn anelu at ddarparu cyfran briodol o gyfanswm cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol drwy gyflog cyfnewidiol sy'n gysylltiedig â pherfformiad a dengys Ffigur 1 ddadansoddiad o werth elfennau amrywiol o'r pecyn cydnabyddiaeth, gan dybio y cyflawnir trothwyon, targedau a lefelau perfformiad uchaf. Nod y Pwyllgor yw darparu, ar lefel darged o berfformiad, i tua 60% o gyfanswm y pecyn cydnabyddiaeth fod yn sefydlog a thua 40% i fod yn gyfnewidiol:

Ffigur 1 – Elfennau Pecyn Cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol



Gwnaed y tybiaethau canlynol wrth baratoi'r siartiau hyn:

- 1 Cyflog sefydlog yn unig – cyflog sefydlog yn unig heb unrhyw freinio o dan yr AVPS neu'r LTVPS. Mae cyflog sylfaenol yn cynnwys cyflog ar 1 Ebrill 2014, gwerth buddiannau a phensiwn a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14 fel y datgelwyd yn y tabl ar dudalen 76.
- 2 Cyfanswm targed – cyflog sefydlog yn ogystal ag AVPS o 50% o'r uchafswm (h.y. 50% o gyflog), ac LTVPS o 50% o'r uchafswm pum mlynedd o 300% o gyflog blynnyddol dros bum mlynedd (h.y. 30% o gyflog ar sail flynyddol).
- 3 Uchafswm cyfanswm – cyflog sefydlog yn ogystal ag uchafswm AVPS ac uchafswm LTVPS o 300% o gyflog ar sail flynyddol (h.y. 60% o gyflog).

Polisi ar benodiadau allanol

Mae'r Bwrdd yn cydnabod budd profiad eang a all ddeillio o gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn gweithgareddau allanol. Mae unrhyw benodiad yn destun cymeradwyaeth flynyddol gan y Pwyllgor ac, yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor, caiff Cyfarwyddwyr gadw unrhyw ffioedd.

ADRODDIAD BLYNYDDOL
AR GYDNABYDDIAETH

1 Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer
Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn
mwy o fanylder

Cyflog

Yn dilyn adolygiad ym mis Mawrth 2014 mae'r Pwyllgor wedi pennu cyflogau sylfaenol Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer 2014-15 (yn weithredol 1 Ebrill 2014) fel yr isod. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd staff cyfartalog o 2%. Mae'r Cwmni yn ymgynghori â staff drwy drefniant tabl unigol ag undebau llafur GMB, UNSAIN ac UNITE. Yn ystod negodiadau dyfarniad cyflog cyffredinol 2014 â staff, cafodd manylion cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol o fewn Dŵr Cymru a'r Diwydiant Dŵr yn gyffredinol eu hadolygu (Ffigur 2).

Yn ystod y flwyddyn arweiniodd adolygiad o'r ffioedd a delir i Gyfarwyddwyr Anweithredol at gynyddu ffioedd tua 1.75%. Roedd data meincnodi a ddarparwyd yn annibynnol gan New Bridge Street ('NBS') yn adlewyrchu bod y ffi newydd yn unol â lefelau canol y farchnad yn gyffredinol.

Mae'r ffioedd a dalwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2014 fel a ganlyn:

Cadeirydd	£212,000	(2013: £208,000)
Uwch		
Gyfarwyddwr		
Annibynnol	£68,700	(2013: £67,500)
Cyfarwyddwr		
Anweithredol	£58,000	(2013: £57,000)


Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Blynnyddol ('AVPS') — Nid yw'r uchafswm cyflog cyfnewidiol y gall Cyfarwyddwyr Gweithredol ei ennill o dan yr AVPS yn 2014-15 wedi newid ac mae'n cyfateb i 100% o gyflog sylfaenol. Caiff ennill cyflog cyfnewidiol ei asesu a draws tair elfen, fel y dangosir yn Ffigur 3. Ni ddatgelwyd targedau penodol ar gyfer 2014-15 oherwydd ystyrir eu bod yn fasnachol sensitif ond cânt eu datgelu'r flwyddyn nesaf.

Ffigur 2	Yn weithredol 1 Ebrill 2013	Yn weithredol 1 Medi 2013 ¹	Yn weithredol 1 Ebrill 2014 ²
Chris Jones	£226,495	£270,000	£275,400
Peter Perry	£215,467	£225,000	£229,500
Peter Bridgewater	dd/g	dd/g	£229,500

1 Cafodd cyflogau eu hadolygu yng nghanol y flwyddyn ym mis Medi 2013 ar ôl i Nigel Annett sefyll i lawr fel cyfarwyddwr ar 1 Medi 2013 a dyrchafiadau dilynol Christopher Jones i Brif Weithredwr a Peter Perry i Brif Swyddog Gweithredu.

2 Disgwylir i Peter Bridgewater ddechrau ar 1 Medi 2014.

Ffigur 3 – Strwythur Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Blynnyddol



Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Hirdymor 2010

('LTVPS') — Nod yr LTVPS yw cysoni'r agweddau tymor hwy ar gyfanswm cydnabyddiaeth â pherfformiad y Cwmni dros y cyfnod rheoleiddio pum mlynedd sy'n dod i ben 31 Mawrth 2015. Mae'r dyfarniadau yn cynnwys taliad arian parod. O dan yr LTVPS gellir gwneud dau fath o ddyfarniad arian parod:

— Dyfarniad Ecwiti Cwsmeriaid, a fesurir drwy greu ecwiti cwsmeriaid dros y cyfnod rheoleiddio. Cronfeydd ariannol wrth gefn y grŵp yw ecwiti cwsmeriaid, h.y. gwerth cyfalaf rheoleiddiol llai dyled net (fel y diffiniwyd at ddibenion yr Adroddiad Buddsoddwyr chwarterol);

— Dyfarniad Gwasanaeth Cwsmeriaid, a fesurir yn ôl gradd gyfartalog y Cwmni yn nhabl cynghrair Ofwat ar gyfer SIM dros y tair blynedd diwethaf. Felly, caiff y Dyfarniad Gwasanaeth Cwsmeriaid ei lywio gan berfformiad y Cwmni o'i gymharu â chwmnïau eraill yn y sector ac mae'n ei wobrwyo.

Mae targedau perfformiad LTVPS yn adlewyrchu uchelgais y Bwrdd i sicrhau bod Dŵr Cymru ochr yn ochr â'r prif gwmnïau yn y diwydiant o ran mesurau allweddol gwasanaeth cwsmeriaid ac effeithlonrwydd ariannol hirdymor er budd cwsmeriaid. Defnyddir SIM ar gyfer y Dyfarniad Gwasanaeth Cwsmeriaid ac mae'n cynnwys dau fesur o wasanaeth cwsmeriaid. Mae un yn fesur ansoddol sy'n adlewyrchu canlyniadau ymchwil annibynnol a gynhaliwyd ar ran Ofwat er mwyn nodi boddhad cwsmeriaid â'r gwasanaeth a gafwyd, ac mae'r llall yn fesur meintiol sy'n cwmpasu cwynion gan gwsmeriaid a galwadau digroeso. Disgrifir y targedau perfformiad o dan bob dyfarniad LTVPS yn fanylach yn Ffigur 4.

Dangosir y cyfnod y pennir perfformiad a'r dyddiadau talu posibl dros y cyfnod rheoleiddio hyd at 31 Mawrth 2015 yn Ffigur diagramaidd 5.

Amlinellir manylion y taliadau a wnaed i Gyfarwyddwyr Gweithredol o dan LTVPS ar gyfer 2013-14 yn Ffigur 6, 'Taliadau a wnaed i Gyfarwyddwyr', ar dudalen 76.

Penodiadau allanol

Penodwyd Nigel Annett yn Gyfarwyddwr Anweithredol o Gymdeithas Adeiladu'r Principality ar 21 Hydref 2013, a chafodd ei dalu £27,943 mewn perthynas â'r rôl honno hyd at 31 Mawrth 2014.

Ffigur 4	Gwasanaeth Cwsmeriaid	Ecwiti Cwsmeriaid ^{1,4}
Mesur perfformiad	Mesurir drwy gyfeirio at fesur SIM Ofwat.	Ecwiti cwsmeriaid gwirioneddol ar 31 Mawrth 2015 (diwedd cyfnod AMP5) o gymharu â'r gyllideb.
Rhesymeg mesurau dethol	Mesur SIM Ofwat ar gyfer profiad defnyddwyr sy'n annibynnol, yn wrthrychol ac yn fesuradwy, ac sy'n ei gwneud yn bosibl i gymharu perfformiad perthynol yn erbyn cwmnïau dŵr eraill.	Dyma'r mesur ariannol cryfaf o werth budd cwsmeriaid yn y busnes.
Cyfnod perfformiad	Tair Blwyddyn Ariannol yn union cyn y Flwyddyn Ariannol lle gwneir dyfarniad.	1 Ebrill 2010-31 Mawrth 2015
Targed perfformiad ^{2,3}	0 blith y 10 o gwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn y DU: — 100% o'r dyfarniad yn daladwy am gyrraedd y safle cyntaf — 75% o'r dyfarniad yn daladwy am gyrraedd yr ail safle — 50% o'r dyfarniad yn daladwy am gyrraedd y trydydd safle — 25% o'r dyfarniad yn daladwy am gyrraedd y pedwerydd safle — 0% o'r dyfarniad yn daladwy am fod yn y pumed safle neu is.	— 100% o'r dyfarniad yn daladwy am gyflawni ecwiti cwsmeriaid ar 31 Mawrth 2015 o £100m uwchlaw targed cynllun busnes 2010. — 0% o'r dyfarniad yn daladwy am gyflawni targed cynllun busnes 2010 neu fethu â'i gyflawni — Cyfrifiad pro rata llinell syth rhwng y targed cynllun busnes a £100m uwchlaw'r targed hwn.


1. Gall y targed ecwiti cwsmeriaid gael ei ddiwygio o dan rai amgylchiadau yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor. Ymhlith yr amgylchiadau hyn mae (i) lle ceir gwahaniaethau rhwng chwyddiant gwirioneddol a'r tybiaethau a wnaed yn wreiddiol; (ii) roedd y Bwrdd wedi newid polisi perthnasol ar ôl i'r rhagmcan gwreiddiol gael ei wneud (e.e. gwaredu ecwiti cwsmeriaid drwy fuddsoddiad ychwanegol er mwyn sicrhau mwy o fudd i gwsmeriaid); a (iii) mae dylanwad perthnasol ar gronfeydd ariannol wrth gefn nas rhagwelwyd yn wreiddiol ac y mae'r Pwyllgor o'r farn ei fod y tu hwnt i reolaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol.

2. Gellir gohirio taliad yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor os bydd perfformiad yn dirywio'n sylweddol. Gellir gwneud hyn am hyd at ddwy flynedd, neu nes i'r lleihad gael ei ddatrys, p'un bynnag sy'n dod gyntaf.

3. Wrth bennu lefel unrhyw ddyfarniad fesul cam neu ddyfarniad terfynol, bydd y Pwyllgor yn ystyried gradd bondiau'r grŵp ac, yn ôl ei ddisgrisiwn, gall ohirio rhan o ddyfarniad neu'r dyfarniad cyfan os yw bondiau'r grŵp yn destun proses monitro statws credyd neu eu bod wedi'u hisraddio.

4. Mewn amgylchiadau lle mae'r Pwyllgor yn gwneud taliad interim neu daliad fesul cam yn erbyn y targed ecwiti cwsmeriaid ond bod y ffigur ecwiti cwsmeriaid terfynol ar ddiwedd y cyfnod perfformiad pum mlynedd yn llai na swm y taliad neu'r taliadau interim, yna cysonir taliadau o'r fath (neu cânt eu 'hunioni') fel bod unrhyw symiau dros ben yn cael eu hadfachu gan gyfranogwyr.

Ffigur 5



2 Yr hyn a dalwyd yn 2013-14 a'r cysylltiad rhwng cyflog a pherfformiad Taliadau a wnaed i Gyfarwyddwyr yn 2013-14

Mae Ffigur 6 yn amlinellu cyflogau Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013.

Pennu canlyniad AVPS 2013-14

Yn seiliedig ar berfformiad cyffredinol yn erbyn y cerdyn sgorio, cafodd 58% o'r uchafswm ei ddaryn (23.2% o gyflog yn erbyn targed o 24% o gyflog).

Roedd perfformiad ariannol yn 2013-14 yn seiliedig ar effeithlonrwydd cost weithredu. Yn seiliedig ar lefel perfformiad

Dŵr Cymru, dyfarnwyd 54.75% o'r uchafswm (21.9% o gyflog yn erbyn targed o 25% o gyflog).

Yn seiliedig ar ystyriaeth y Pwyllgor o berfformiad yn erbyn pob un o amcanion strategol a phersonol y Cyfarwyddwyr Gweithredol cafodd 23.75%-42.5% o'r uchafswm ei ddaryn (4.75%-8.5% o gyflog yn erbyn targed o 20% o gyflog). Ymhlith yr amcanion roedd mesur cyfunol o ran canrhwydd yn gorlifo o'r cerdyn sgorio, boddhad cwsmeriaid, gwell ymgysylltu â chyfoegion, cynyddu cyfraddau adrodd digwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd a digwyddiadau peryglus yn y gadwyn gyflenwi, cyflwyno gweithrediadau Darbodus a phrosesau

cynnal a chadw ar nifer o safleoedd, targedau casglu arian parod ac ymgysylltu â chwsmeriaid yn llwyddiannus ar gynigion PR14.

Pennu canlyniad LTVPS 2013-14

Ar gyfer elfen Gwasanaeth Cwsmeriaid y cynllun, cafodd Dŵr Cymru ei roi yn y trydydd safle ar gyfer SIM ar sail dros dro mewn perthynas â gradd SIM cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill dros y cyfnod perfformiad tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2014. O ganlyniad, byddai dyfarniad o 15% yn daladwy. Yr uchafswm posibl yw 30% o gyflog (fel yr atodlen freinio a nodir yn Ffigur 5 ar dudalen 75). Fodd bynnag, nid yw'r sgorau SIM terfynol ar gyfer 2013-14 wedi'u cyhoeddi eto ac mae posiblwydd y

Ffigur 6 – Taliadau a buddiannau a wnaed i Gyfarwyddwyr yn 2013-14

Cyfarwyddwyr	Cyflog		Ffioedd		BIK ³		AVP ⁴		Pensiwn		LTVPS ⁵		Cyfanswm Cyflogau	
(FY)	2012/13	2013/14	2012/13	2013/14	2012/13	2013/14	2012/13	2013/14	2012/13	2013/14	2012/13	2013/14	2012/13 ⁶	2013/14 ^{1,2}
RA	-	-	204,000	121,331	-	-	-	-	-	-	-	-	204,000	121,331
NA	281,622	287,254	-	-	905	905	170,663	143,196	52,633	120,544	84,487	114,902	590,310	666,801
CJ	222,054	251,873	-	-	905	905	134,565	128,707	48,686	93,329	66,616	100,749	472,826	575,563
PP	211,242	221,028	-	-	905	905	134,350	118,471	10,766	66,668	63,373	88,411	420,636	495,483
JB	-	-	66,300	137,750	-	-	-	-	-	-	-	-	66,300	137,750
AH*	-	-	15,060	-	-	-	-	-	-	-	-	-	15,060	-
SP	-	-	56,000	57,000	-	-	-	-	-	-	-	-	56,000	57,000
JS	-	-	56,000	57,000	-	-	-	-	-	-	-	-	56,000	57,000
MR	-	-	56,000	62,250	-	-	-	-	-	-	-	-	56,000	62,250
AW	-	-	56,000	57,000	-	-	-	-	-	-	-	-	56,000	57,000
JW*	-	-	51,190	57,000	-	-	-	-	-	-	-	-	51,190	57,000
GE*	-	-	-	28,500	-	-	-	-	-	-	-	-	-	28,500
Cyfanswm	714,918	760,155	560,550	577,831	2,715	2,715	439,578	390,374	112,085	280,541	214,476	304,062	2,044,322	2,315,678

a Fel y nodwyd yn Adroddiad Cydnabyddiaeth 2013.

Mae'r wybodaeth yn y tabl uchod wedi'i harchwilio gan PwC.

1. Newid cyfarwyddwyr: penodwyd Graham Edwards yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar 1 Hydref 2013. Penodwyd John Warren yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar 4 Mai 2012. Ymddeolodd Tony Hobson yn dilyn y CCB ar 6 Gorffennaf 2012 (* yn dynodi ffioedd pro rata). Gadawodd Nigel Annett y Bwrdd ar 1 Medi 2013 ond parhaodd â'i gyflogaeth nes iddo ymddeol ar 31 Mawrth 2014 er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i Chris Jones a ddychafwyd yn Brif Weithredwr ar 1 Medi 2013. Dangosir ffigurau blwyddyn ariannol lawn yn y tabl ar gyfer Nigel Annett. Dychafwyd Peter Perry yn Brif Swyddog Gweithredu ar 1 Medi 2013.

2. Dechreuodd John Bryant gyflawni rôl Cadeirydd am gyfnod o chwe mis o 1 Mai 2013 wrth i Robert Ayling sefyll i lawr dros dro. Dechreuodd Menna Richards gyflawni rôl Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol o 1 Mai 2013 tra roedd John Bryant yn Gadeirydd dros dro.

3. Mae buddiannau mewn da yn peryglu yswiriant iechyd preifat.

4. Gweler Pennu Canlyniad AVP ar dudalen 76.

5. Gweler Pennu Canlyniad LTVPS ar dudalen 76.

6. Y cyfarwyddwyr y talwyd fwyaf iddo yn 2013-14 oedd Nigel Annett a gafodd gyflog o £666,801 (2013: Nigel Annett, £590,310).

7. Data pensiwn yn seiliedig ar gynnydd gwirioneddol yn y gwerth cyfalafedig - wedi'i gynyddu yn ôl ffigurau MPD y mis Medi blaenorol a oedd yn 5.2% ac yn 2.2% yn y drefn honno.

gallai gradd Dŵr Cymru ar gyfer 2013-14 newid. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r sefyllfa hon ac yn disgrifio unrhyw ganlyniadau gwahanol yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Ar gyfer elfen ecwiti cwsmeriaid y cynllun wedi'i mesur rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2015, gwnaed taliad fesul cam ar yr uchafswm o 40% o gyflog. Roedd yn seiliedig ar benderfyniad y Pwyllgor bod ecwiti cwsmeriaid ar 31 Mawrth 2014 o £1,648 biliwn uwchlaw rhagamcanion ar gyfer bodloni'r £100 miliwn gofynnol uwchlaw targed cynllun busnes 2010 ar gyfer breinio llawn dros oes y cynllun.

Mae hyn yn golygu bod swm y taliadau fesul cam i 100% ar gyfer pedair blynedd AMP5.

Buddiannau pensiwn

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2013-31 Mawrth 2014, roedd Nigel Annett, Chris Jones a Peter Perry oll yn aelodau o Gynllun Pensiwn DCWW ('y Cynllun'), sy'n drefniant budd diffiniedig.

Mae buddiannau'n cronni ar sail 1/45ain o Gyflog Pensiynadwy Terfynol fesul blwyddyn o Wasanaeth Pensiynadwy (heblaw am Peter Perry sy'n cronni 1/60ain o Gyflog Pensiynadwy Terfynol fesul blwyddyn o Wasanaeth Pensiynadwy), yn amodol ar uchafswm pensiwn cyffredinol ar oedran ymddeol arferol o ddwy ran o dair o Gyflog Pensiynadwy Terfynol. Mae'r Cynllun hefyd yn darparu yswiriant bywyd sydd bedair gwaith Cyflog Pensiynadwy am farw yn ystod gwasanaeth, pensiwn sy'n daladwy os bydd rhaid ymddeol

oherwydd salwch a phensiwn priod sy'n daladwy pan fydd aelod yn marw. Caiff Cyfarwyddwyr Gweithredol fudd yswiriant iechyd preifat ac yswiriant iechyd parhaol. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn Aelodau Lwfans Gydol Oes a/neu Lwfans Blynnyddol wedi'i Gapio o'r Cynllun a lle bydd eu buddiannau o'r Cynllun uwchlaw terfynau CthEM, darperir buddiannau ychwanegol drwy Gynllun Budd Ymddeol wedi'i Ariannu Cyflogwyr (EFRBS). Ni chaiff rhwymedigaethau'r Cwmni o dan yr EFRBS eu hariannu, ond mae rhwymedigaethau o'r fath yn gyfystyr â rhwymedigaethau'r Cwmni, sy'n daladwy pan fyddant yn ddyledus.

Dangosir y buddiannau pensiwn a enillwyd gan y Cyfarwyddwyr yn y Cynllun yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod sydd wedi'i archwilio:

Ffigur 7 – Dangosir buddiannau pensiwn y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn y Cynllun yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod:

	Oedran Ymddeol Arferol	Pensiynau Cronedig ar 31 Mawrth 2012 ¹	Gwerth cyfalafedig pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2012	Pensiynau Cronedig ar 31 Mawrth 2013 ¹	Gwerth cyfalafedig pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2013	Cyfraniadau aelodau a dalwyd yn ystod y flwyddyn 2013	Swm Mewnbwn Pensiwn net cyfraniadau aelodau ² 2013	Pensiynau Cronedig ar 31 Mawrth 2014 ¹	Gwerth cyfalafedig pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2014	Cyfraniadau aelodau a dalwyd yn ystod y flwyddyn 2014	Swm Mewnbwn Pensiwn net cyfraniadau aelodau ² 2014
NA	60	£129,943	£2,598,860	£140,599	£2,811,980	£25,346	£52,633	£151,012	£3,020,240	£25,853	£120,544
CJ	60	£84,663	£1,693,260	£92,499	£1,849,980	£19,985	£48,686	£100,220	£2,004,400	£20,385	£93,329
PP	60	£109,060	£2,181,200	£116,220	£2,324,400	£19,012	£10,766	£123,080	£2,461,600	£19,392	£66,668

Mae'r wybodaeth yn y tabl uchod wedi'i harchwilio gan PwC.

Nodiadau:

- Yn unol â rheoliadau adrodd newydd, cyfrifir y buddiannau pensiwn ar sail gyson â "Dull Lwfans Blynnyddol" CThEM ar gyfer pennu gwerth trethadwy pensiynau budd diffiniedig. Mae hyn yn wahanol i flynyddoedd blaenorol ac, o ganlyniad, mae gwerthoedd y pensiynau cronedig ar 31 Mawrth 2012 a 31 Mawrth 2013 wedi'u hailddatgan.
- Mae symiau mewnbwn pensiwn net cyfraniadau aelodau yn cynrychioli'r cynnydd addasu ar gyfer chwyddiant yng ngwerth cyfalafedig pensiynau cronedig yn ystod y flwyddyn llai'r cyfraniad arian parod a wneir gan yr aelodau. Pennir yr addasiad ar gyfer chwyddiant drwy gyfeirio at CPI yn y mis Medi blaenorol; 2.2% ym mis Medi 2012 a 5.2% ym mis Medi 2013. Caiff y gwahaniaeth yn chwyddiant MPD effaith sylweddol ar y prisiad.

Cymharu cyflog a pherfformiad cyffredinol


Mae Ffigurau 8 a 9, ynghyd â'r tabl isod, yn dangos sut mae ein polisi cyflog yn cymharu â pherfformiad ac mae'n cymharu cyfanswm cyflog ein Prif Weithredwr â thwf mewn ecwiti cwsmeriaid o flwyddyn i flwyddyn (h.y. mae cronfeydd ariannol wrth gefn yn werth cyfalaf rheoleiddiol llai dyled net) dros y pum mlynedd flaenorol.

Pwysigrwydd perthynol gwariant ar gyflog

Mae'n bwysig bod y Pwyllgor yn ystyried cost cydnabyddiaeth mewn perthynas â ffactorau eraill fel perfformiad y cwmni. Mae Ffigur 10 yn nodi'r newid mewn cyfanswm gwariant, cyfanswm costau cydnabyddiaeth cyflogaion ac ecwiti cwsmeriaid yn 2014 o gymharu â 2013.

Cynyddodd costau cydnabyddiaeth cyflogaion 17% oherwydd nifer o ffactorau yn cynnwys trosglwyddo nifer o rolau i mewn i'r cwmni a chafodd rolau newydd a nodwyd yn wasanaethau mwy dan gontract eu gwneud yn fewnol yn 2013-14, yn enwedig yn y maes Gwasanaethau Gwybodaeth Busnes. Ymhlith ffactorau eraill roedd costau cofrestru awto pensiwn a dyfarniad cyflog o 3% ym mis Ebrill 2013.

Ffigur 8 – Ecwiti Cwsmeriaid dros bum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2013



Ffigur 9

	2010	2011	2012	2013	2014
Cyfanswm cydnabyddiaeth ar gyfer y Prif Weithredwr (NA)	£390,320	£665,965	£677,770	£590,310	£666,801
Cyfanswm cydnabyddiaeth ar gyfer y Prif Weithredwr (CJ)	n/a	n/a	n/a	n/a	£575,563
Cyflog Cyfnewidiol (fel % o'r uchafswm posibl ymhob blwyddyn)					
Dyfarniad AVPS (NA)	38.2%	76.3%	77.6%	60.6%	49.9%
Dyfarniad AVPS (CJ)	n/a	n/a	n/a	n/a	51.1%
Cymhellion Hirdymor (LTVPS for AMP5)	19.5%	25.0%	40.0%	50.0%	70.0%

Noder:

- 1. Ar gyfer 2014 darparwyd ffigurau blwyddyn ariannol lawn ar gyfer Nigel Annett a Chris Jones ac nid ydynt yn ymwneud â'r cyfnod fel Prif Weithredwr yn unig.
- 2. Ailgyfrifwyd cyfanswm y ffigurau cydnabyddiaeth ar gyfer Nigel Annett ac fe'u hailbennwyd o 2010 ymlaen, gan ystyried y rheoliadau adrodd newydd ar gyfer cyfrifo buddiannau pensiwn fel y'u disgrifiwyd uchod yn yr adran Buddiannau Pensiwn ar dudalen 76. Yn 2010, roedd y ffigur pensiwn yn negyddol, felly cafodd gwerth £0 ei gynnwys yn y ffigur cydnabyddiaeth. Chwyddiant uchel a dim cynnydd cyflog oedd y ffactorau a wnaeth gyfrannu at y budd pensiwn negyddol. Mae'r fethodoleg newydd yn sensitif iawn i chwyddiant.
- 3. Dengys canran LTVPS % yr uchafswm posibl yn hytrach na % y cyflog a dyfarnwyd.

Ffigur 10 – Pwysigrwydd perthynol gwariant ar gyflog

	2014 £m	2013 £m	£m	Newid %
Cyfanswm gwariant ¹	790.7	773.4	17.3	2%
Costau cydnabyddiaeth cyflogaion	118.9	101.5	17.4	17%
Ecwiti cwsmeriaid ²	1,648	1,600	48.0	3%
Costau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol	1.7	1.5	0.2	14.0%

- 1. Gwariant gweithredol, gwariant cyfalaf a chostau ariannu.
- 2. Gwerth cyfalaf rheoleiddiol llai dyled net. Metrig ecwiti cwsmeriaid wedi'i gynnwys fod bod modd cymharu â chwmnïau y mae rhanddeiliaid yn berchen arnynt.

Ffigur 11 – Newid canrannol mewn cydnabyddiaeth PSG o gymharu â chyflogaion eraill

	Newid % Prif Weithredwr o 2012/13	Newid % cyflogaion o 2012/13
Cyflog	-3.5%	4.1%
Buddiannau	0%	0%
Cyflog Cyfnewidiol Blynnyddol	-24.6%	-1%

Noder:

- Mae cyflog y Prif Weithredwr yn gyfradd gyfunol sy'n defnyddio symiau pro rata ar gyfer Nigel Annett a Chris Jones.
- Newid % Cyflog Cyfnewidiol Blynnyddol yn cymharu dyfarniad presennol y Prif Weithredwr (Chris Jones) â dyfarniad blaenorol y Prif Weithredwr (Nigel Annett).
- Newid % cyflog cyflogaion yn cynnwys cynnydd a ddyfarnwyd ar gyfer dyfarniadau cyflog blynnyddol a chamu ymlaen mewn gyrfa.
- Ddim yn cynnwys is-gwmni oherwydd cyflogresi a gweinyddiaeth wahanol.

3 Sut y caiff cyflog ei bennu

Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Cadeirir y Pwyllgor gan James Strachan. Yn 2013-14, aelodau eraill y Pwyllgor oedd Robert Ayling, John Bryant, Anna Walker a John Warren. Ym marn y Bwrdd mae holl aelodau'r Pwyllgor yn annibynnol ac, yn achos Robert Ayling, ystyriwyd ei fod yn annibynnol pan gafodd ei benodi'n Gadeirydd y Cwmni. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor drwy wahoddiad (oni bai bod eu cydnabyddiaeth eu hunain yn cael ei thrafod) ac mae Ysgrifennydd y Cwmni yn gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn 2013-14.

Rôl y Pwyllgor yw cymeradwyo, gweithredu ac adolygu'n barhaus Bolisi Cydnabyddiaeth y Bwrdd ac yn benodol:

- cytuno ar y Polisi a'r fframwaith a'r contractau gwasanaeth ar gyfer cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r fframwaith cydnabyddiaeth ar gyfer rhai uwch reolwyr (Tîmau Arwain a Gweithredol Dŵr Cymru);
- pennu trefniadau cyflog cyfnewidiol sy'n annog ac yn cydnabod perfformiad da ac sy'n gwobrwyo unigolion mewn ffordd deg a chyfrifol am eu cyfraniad i lwyddiant y Cwmni.

Yn 2013-14, cafodd y Pwyllgor gyngor annibynnol gan New Bridge Street ('NBS'), enw masnach i Aon Hewitt Limited (un o gwmnïau Aon plc). Mae NBS yn un o lofnodwyr Cod Ymddygiad Remuneration Consultants Group a chaiff unrhyw gyngor a roddir ei lywodraethu gan y Cod. Darparodd NBS gyngor ar arfer gorau yn y farchnad wrth gynllunio trefniadau perfformiad cymhelliant, meincodi cydnabyddiaeth a ffioedd Cyfarwyddwyr a rhoddodd gyngor cyffredinol ar gydabyddiaeth i'r Pwyllgor. Yn ystod 2013-14 derbyniodd NBS ffioedd a oedd yn cyfateb i £41,923 mewn perthynas â chyngor a roddwyd i'r Pwyllgor ac ni roddodd unrhyw gyngor arall i'r Cwmni. Hefyd, ceisiodd y Pwyllgor gyngor a gwybodaeth gan Quantum Actuarial LLP (data pensiwn).

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau o ran y sefydliadau hyn yn cefnogi'r Pwyllgor a'r Cwmni i wneud penderfyniadau.

Yn ystod 2013-14, roedd gweithgareddau'r Pwyllgor yn cynnwys:

- cymeradwyo Adroddiad Cydnabyddiaeth 2013;
- asesu perfformiad yn erbyn amodau atodedig AVPS ac LTVPS 2013-14 a chytuno ar ddyfarniadau i'w gwneud i gyfranogwyr;
- adolygu cyflogau ac AVPS ar gyfer y tîmau arwain a gweithredol ehangach;
- cynnal adolygiad o strwythur y cynllun cymhelliant wrth ymbaratoi ar gyfer AMP6;
- ystyried tueddiadau ac arfer gorau cydnabyddiaeth a phensiynau;
- pennu cyflog y Cyfarwyddwyr Gweithredol a ffi'r Cadeirydd ar gyfer 2014-15;
- pennu cyfanswm y gydabyddiaeth ar gyfer Rheolwr Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Cyllid DCCS Ltd.

Yn CCB y llynedd, pleidleisiodd yr Aelodau o blaid Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Dylai'r Adroddiad hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol (tudalen 55) ac Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, sydd gyda'i gilydd yn gyfystyr ag Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Mae Glas Cymru Cyfyngedig (Rhif y Cwmni 03975719) yn gwmni cyfyngedig drwy warant sy'n gorfforedig yng Nghymru a Lloegr. Ein swyddfa gofrestredig yw Heol Pentwyn, Nelson, CF46 6LY.

Ym marn y Cyfarwyddwyr, mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, gyda'i gilydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a rhydd y wybodaeth sydd ei hangen ar ranndeiliaid i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y cwmni. Er mwyn cyrraedd y sefyllfa hon, cafodd y Bwrdd ei gynorthwyo yn y ffyrdd canlynol:

- Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei ddrafftio gan uwch reolwyr a chafodd y broses gyffredinol o'i gydgyssylltu ei goruchwyllo gan Ysgrifennydd y Cwmni a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu er mwyn sicrhau cysondeb.
- Adolygwyd fersiynau drafft gan Aelodau o'r tîm Gweithredol a chynhaliwyd proses ddilysu yn cynnwys yr Adroddwr ac archwilyr y cwmni.
- Adolygwyd y fersiwn drafft terfynol gan y Pwyllgor Archwilio cyn i'r Bwrdd ei adolygu a'i gymeradwyo, ac fe'i cyflwynwyd i'r Aelodau i'w gymeradwyo.

Mae'r Bwrdd wedi paratoi Adroddiad Strategol sy'n rhoi crynodeb o ddatblygiad a pherfformiad busnes y cwmni yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ac sy'n cwmpasu datblygiadau tebygol yn y dyfodol.

Cyfarwyddwyr: Rhoddir enwau a manylion bywgraffiadol cryno'r Cyfarwyddwyr ar dudalen 61 o'r ddogfen hon.

Gwnaeth yr holl Gyfarwyddwyr wasanaethu drwy gydol y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2014 ar wahân i Graham Edwards a ymunodd â'r Bwrdd ym mis Hydref 2013. Yn CCB 2014, bydd John Bryant yn sefyll i lawr, bydd Graham Edwards yn sefyll am etholiad yn ffurfiol am y tro cyntaf a bydd yr holl Gyfarwyddwyr eraill yn sefyll am ailetholiad. Bydd hyn yn bodloni'r gofyniad o dan ein Herthyglau Cymdeithasu i un traean o Gyfarwyddwyr ymddeol yn ôl y drefn. Mae'r Bwrdd wedi ardystio effeithiolrwydd ac ymrwymiad (ac, o ran y Cyfarwyddwyr Anweithredol, annibyniaeth) y Cyfarwyddwyr ac mae'n argymhell bod pob un yn cael ei ailethol. Rhoddir rhagor o fanylion yn Hysbysiad CCB 2014 a gynhelir ddydd Gwener 4ydd Gorffennaf 2014. Mae llythrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gael i'w harolygu gan y cyhoedd.

Nid oes gan, ac ni fu gan, unrhyw Gyfarwyddwr fudd ariannol, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, mewn unrhyw gontract o bwys i fusnes y Cwmni ac ni ofynnwyd i'r Bwrdd ddefnyddio, ac nid yw wedi defnyddio, ei ddisgresiwn o dan Erthygl 57 o Erthyglau Cymdeithasu Glas Cymru sy'n ei gwneud yn bosibl i gymeradwyo gwrthdaro buddiannau posibl. Caiff manylion cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr unigol a'r strategaeth cydnabyddiaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd eu cynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Cynigir datrysiad yn CCB 2014 er mwyn cymeradwyo Adroddiad Cydnabyddiaeth 2014.

Mae gan y Cwmni yswiriant Cyfarwyddwyr a Swyddogion sy'n darparu ar gyfer camau cyfreithiol a gymerir yn erbyn y Cyfarwyddwyr ac indemnedd os na fydd cyfarwyddwr wedi gweithredu mewn ffordd dwyllodrus neu anonest. Mae'r indemnedd yn indemnedd amodol at ddiben y Ddeddf Cwmnïau ac mae er budd pob Cyfarwyddwr. Ni wnaed unrhyw hawliadau yn erbyn y polisi hwn ers dyddiad yr adroddiad diwethaf.

Cyflogeion: Ar 31 Mawrth 2014, roedd gan y Grŵp 2,954 o gyflogeion. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar gael pobl hynod ymrwymedig llawn cymhelliant ac mewn rhannau eraill o'r adroddiad blynyddol hwn disgrifiwn sut rydym yn ymgysylltu â chydweithwyr ac yn datblygu talent a chymhwysedd craidd y busnes.

Ni fyddwn yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr na chyflogeion ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw na thueddfryd rhywiol ("nodweddion gwarchodedig" yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010) neu unrhyw nodwedd bersonol arall. Os bydd cyflogai yn anabl neu'n dod yn anabl, ystyriwn unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n helpu i oresgyn neu leihau'r anhawster. Polisi'r Grŵp yw sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad gyrfa a dyrchafiad person anabl, i'r graddau y bo'n bosibl, yn cyfateb i'r hyn a roddir i berson nad oes ganddo anabledd.

Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol:

Rydym yn ymrwymedig i safonau iechyd a diogelwch galwedigaethol uchel ac yn ystod 2013-14 gwelodd ein perfformiad cyffelyb gyda llai o ddamweiniau RIDDOR. Rhoddir rhagor o wybodaeth am ein strategaeth iechyd a diogelwch a'n perfformiad yn Adroddiad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol 2014 sydd ar gael ar ein gwefan.

Ymchwil a Datblygu: Mae ein gwaith Ymchwil a Datblygu wedi canolbwyntio ar ddau brif faes, sef datblygu a defnyddio technoleg newydd a deall ein heffaith ar yr amgylchedd a'r ffordd orau o liniaru hyn. Mae ein Panel Cynghori Amgylcheddol Annibynnol, sy'n cynnwys rheoleiddwyr, academyddion a rhanddeiliaid amgylcheddol, yn parhau i gynghori'r busnes ar faterion ymchwil ac amgylcheddol. Mae'r Panel hefyd wedi chwarae rhan annatod yn y gwaith o'n helpu i gynllunio ein cynigion ymchwil ar gyfer y cyfnod buddsoddi nesaf. Mae'r panel hefyd wedi ein helpu i ddefnyddio'r arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael mewn cyrff o'r fath a meithrin ein cydberthnasau â hwy, fel bod cyllid ac arbenigedd ar gael ar gyfer ein hymchwil. Yn fwy cyffredinol, rydym wedi llywio elfennau o'r agenda ymchwil a datblygu genedlaethol drwy gymryd rhan ym mentrau ymchwil y diwydiant dŵr, yn fwyaf nodedig drwy fod yn aelod o UK Water Industry Research Limited sy'n rheoli ac yn cydgysylltu buddiannau ymchwil cwmnïau dŵr y DU. Rydym hefyd wedi cynnal dau weithdy arloesedd blynyddol, sy'n cynnwys ystod eang o Brifysgolion, cwmnïau technoleg, cyflenwyr ac eraill er mwyn datblygu ein strategaethau arloesedd 25 mlynedd ar gyfer gwasanaethau dŵr, dŵr gwastraff a chwsmeriaid.

Nwyon tŷ gwydr – Mae rhyddhau nwyon tŷ gwydr (GHG) yn cael effaith ar newid yn yr hinsawdd sydd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn peri risgiau sylweddol i'r busnes a'r amgylchedd. Mae'r Grŵp yn ceisio lleihau faint o nwyon tŷ gwydr y mae'n eu rhyddhau lle bo modd. Yn 2007, fel rhan o'i ddatganiad Cyfeiriad Strategol, gosododd Dŵr Cymru dargedau i'w hun i ostwng allyriadau carbon gweithredol 25% erbyn 2015 a 50% erbyn 2025 o gymharu â lefelau 2007/08. Mae ein defnydd ynni (o drydan Grid yn bennaf) yn cyfrif am tua 85% o allyriadau carbon gweithredol a dyma'r gost gweithredu fwyaf ond un (ar ôl pobl). Daw hyn bron i gyd o'n busnesau gweithredol. Mae ein swyddfeydd a'n fflyd trafnidiaeth gyfan yn cyfrif am lai na 5% o gyfanswm blynyddol allyriadau rhyngddynt.

Yn ystod y flwyddyn gostyngodd ein hallyriadau carbon 13 ktCO₂, neu 5% i 243 ktCO₂ (256 yn 2012/13). Y ffactor unigol mwyaf oedd lleihad sylweddol yng nghynnwys carbon y grid trydan o'r llynedd (mae'r ffactor hwn yn seiliedig ar gyfran y trydan sy'n deillio o bob ffynhonnell – mae mwy o ynni gwynt a niwclear yn golygu bod llai o garbon). Cyflawnwyd ein gostyngiadau ni'n hunain yn bennaf drwy gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ar y safle (i fyny 6 GWh (3ktCO₂) i 43 GWh. Gyda mwy o brosiectau ar waith ar gyfer 2014-15 rydym yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyflawni targed 2015 ar gyfer CO₂.

Er mwyn sicrhau bod ein holl adroddiadau yn gyson, cofnodir carbon ar sail methodoleg Defra ar gyfer cyflwyno adroddiadau i Ofwat. O dan ganllawiau Defra/DECC ar gyfer adroddiadau blynyddol, y ffigur yw 249 ktCO₂ e (ni nodwyd yr hyn sy'n cyfateb iddo yn flaenorol). Mae'r gwahaniaeth yn deillio'n bennaf o effaith y defnydd o gemegau, sef carbon a gynhyrchir yn ronynnog (GAC) yn bennaf.

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol:

Rydym yn gwbl ymrwymedig i gyfrifoldeb amgylcheddol a bod yn gymydog da ac yn bartner yr ymddiriedir ynddo yn y cymunedau a wasanaethwn. Er mwyn meithrin y fath ymddiriedaeth, mae'n rhaid i ni ddangos ein bod yn ymddwyn mewn ffordd deg a chyfrifol er budd cwsmeriaid, ein bod yn defnyddio adnoddau mewn ffordd ddoeth, a'n bod yn gwneud cyfraniad priodol i'r gymuned. Ymhlith yr enghreifftiau o 2013-14 mae ein canolfannau addysg, GlawLif ac ymgyrch Stop Cyn Creu Bloc, ynghyd ag ystod eang o brosiectau ecolegol a bioamrywiaeth cysylltiedig fel gwaith i adfywio mawnoydd ucheldir, a diogelu ansawdd ein ffynonellau dŵr crai.

Rhoddion Gwleidyddol: Mae'n bolisi gan y Bwrdd i beidio â gwneud rhoddion i bleidiau gwleidyddol na mynd i gostau gwleidyddol ac yn ystod 2013-14 ni wnaed unrhyw roddion na thaliadau yr oedd angen eu datgelu o dan adran 366 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Cynllun Iaith Gymraeg: Croesawn ymdrin â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn Gymraeg neu'n Saesneg ac anelwn at ddarparu gwasanaeth effeithiol yn y ddwy iaith. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn gynllun cymeradwy o dan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac rydym yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn paratoi i weithredu darpariaethau Mesur y Gymraeg 2011.

Cyfrifon Rheoliadol (Dŵr Cymru):

Mae Amod F o'r Offeryn Penodi y mae Dŵr Cymru yn gweithredu yn unol ag ef yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth ariannol ychwanegol fel 'busnes penodedig'. Mae copi o'r wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan.

Digwyddiadau ar ôl Diwedd y Flwyddyn

Ariannol: Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen.

Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol: Cynhelir CCB 2014 ddydd Gwener 4 Gorffennaf 2014 yng Ngwesty'r Marriott, Abertawe. Mae busnes y CCB yn cynnwys cymeradwyo Adroddiad a Datganiadau Ariannol y Cyfarwyddwyr a'r Adroddiad Cydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 a chymeradwyo'r Polisi Cydnabyddiaeth, ailethol pob Cyfarwyddwr, cynnig i awdurdodi'r Cwmni i wneud rhoddion i sefydliadau gwleidyddol yn yr UE a mynd i gostau gwleidyddol UE hyd at derfynau diffiniedig a chynigion i ailbenodi'r archwilyr ac awdurdodi'r Pwyllgor Archwilio i wneud ei ffioedd yn sefydlog. Mae'r cynigion hyn oll yn faterion busnes arferol – nid oes busnes arbennig. Rhoddir rhagor o wybodaeth am yr holl gynigion yn Hysbysiad CCB 2014 a anfonwyd at Aelodau Glas Cymru gyda'r adroddiad hwn.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith a rheoliadau cymwys.

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'r Cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. O dan gyfraith cwmnïau ni chaiff y Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni fyddant yn fodlon eu bod yn rhoi darlun teg, cytbwys a dealladwy o sefyllfa'r cwmni ac elw neu golled y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- nodi a yw IFRS cymwys sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiad ariannol ar sail busnes gweithredol oni fydd yn amhriodol tybio y bydd y cwmni yn parhau mewn busnes.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol i ddangos ac egluro trafodion y cwmni a datgelu, â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau bod y datganiad ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

O dan gyfraith a rheoliadau cymwys, mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr, Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr a Datganiad Llywodraethu Corfforaethol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith honno a'r rheoliadau hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal gwefan y cwmni a sicrhau ei bod yn gywir. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu'r gwaith o baratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i deddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Busnes Gweithredol: Mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod gan y busnes ddigon o adnoddau i barhau mewn busnes yn y dyfodol agos. Yn unol â hynny, mae'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol.

Archwilyr: Gweithredodd PricewaterhouseCoopers LLP fel archwilyr Glas Cymru ar gyfer y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014. Fel rhan o'r broses archwilio rydym wedi cadarnhau, hyd y gwŷr pob Cyfarwyddwr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilyr yn ymwybodol ohoni a'u bod wedi cymryd camau i ddod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilyr y Cwmni yn ymwybodol ohoni. Cyflwynir cynnig i ailbenodi PricewaterhouseCoopers i'r Aelodau yn CCB 2014.

Drwy orchymyn y Bwrdd



Nicola Williams

Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Cwmni
12 Mehefin 2014

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Glas Cymru Cyfyngedig

Adroddiad ar y datganiadau ariannol

Ein barn

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol a ddiffinnir isod:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Rhiant-Gwmni ar 31 Mawrth 2014 ynghyd ag elw'r Grŵp a llifau arian parod y Grŵp a'r Rhiant-Gwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd;
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ac, o ran datganiadau ariannol y Grŵp, Erthygl 4 o Reoliad IAS.

Dylai'r farn hon gael ei darllen yng nghydestun yr hyn a ddywedwn yng ngweddill yr adroddiad hwn.

Yr hyn rydym wedi'i archwilio

Mae datganiadau ariannol y Grŵp a datganiadau ariannol y Rhiant-Gwmni (y "datganiadau ariannol"), a baratoir gan Glas Cymru Cyfyngedig, yn cynnwys:

- datganiadau'r Grŵp a'r Rhiant-Gwmni ar y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2014;
- datganiad incwm y Grŵp a datganiad incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- datganiadau'r Grŵp a'r Rhiant-Gwmni ynghylch newidiadau mewn ecwiti a datganiadau llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- nodiadau'r datganiadau ariannol sy'n cynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu pwysig a gwybodaeth eglurhaol arall.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn cynnwys cyfraith gymwys ac IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ac, o ran y Rhiant-Gwmni, fel sy'n gymwys yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006.

Beth mae archwiliad o ddatganiadau ariannol yn ei olygu

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) (ISA (y DU ac Iwerddon)). Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un a gaiff ei achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol:

- p'un a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Grŵp a'r Rhiant-Gwmni a ph'un a ydynt wedi cael eu cymhwysu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol;
- rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyfarwyddwyr;
- cyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Hefyd, rydym yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon (yr "Adroddiad Blynnyddol") er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sydd, yn ôl pob tebyg, yn anghywir yn berthnasol yn seiliedig ar y wybodaeth a gafwyd gennym wrth gynnal yr archwiliad neu sy'n anghyson â hi mewn ffyrdd perthnasol. Os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol ystyriwn y goblygiadau i'n hadroddiad.

Trosolwg o'n dull archwilio Perthnasedd

Gwnaethom bennu trothwyon penodol ar gyfer perthnasedd. Gwnaeth y rhain ein helpu i bennu natur, amseriad a graddau ein gweithdrefnau archwilio a gwerthuso effaith camddatganiadau, yn unigol ac ar y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Ar sail ein dyfarniad proffesiynol, gwnaethom bennu bod perthnasedd i ddatganiadau ariannol y Grŵp yn eu cyfanrwydd yn cyfateb i £9.1miliwn, sef 2.5% o EBITDA y Grŵp. O ystyried nad oes gan y cwmni unrhyw gyfranddalwyr a'i fod yn ailfuddsoddi'r holl wargedion yn ôl i mewn i'r cwmni ar ffurf gwelliannau i seilwaith a gwelliannau i'r broses o ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid, canolbwyntir ar gynhyrchu llifau arian parod gweithredu cadarnhaol, y mae EBITDA yn brocsi rhesymol drostynt.

Cytunwyd â'r Pwyllgor Archwilio y byddem yn ei hysbysu am gamddatganiadau a nodwyd yn ystod ein harchwiliad uwchlaw £0.45 miliwn yn ogystal â chamddatganiadau islaw'r swm hwnnw a oedd, yn ein barn ni, yn ei gwneud yn briodol i gyflwyno adroddiadau am resymau ansoddol.

Trosolwg o gwmpas ein harchwiliad

Mae datganiadau ariannol y Grŵp yn cyfuno saith endid, sy'n cynnwys busnesau gweithredol a swyddogaethau canolog y grŵp.

Archwiliodd tîm archwilio'r Grŵp yr holl wybodaeth ariannol ar gyfer y saith endid. Rhoddodd hyn y dystiolaeth yr oedd ei hangen arnom i lunio barn ar ddatganiadau ariannol y Grŵp yn eu cyfanrwydd.

Meysydd â ffocws archwilio penodol

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, gwnaeth y Cyfarwyddwyr nifer o ddyfarniadau goddrychol, er enghraifft o ran amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a oedd yn cynnwys gwneud tybiaethau ac ystyried digwyddiadau yn y dyfodol sy'n ansicr yn ôl eu hanfod. O fewn y meysydd hyn, rhoddwyd ffocws i'n gwaith yn bennaf drwy asesu dyfarniadau'r Cyfarwyddwyr yn erbyn y dystiolaeth oedd ar gael, llunio ein dyfarniadau ein

hunain, a gwerthuso'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol.

Yn ein harchwiliad, gwnaethom brofi ac ystyried gwybodaeth, gan ddefnyddio technegau samplu a thechnegau archwilio eraill, i'r graddau a oedd yn angenrheidiol yn ein barn ni i ddarparu sail resymol i ni lunio casgliadau. Cawsom dystiolaeth archwilio drwy brofi effeithiolrwydd rheolaethau, gweithdrefnau sylweddol neu gyfuniad o'r ddau.

Gwnaethom ystyried mai'r meysydd canlynol oedd y rhai y dylid canolbwyntio arnynt yn benodol yn ystod y flwyddyn gyfredol. Nid yw hon yn rhestr gyflawn o'r holl risgiau neu feysydd â ffocws a nodwyd yn ystod ein harchwiliad. Trafodwyd y meysydd hyn â ffocws gyda'r Pwyllgor Archwilio. Rhoddir ei adroddiad ar y materion hynny a oedd o bwys yn ei farn ef mewn perthynas â'r datganiadau ariannol ar dudalen 63.

Maes â ffocws**Darparu ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy**

Canolbwyntiwyd ar y ddarpariaeth a gyfrifwyd ar gyfer lleihad mewn gwerth am fod y dull cyfrifo yn sensitif i newidiadau mewn tybiaethau a bod angen elfen o ddyfarnu wrth asesu'r effaith a gaiff newidiadau mewn ffactorau allanol ar golledion lleihad mewn gwerth yn y dyfodol.

Sut y gwnaeth cwmpas ein harchwiliad ymdrin â'r maes â ffocws

Gwnaethom werthuso a phrofi effeithiolrwydd cynllunio a gweithredu rheolaethau o ran cyfrifo'r ddarpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy a chymharu cysondeb y camau a gymerwyd gan reolwyr â blynyddoedd blaenorol. Gwnaethom hefyd brofi'r data sylfaenol y seiliwyd y cyfrifiadau arnynt a heriwyd y dyfarniadau allweddol a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r ddarpariaeth drwy gynnal dadansoddiad o sensitifrwydd gan ddefnyddio nifer o sefyllfaoedd rhesymol bosibl.

Prisio'r cynllun pensiwn

Canolbwyntiwyd ar y maes hwn am fod rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn yn berthnasol i'r datganiadau ariannol ac yn sensitif i nifer o dybiaethau goddrychol.

Gwnaethom ystyried cymhwysedd a chymwysterau'r actiwari a gynhaliodd y prisiad a sicrhau bod y data priodol wedi cael eu defnyddio yn y cyfrifiad. Yn ogystal, lluniwyd disgwyliad annibynnol o'r hyn y dylai'r prif dybiaethau prisio pensiwn fod a'u cymharu â'r rhai a fabwysiadwyd gan reolwyr. Gwiriwyd y datgeliadau gwybodaeth a roddwyd i'r actiwari.

Dyrannu costau cyfalaf

Mae gwariant ar y rhaglen gyfalaf naill ai wedi'i gyfalafu fel ychwanegiad cyfalaf neu mae'n draul o fewn y datganiad incwm. O ystyried natur gymhleth y rhaglen gyfalaf, mae'r modd y dosberthir rhywfaint o'r gwariant yn agored i ddyfarnu.

Rydym wedi pennu bod y prif feysydd dyfarnu ynghlwm wrth y costau a ddosbarthwyd yn wariant adnewyddu seilwaith, cyfalafu costau cymorth a chyfalafu ychwanegiadau anniriaethol.

Gwnaethom werthuso a phrofi effeithiolrwydd cynllunio a gweithredu rheolaethau sy'n ymdrin â risg. Profwyd sampl o gostau a gyfalafwyd o fewn Eiddo, peiriannau a chyfarpar ac roedd asedau anniriaethol yn bodloni meini prawf cydnabyddiaeth IAS 16 ac IAS 38 yn y drefn honno. O ran gwariant adnewyddu seilwaith sydd wedi'i nodi fel traul yn y datganiad Incwm gwnaethom brofi sampl er mwyn pennu eu bod yn briodol nad yw'r costau hyn wedi'u cyfalafu.

Prisio offerynnau ariannol deilliannol

Mae gan y grŵp nifer o offerynnau ariannol deilliannol cymhleth y mae eu prisiad yn gymhleth ac yn sensitif i newidiadau bach yn y sail prisio.

Gwnaethom gyflawni prisiadau annibynnol o'r offerynnau ariannol deilliannol a'u cymharu â'r rhai a gafwyd gan reolwyr.

Meysydd â ffocws tybiedig**Twyll wrth gydnabod reffeniw**

Mae ISAs (y DU ac Iwerddon) yn tybio bod risg o dwyll wrth gydnabod reffeniw oherwydd y pwysau y gall rheolwyr eu teimlo i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

Tra ein bod wedi asesu'r risg ac wedi cyflawni gwaith ar draws pob llif reffeniw, y maes sy'n destun y lefel fwyaf o amcangyfrif yw'r croniat incwm a fesurir.

Sut y gwnaeth cwmipas ein harchwiliad ymdrin â'r maes â ffocws

Gwnaethom werthuso a phrofi effeithiolrwydd cynllunio a gweithredu'r rheolaethau sy'n ymdrin â'r risg a'r polisi cydnabod reffeniw a fabwysiadwyd gan y grŵp. Gwnaethom hefyd brofi llif trafodion reffeniw drwy'r defnydd o dechnegau archwilio drwy gymorth cyfrifiadur ac ymchwiliwyd i gofnodion anarferol. Ar gyfer balansau a ddaliwyd gyda chwmnïau dŵr eraill gwnaethom gadarnhau'n uniongyrchol y balans reffeniw a dyledwyr. Yn ogystal, gwnaethom brofi cyfnodolion â llaw sy'n effeithio ar reffeniw a phrofwyd y cysoniadau rhwng y systemau reffeniw a ddefnyddiwyd gan y Grŵp a'i gyfnodolion ariannol. Yn benodol o ran y croniat incwm wedi'i fesur, rydym wedi cadarnhau y defnyddiwyd data priodol yn y cyfrifiad a bod y cyfrifiad yn gywir.

Risg bod rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol

Mae ISAs (y DU ac Iwerddon) yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried hyn.

Gwnaethom asesu amgylchedd rheoli cyffredinol y Grŵp, gan gynnwys trefniadau i staff "chwythu'r chwiban" mewn perthynas â chymau amhriodol, a chyfwelwyd ag uwch reolwyr a swyddogaeth archwilio fewnol y Grŵp. Archwiliwyd yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a'r dyfarniadau a oedd yn berthnasol i'r datganiadau ariannol am dystiolaeth o duedd gan y Cyfarwyddwyr a allai beri risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll. Hefyd profwyd cofnodion cyfnodolion a oedd yn canolbwyntio ar gyfnodolion â llaw.

Busnes gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi cydymffurfio o'u gwirfodd â Rheol Rhestru 9.8.6(R) (3) yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac wedi darparu datganiad mewn perthynas â busnes gweithredol, a roddir ar dudalen 82, sy'n ofynnol yn achos cwmnïau a restrwyd yn gwmnïau premiwm ar Gyfnewidfa Stoc Llundain.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi gofyn i ni adolygu'r datganiad ar fusnes gweithredol fel petai'r Rhiant-Gwmni yn gwmni a restrwyd yn gwmni premiwm. Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi yn dilyn ein hadolygiad. Fel y nodwyd yn natganiad y Cyfarwyddwyr, mae'r Cyfarwyddwyr wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol paratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol.

Mae'r sail busnes gweithredol yn tybio bod gan y Grŵp a'r Rhiant-Gwmni ddigon o adnoddau i barhau i weithredu, a bod y Cyfarwyddwyr yn bwriadu iddynt wneud hynny, am o leiaf flwyddyn o'r dyddiad y llofnodwyd y datganiadau ariannol. Fel rhan o'n harchwiliad rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Cyfarwyddwyr o'r sail busnes gweithredol yn briodol.

Fodd bynnag, am nad oes modd rhagweld pob digwyddiad neu amod yn y dyfodol, nid yw'r datganiadau hyn yn warant y bydd y Grŵp na'r Rhiant-Gwmni yn gallu parhau fel busnes gweithredol.

Barn ar faterion eraill a ragnodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Barn ar ddatgeliadau ychwanegol Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr

Mae'r Rhiant-Gwmni o'i wirfodd yn paratoi Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi gofyn i ni archwilio'r rhan o Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr a nodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006 fel rhan y dylid ei harchwilio fel petai'r Rhiant-Gwmni yn gwmni wedi'i ddyfynnu.

Yn ein barn ni, mae'r rhan o Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Materion eraill y mae angen i ni gyflwyno adroddiadau arnynt yn ôl eithriad

Digonolrwydd cofnodion cyfrifyddu a gwybodaeth ac esboniadau a gafwyd

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os, yn ein barn ni:

- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen ar gyfer ein harchwiliad; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y Rhiant-Gwmni, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer ein harchwiliad wedi'u darparu gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy; neu
- nid yw datganiadau ariannol y Rhiant-Gwmni yn gytûn â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni.

Nid oes unrhyw eithriadau i'w nodi yn deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os, yn ein barn ni, na wnaed datgeliadau penodol o ran cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr a nodir gan y gyfraith. Nid oes unrhyw eithriadau i'w nodi yn deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis cydymffurfio o'u gwirfodd â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU ("y Cod") fel petai'r rhiant-gwmni yn gwmni a restrwyd yn gwmni premiwm. Ar dudalen 82 o'r Adroddiad Blynnyddol, fel sy'n ofynnol gan Ddarpariaeth C.1.1 o'r Cod, dywed y Cyfarwyddwyr eu bod o'r farn bod yr Adroddiad Blynnyddol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar aelodau i asesu perfformiad, model busnes

a strategaeth y Grŵp a'r Rhiant-Gwmni. Ar dudalen 64, fel sy'n ofynnol gan C.3.8 o'r Cod, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi nodi'r materion sylweddol a ystyriwyd ganddo mewn perthynas â'r datganiadau ariannol, a sut yr ymdriniwyd â hwy. O dan ISA (y DU ac Iwerddon) mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r datganiad a roddwyd gan y Cyfarwyddwyr yn berthnasol gyson â'n gwybodaeth am y Grŵp a'r Rhiant-Gwmni a gafwyd yn ystod ein harchwiliad; neu
- nid yw'r rhan o'r Adroddiad Blynnyddol sy'n disgrifio gwaith y Pwyllgor Archwilio yn ymdrin yn briodol â materion a gafodd eu cyfleu gennym i'r Pwyllgor Archwilio.

Nid oes unrhyw eithriadau i'w nodi yn deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Gwybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynnyddol

O dan ISA (y DU ac Iwerddon), mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os, yn ein barn ni, y mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynnyddol fel a ganlyn:

- yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol archwiledig; neu
- yn ymddangos yn anghywir mewn ffordd berthnasol yn seiliedig ar ein gwybodaeth am y Grŵp a'r Rhiant-Gwmni a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, neu y mae'n anghyson mewn ffordd berthnasol â hi; neu
- yn gamarweiniol fel arall.

Nid oes unrhyw eithriadau i'w nodi yn deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Mater rydym wedi cytuno i gyflwyno adroddiad arno yn ôl eithriad

Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae Datganiad Llywodraethu Corfforaethol y Rhiant-Gwmni yn cynnwys manylion cydymffurfiaeth y Rhiant-Gwmni â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi gofyn am i ni adolygu'r rhannau o'r Datganiad

Llywodraethu Corfforaethol sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y rhiant-gwmni â naw darpariaeth Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU y nodwyd bod angen iddynt gael eu hadolygu gan yr archwilywyr gan Reolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol fel petai'r Rhiant-Gwmni yn gwmni a restrwyd yn gwmni premiwm. Nid oes unrhyw beth i'w nodi yn dilyn ein hadolygiad.

Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

Ein cyfrifoldebau a rhai'r Cyfarwyddwyr

Fel yr eglurir yn fanylach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr, mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Rydym yn gyfrifol am archwilio'r datganiadau ariannol a llunio barn arnynt yn unol â chyfraith gymwys ac ISAs (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilywyr.

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y barnau, wedi'i baratoi ar gyfer aelodau'r Cwmni yn unig fel corff yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym, wrth roi'r barnau hyn, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw unigolyn arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y gall ddod ar ei draws oni fydd cytundeb pendant drwy ganiatâd ysgrifenedig a roddir gennym ymlaen llaw.

KE Finn

Katharine Finn

Uwch Archwilydd Statudol
dros ac ar ran
PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac
Archwilywyr Statudol
Caerdydd
12 Mehefin 2014

DATGANIADAU ARIANNOL

DATGANIAD INCWM CYFUNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2014

Gweithgareddau parhaus	Nodyn	£m	2014	Fel yr ailddatganwyd 2013	
			£m	£m	£m
Refeniw			736.5		716.4
Costau gweithredu:					
- Gwariant gweithredol	3	(296.4)			(297.7)
- Gwariant ar adnewyddu seilwaith	3	(71.8)			(79.4)
- Dibrisiant ac amorteiddio	3	(163.7)			(158.7)
			(531.9)		(535.8)
Elw gweithredu			204.6		180.6
Costau ariannu:					
- Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg	4a	(160.6)		(141.3)	
- Incwm cyllid sy'n dderbyniadwy	4a	6.3		7.0	
- Enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	4b	94.2		(61.2)	
			(60.1)		(195.5)
Elw/(colled) cyn treth incwm			144.5		(14.9)
Trethiant	5		10.8		14.4
Elw/(colled) am y flwyddyn			155.3		(0.5)

ELW SYLFAENOL AM Y FLWYDDYN

(Elw cyn treth, addasiadau gwerth teg ac elw cyfrifyddu wrth derfynu prydlesau)

	2014	Fel yr ailddatganwyd 2013
	£m	£m
Elw/(colled) cyn trethiant fesul Datganiad Incwm	144.5	(14.9)
Addasiad ar gyfer:		
- (Enillion)/colledion gwerth teg ar ddatganiadau ariannol deilliadol (gweler nodyn 4b)	(94.2)	61.2
- Elw cyfrifyddu wrth derfynu prydlesau	—	(20.1)
Elw sylfaenol am y flwyddyn	50.3	26.2

Mae'r cwmni wedi dewis cymryd yr eithriad o dan adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i beidio â chyflwyno datganiad incwm y rhiant-gwmni. Elw'r rhiant-gwmni am y flwyddyn oedd dim (2013: dim).

DATGANIAD CYFUNOL O INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2014

	Nodyn	2014	Fel yr ailddatganwyd 2013
		£m	£m
Elw am y flwyddyn		155.3	(1.1)
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw neu golled			
Ennill actiwaraidd a gydnabwyd yn y cynllun pensiwn	20	24.9	5.0
Symudiad ar ased treth ohiriedig yn ymwneud â'r cynllun pensiwn	5	(5.8)	(0.9)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		174.4	3.0

DATGANIAD CYFUNOL O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2014

	2014	Fel yr ailddatganwyd 2013
	£m	£m
Balans ar 1 Ebrill	(74.4)	(77.4)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	174.4	3.0
Cronfeydd wrth gefn/(diffyg) ar 31 Mawrth	100.0	(74.4)

Ni fu unrhyw newidiadau yng nghronfeydd wrth gefn y rhiant-gwmni yn ystod y flwyddyn (2013: dim).

Caiff ffigur cymharol y flwyddyn flaenorol ei ailddatgan o ganlyniad i ddiwygio IAS 19 lle mae angen gwneud newid i gyfrifiadau'r gost llog mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig. Darperir rhagor o wybodaeth yn nodyn 1.

MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2014

	Nodyn	2014 £m	2013 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	7	3,442.3	3,336.1
Asedau anniriaethol	8	83.9	66.1
Buddsoddiadau	9	–	–
		3,526.2	3,402.2
Asedau cyfredol			
Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill	10	526.7	526.1
Rhestri eiddo		2.3	1.6
Asedau ariannol:			
- offerynnau ariannol deilliadol	14	3.7	4.4
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	11	94.4	157.4
		627.1	689.5
Cyfanswm yr asedau		4,153.3	4,091.7
Rhwymedigaethau			
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach a symiau taladwy eraill	12	(535.5)	(542.6)
Rhwymedigaethau ariannol:			
- benthyciadau	13	(30.6)	(79.7)
- offerynnau ariannol deilliadol	14	(32.3)	(37.9)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	16	(4.6)	(10.5)
		(603.0)	(670.7)
Asedau cyfredol net		24.1	18.8
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	12	(80.2)	(67.7)
Rhwymedigaethau ariannol:			
- benthyciadau	13	(2,879.3)	(2,815.2)
- offerynnau ariannol deilliadol	14	(236.4)	(325.7)
Buddiannau ôl-gyflogaeth	20	(2.8)	(32.8)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	16	(10.3)	(10.1)
		(3,209.0)	(3,251.5)
Asedau net cyn treth ohiriedig		341.3	169.5
Treth ohiriedig – net	6	(241.3)	(243.9)
Asedau/(rhwymedigaethau) net		100.0	(74.4)
Cronfeydd wrth gefn/(diffyg)		100.0	(74.4)

Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 88 i 119 eu cymeradwyo gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 6 Mehefin 2013 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



C A Jones
Prif Swyddog Gweithredol



P D Perry
Prif Swyddog Gweithredu

MANTOLEN Y RHIANT-GWMNI AR 31 MAWRTH 2014

		2014	2013
	Nodyn	£m	£m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Buddsoddi mewn is-gwmnïau	9b	-	-
Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill	10	3.4	3.4
		-	3.4
Asedau cyfredol			
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	11	0.1	0.1
		0.1	0.1
Rhwymedigaethau			
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach a symiau taladwy eraill	12	(3.5)	(3.5)
		(3.5)	(3.5)
Asedau net			
		-	-
Cronfeydd wrth gefn			
Enillion a gedwir		-	-
Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn			
		-	-

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 88 i 119 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 6 Mehefin 2013 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



C A Jones
Prif Swydddog Gweithredol



P D Perry
Prif Swydddog Gweithredu

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2014

		2014	2013
	Nodyn	£m	£m
Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu			
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	17a	351.8	326.0
Llog a dalwyd	17b	(174.7)	(124.5)
Treth incwm a dderbyniwyd		–	4.2
Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu		177.1	205.7
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		6.3	7.3
Prynu eiddo, offer a chyfarpar		(227.4)	(199.2)
Prynu asedau anniriaethol		(55.5)	(53.2)
Grantiau a chyfraniadau a dderbyniwyd		14.6	13.7
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(262.0)	(231.4)
All-lif arian parod net cyn gweithgareddau ariannu		(84.9)	(25.7)
Llifau arian parod o weithgareddau ariannu			
Benthyciadau hirdymor a dderbyniwyd		75.0	—
Ad-daliadau benthyciadau tymor		(13.5)	(13.5)
Prif daliadau prydlesau cyllidol		(39.4)	(103.6)
Ad-daliadau benthyciadau eraill		(0.2)	(0.3)
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau ariannu		21.9	(117.4)
Gostyngiad mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	18	(63.0)	(143.1)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill		157.4	300.5
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth	11	94.4	157.4

Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw lifau arian parod yn ystod y flwyddyn (2013: dim).

1 POLISIÂU CYFRIFYDDU, RHEOLI RISGIAU CYLLIDO AC AMCANGYFRIFON CYFRIFYDDU

Polisiâu cyfrifyddu am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

Nodir y prif bolisiâu cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn isod. Cymhwyswyd y polisiâu hyn yn gyson at y ddwy flynedd a gyflwynwyd.

Sail paratoi

Paratowyd datganiadau ariannol cyfunol Glas Cymru Cyfyngedig yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a phwyllgor dehongli IFRS (IFRS IC) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a Deddf Cwmnïau 2006 sy'n gymwys i gwmnïau sy'n adrodd o dan ddehongliadau IFRS ac IFRIC. Paratowyd y datganiadau ariannol cyfunol o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i haddaswyd gan yr adbrisad o asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol (gan gynnwys offerynnau ariannol deilliadol) ar werth teg drwy elw neu golled.

Busnes gweithredol

Fel y disgrifir yn yr adran rheoli risgiau cyllido, mae'r grŵp yn bodloni ei ofynion cyfalaf gwaith o ddydd i ddydd drwy ei gyfleusterau banc. Mae'r amodau economaidd cyfredol yn parhau i greu ansicrwydd ynghylch lefel y galw am wasanaethau'r grŵp; ac argaeledd y cyllid banc yn y dyfodol agos. Mae rhagolygon ac amcanestyniadau'r grŵp, gan ystyried newidiadau rhesymol bosibl mewn perfformiad masnachu, yn dangos y dylai fod yn gallu gweithredu o fewn ei gyfleusterau cyfredol. Ar ôl gwneud ymholiadau, dylai'r Cyfarwyddwyr gael disgwyliad rhesymol fod gan y grŵp ddigon o adnoddau i barhau i fodoli'n weithredol yn y dyfodol agos. Mae'r grŵp felly yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi ei ddatganiadau ariannol. Mae paratoi datganiadau ariannol wrth gydymffurfio ag IFRS yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu critigol penodol.

Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr arfer doethineb wrth gymhwyso polisiâu cyfrifyddu'r grŵp. Mae'r meysydd lle mae angen mwy o ddoethineb neu sy'n fwy cymhleth, neu feysydd lle mae tybiaethau ac amcangyfrifon yn bwysig i'r datganiadau ariannol wedi'u datgelu ar dudalen 97.

Newidiadau mewn polisiâu cyfrifyddu a datgeliadau

Mae'r safonau canlynol wedi'u mabwysiadu gan y grŵp am y tro cyntaf yn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2013 ac maent yn cael effaith sylweddol ar y grŵp. Ar 31 Mawrth 2014 nid oedd unrhyw safonau newydd na dehongliadau a oedd wedi'u cyhoeddi ond heb eu gweithredu eto y disgwyliar iddynt gael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y cwmni.

IAS 19 (diwygiedig) 'Buddiannau cyflogaion'

Mae IAS 19 (diwygiedig) yn addasu'r dull cyfrifyddu ar gyfer buddiannau cyflogaeth. Mae'r grŵp wedi cymhwyso'r safon yn ôl-weithredol yn unol â darpariaethau pontio'r safon. Bu'r effaith ar y grŵp yn y meysydd canlynol:

- Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i gost gwasanaeth yn y gorffennol gael ei chydabod ar unwaith yn y cyfrif elw neu golled.
- Mae'r safon yn disodli'r gost llog ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig a'r elw disgwyliedig ar asedau cynllun gyda chost llog net yn seiliedig ar yr ased neu'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net a'r gyfradd ddisgowntio, wedi'i mesur ar ddechrau'r flwyddyn. Nid oes unrhyw newid i bennu'r gyfradd ddisgowntio; mae hyn yn parhau i adlewyrchu'r arenillion ar fondiau corfforaethol o ansawdd uchel. Mae hyn wedi cynyddu taliad y datganiad incwm gan fod y gyfradd ddisgowntio a gymhwysir at asedau yn is na'r enillion disgwyliedig ar asedau.

Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar gyfanswm yr incwm cynhwysfawr gan fod y taliad cynyddol mewn elw neu golled wedi'i wrthbwysio gan gredyd mewn incwm cynhwysfawr arall.

- Mae term newydd 'ailfesuriadau'. Mae hyn yn cynnwys enillion a cholledion actiwaraid, y gwahaniaeth rhwng enillion gwirioneddol ar fuddsoddi a'r enillion a fynegir gan y gost llog net. Mae 'rhwymedigaethau buddiannau ymddeol' fel y'u cofnodwyd yn flaenorol wedi cael eu hailddatgan ar y dyddiadau adrodd i adlewyrchu effaith yr uchod. Roedd effaith y newid mewn polisi cyfrifyddu ar y datganiad o lifau arian parod yn amherthnasol.

IFRS 10 'Datganiadau ariannol cyfunol'

Mae'r grŵp wedi mabwysiadu IFRS 10 yn gynnar. O dan IFRS 10 mae is-gwmnïau yn endidau (gan gynnwys endidau strwythuredig) y mae gan y grŵp reolaeth drostynt. Mae'r grŵp yn rheoli endid lle mae gan y grŵp bŵer dros endid, wedi'i amlygu i enillion amrywiol, neu â hawl iddynt, yn sgil ei gysylltiad â'r endid ac mae ganddo'r gallu i effeithio ar yr enillion hyn drwy ei bŵer dros yr endid. Mae is-gwmnïau yn llwyr gyfunol o'r dyddiad y trosglwyddir y rheolaeth i'r grŵp. Cânt eu dadgyfuno o'r dyddiad y daw'r rheolaeth i ben. Mae'r grŵp wedi cymhwyso IFRS 10 yn ôl-weithredol yn unol â darpariaethau pontio IFRS 10.

IFRS 13 'Mesur gwerth teg'

Mae IFRS 13 'Mesur gwerth teg' yn gymwys i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013. Mae'n darparu un fframwaith ar gyfer mesur gwerthoedd teg ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgeliadau ychwanegol am fesuriadau gwerth teg gael eu rhoi.

Safonau newydd a dehongliadau nas mabwysiadwyd eto

Mae nifer o safonau newydd a diwygiadau i safonau a dehongliadau ar waith ar gyfer cyfnodau blynyddol yn dechrau ar ôl Ionawr 2013, ac nid ydynt wedi'u cymhwyso wrth baratoi'r datganiadau ariannol cyfunol hyn. Nid oes disgwyl i'r un ohonynt gael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol cyfunol y Grŵp, heblaw'r canlynol a nodir isod.

IFRS 9 'Offerynnau ariannol'

Mae IFRS 9 'Offerynnau ariannol' yn mynd i'r afael â dosbarthu, mesur a chydabod asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol. Cyhoeddwyd IFRS 9 ym mis Tachwedd 2009 a mis Hydref 2010. Mae'n disodli rhannau o IAS 39 sy'n ymwneud â dosbarthu a mesur offerynnau ariannol. Mae IFRS 9 yn ei gwneud yn ofynnol i asedau ariannol gael eu dosbarthu yn ddau gategori mesur; y rhai a fesurir ar werth teg a'r rhai a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio. Gwneir y penderfyniad ar adeg y gydnabyddiaeth gychwynnol. Mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar fodel busnes yr endid ar gyfer rheoli ei offerynnau ariannol a nodweddion llif arian parod cytundebol yr offeryn. Ar gyfer rhwymedigaethau ariannol, mae'r safon yn cadw'r rhan fwyaf o ofynion IAS 39. Y prif newid, mewn achosion lle y cymerir yr opsiwn gwerth teg am rhwymedigaethau ariannol, yw y caiff y rhan o'r newid mewn gwerth teg sydd o ganlyniad i risg credyd yr endid ei hun ei chofnodi mewn incwm cynhwysfawr arall yn hytrach na'r datganiad incwm, oni fydd hyn yn creu cam-gymharu cyfrifyddu. Mae'r grŵp eto i asesu effaith lawn IFRS 9. Bydd y Grŵp hefyd yn ystyried effaith y cyfnodau sy'n weddill o IFRS 9 pan gânt eu cwblhau gan y Bwrdd.

Nid oes unrhyw IFRS na dehongliadau IFRIC eraill nad ydynt eto ar waith y byddai disgwyl iddynt gael effaith sylweddol ar y Grŵp.

Sail y cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y cwmni a'i is-gwmnïau. Ymdrinnir â chanlyniadau cwmnïau a busnesau a gafaelyd yn ystod y flwyddyn yn y datganiadau ariannol cyfunol o'r dyddiad caffael. Caiff trafodion ac elw rhwng grwpiau eu dileu ar adeg y cyfuno.

Cydnabod refeniw

Refeniw yw'r incwm sy'n dderbyniadwy yn ystod busnes arferol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir, ac eithrio treth ar werth. Lle mae gwasanaethau wedi'u darparu ond na chodwyd anfoneb ar eu cyfer ar ddiwedd y flwyddyn caiff amcangyfrif o'r gwerth ei gynnwys mewn refeniw (gweler yr adran 'Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol' am fanylion pellach). Mae refeniw a gydnabyddir yn adlewyrchu gwerth y gwasanaethau a ddarparwyd i gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn. Lle mae cwsmeriaid wedi gwneud taliadau ymlaen llaw fel ar ddiwedd y flwyddyn, caiff hyn ei gydnabod fel incwm gohiriedig.

Adrodd segment

Caiff segmentau gweithredu eu hadrodd mewn modd sy'n gyson â'r dulliau adrodd mewnol a ddarperir i'r prif wneuthurwr penderfyniadau gweithredol. Nodwyd mai'r prif wneuthurwr penderfyniadau gweithredol, sy'n gyfrifol am ddyrannu adnoddau ac asesu perfformiad y segment gweithredu, yw'r pwyllgor llywio sy'n gwneud penderfyniadau strategol.

Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu cynnwys ar gost llai dibrisiant cronedig. Mae cost yn adlewyrchu pris prynu ynghyd ag unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddechrau defnyddio'r ased, gan gynnwys costau mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol a chostau benthyca.

Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys:

- a) Asedau seilwaith (sef prif bibellau a charthffosydd, cronfeydd dŵr storio neu gronfeydd dŵr heb ei drin a bwmpwyd, argloddiau, piblinellau slwtsh ac arllwysfeydd i'r môr);
- b) Asedau eraill (yn cynnwys eiddo, strwythurau gweithredol a chyfarpar ar y ddaear, a gosodiadau a ffitiadau).

Adolygir gwerth cario asedau ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Caiff oes asedau a gwerthoedd gweddilliol ei hadolygu bob blwyddyn.

Asedau seilwaith

Mae asedau seilwaith yn cynnwys cronfeydd dŵr storio a rhwydwaith o systemau dŵr a dŵr gwastraff tanddaearol yn bennaf. At ddibenion cyfrifyddu, mae'r system ddŵr wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli categorïau o ddosbarthiadau o asedau gydag oes a nodweddion tebyg. Caiff y system dŵr gwastraff ei rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli ardaloedd gweithredu daearyddol, gan adlewyrchu'r modd y mae'r grŵp yn gweithredu ei weithgareddau dŵr gwastraff.

Ymdrinnir â gwariant ar asedau seilwaith sy'n ymwneud â chynnydd mewn capasiti, gwelliannau neu adnewyddu elfennau o'r rhwydwaith fel ychwanegiadau, sydd wedi'u cynnwys ar gost. Nodir gwariant yr aed iddo wrth atgyweirio a chynnal a chadw gallu gweithredu elfennau seilwaith unigol, 'gwariant ar adnewyddu seilwaith', yn y flwyddyn yr eir i'r gwariant.

Pennir y tâl dibrisiant ar gyfer asedau seilwaith ar gyfer pob elfen o'r rhwydwaith ac mae'n seiliedig ar gost pob elfen, gwerth gweddilliol amcangyfrifedig a'r oes ddefnyddiol ddisgwyliedig gyfartalog sy'n weddill. Mae oes economaidd gyfartalog ddefnyddiol elfennau'r seilwaith yn amrywio'n bennaf o 60 i 150 mlynedd.

Asedau eraill

Mae asedau eraill wedi'u dibrisio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd fel a ganlyn:

Adeiladau rhydd-ddaliadol	60 mlynedd
Strwythurau gweithredol	5 – 80 mlynedd
Offer, cyfarpar a chaledwedd meddalwedd gyfrifiadurol	3 – 40 mlynedd

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio nes y'u comisiynir. Ni chaiff tir ei ddibrisio.

Asedau anniriaethol

Caiff asedau anniriaethol, sy'n cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol, datblygiadau systemau ac ymchwil a datblygu yn bennaf eu cynnwys ar gost llai amorteiddio cronedig. Mae cost yn adlewyrchu'r pris prynu ynghyd ag unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddechrau defnyddio'r ased, gan gynnwys costau mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Caiff gwariant ar ymchwil ei gydnabod fel traul yr aed iddo. Caiff costau yr aed iddynt ar brosiectau datblygu eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir y meini prawf cydnabod perthnasol (yn unol ag IAS 38).

Adolygir gwerthoedd cario asedau anniriaethol ar gyfer lleihad mewn gwerth os bydd amgylchiadau'n awgrymu na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd rhwng 3 a 20 mlynedd. Caiff oes yr asedau hyn ei hadolygu bob blwyddyn.

Asedau ar brydles

Pan gaiff asedau eu cyllido drwy drefniadau prydlesu, sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a buddiannau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar ased i'r prydlesai (prydlesau cyllidol), caiff yr asedau eu cyfalafu a'u cynnwys o dan 'eiddo, offer a chyfarpar'

gyda'r rhwymedigaeth gyfatebol i'r prydleswr yn cael ei chynnwys o dan 'rhwymedigaethau ariannol - benthyciadau'. Ymdrinnir â thaliadau prydles fel rhai sy'n cynnwys elfen o gyfalaf a thâl cyllidol, gyda'r elfen o gyfalaf yn lleihau'r rhwymedigaeth i'r prydleswr a'r tâl cyllidol yn cael ei gydnabod dros gyfnod y brydles yn seiliedig ar ei gyfradd ymhyg er mwyn rhoi cyfradd llog sefydlog ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill.

Ystyrir pob prydles arall fel prydlesau gweithredu. Codir costau rhentu o dan brydlesau gweithredu i'r datganiad incwm ar sail linol dros gyfnod y brydles.

Grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid

Mae grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid mewn perthynas â gwariant ar eiddo, offer a chyfarpar wedi cael eu gwrthbwyso yn erbyn yr asedau hyn.

Caiff grantiau mewn perthynas â gwariant referniw eu credydu i'r datganiad incwm dros yr un cyfnod â'r gwariant cysylltiedig.

Cymelldaliadau rhaglenni gwariant cyfalaf

Mae cytundebau'r grŵp â'i bartneriaid adeiladu sy'n ymwneud â chyflawni rhaglenni gwariant cyfalaf yn ymgorffori bonysau cymell sy'n daladwy ar ôl i'r rhaglenni gael eu cwblhau. Mae cost ychwanegiadau eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys cronid ar gyfer bonysau cymell a enillwyd hyd yma, mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau i raddau helaeth ar ddiwedd y flwyddyn, lle yr ystyrir ei bod yn debygol y câi cymelldaliad ei wneud. Dim ond mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau y caiff symiau y gellir eu hadennill gan bartneriaid contract o ran methu â chyflawni targedau eu cydnabod.

Symiau masnach derbyniadwy

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod ar y dechrau ar werth teg ac wedyn eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio llai darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth. Yn gyntaf, cânt eu hasesu'n unigol o ran lleihad mewn gwerth, neu ar y cyd pan na fydd y symiau derbyniadwy yn sylweddol yn

unigol. Os nad oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth ar gyfer swm derbyniadwy unigol, caiff ei gynnwys mewn grŵp o symiau derbyniadwy gyda nodweddion tebyg o ran risg credyd a'i asesu'n gyfunol ar gyfer lleihad mewn gwerth wrth heneiddio. Cofnodir symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn y datganiad incwm.

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys buddsoddiadau hylifol iawn y gellir yn hawdd eu troi'n symiau hysbys o arian parod ac nad yw eu gwerth yn debygol o newid yn sylweddol. Fel arfer mae buddsoddiadau o'r fath yn rhai sy'n aeddfedu llai na thri mis o'r dyddiad caffael ac maent fel arfer yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuo gyda banciau neu sefydliadau ariannol eraill.

Costau pensiwn**1) Cynllun buddiannau diffiniedig**

Mae'r grŵp yn gweithredu cynllun buddiannau diffiniedig a ariennir gan gyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogaion. Caiff prisiadau actiwaraid o'r cynllun eu cynnal o leiaf bob tair blynedd. Seilir cyfraddau cyfraniadau ar gyngor actiwarei proffesiynol cymwys.

Y rhwymedigaeth a gydnabyddir ar y fantolen o ran cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig yw gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig llai gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Cyfrifir y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig bob blwyddyn gan actiwarei annibynnol gan ddefnyddio dull rhagamcanu unedau credyd. Pennir gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig drwy ddisgowntio'r all-lifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol drwy ddefnyddio cyfraddau llog bondiau corfforaethol o ansawdd uchel yn yr arian cyfred y telir y buddiannau ynddo, a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn yn codi. Mewn gwledydd lle nad oes marchnad ddofn mewn bondiau o'r fath, defnyddir cyfraddau'r farchnad ar fondiau'r llywodraeth.

Caiff enillion a cholledion actiwaraid ar addasiadau oherwydd profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraid eu credydu neu eu codi ar ecwiti mewn incwm cynhwysfawr arall yn y cyfnod pan fyddant yn codi.

Caiff costau ôl-wasanaeth eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

Mae triniaeth gyfrifyddu'r grŵp wedi ei diweddu yn unol â diwygiadau i IAS 19 (gweler sail y paratoi).

2) Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae'r grŵp hefyd yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig ar gyfer y cyflogaion hynny nad ydynt yn aelodau o'r cynllun buddiannau diffiniedig. Cydnabyddir rhwymedigaethau ar gyfer cyfraniadau i'r cynllun fel traul yn y datganiad incwm yn ystod y cyfnod pan fyddant yn codi.

Mae triniaeth gyfrifyddu'r grŵp wedi ei diweddu yn unol â diwygiadau i IAS 19 (gweler sail y paratoi).

Rhwymedigaethau ariannol

Caiff dyled ei mesur i ddechrau ar werth teg, sef yr enillion net ar ôl didynnu costau dyroddi y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, ac wedyn ei mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Cydnabyddir costau dyroddi dyled yn y datganiad incwm dros dymor disgwylidig offerynnau o'r fath ar gyfradd sefydlog ar y swm cario.

Rhwymedigaethau i dalu am nwyddau/gwasanaethau a gaffaelwyd yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr yw symiau taladwy masnach. Caiff cyfrifon sy'n daladwy eu dosbarthu'n rhwymedigaethau cyfredol os oes taliad yn daladwy o fewn blwyddyn, neu yn ystod cylch gweithredu arferol y busnes os yw'n hirach na hynny. Os na chânt, fe'u cyflwynir fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Offerynnau deilliadol a ddefnyddir gan y grŵp yw cyfnewidiadau o ran cyfradd llog a chwyddiant. Defnyddir offerynnau deilliadol at ddiben rhagfantoli er mwyn newid proffil risg yr amlygiadau sylfaenol presennol a geir o fewn y grŵp.

Caiff deilliadau eu cydnabod i ddechrau ac wedyn eu hailfesur ar werth teg (yn seiliedig ar ddata ar brisiau'r farchnad gan wrthbartion perthnasol). Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014, nid oedd yr un o ddeilliadau'r grŵp yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli o dan IAS 39 (2013: dim). Caiff yr offerynnau hyn eu cario ar werth teg gyda newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

Trethiant gohiriedig

Darperir treth incwm ohiriedig yn llawn, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar wahaniaethau dros dro sy'n deillio o sylfaen treth asedau a rhwymedigaethau a'u symiau cario yn y datganiadau ariannol cyfunol. Fodd bynnag, ni roddir cyfrif am y dreth incwm ohiriedig os yw'n deillio o gydnabod ased neu rhwymedigaeth i ddechrau mewn trafodyn yn hytrach nag o gyfuno busnes nad oedd, ar adeg y trafodyn, yn effeithio ar gyfrifyddu nac ar elw neu golled trethadwy. Pennir treth incwm ohiriedig gan ddefnyddio cyfraddau treth (a chyfreithiau) a gyhoeddwyd neu a gyhoeddwyd yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen ac y disgwylir iddynt fod yn gymwys pan gaiff ased y dreth incwm ohiriedig gysylltiedig ei gwireddu neu pan gaiff rhwymedigaeth y dreth incwm ohiriedig ei bodloni.

Cydnabuwyd treth incwm ohiriedig mewn perthynas ag enillion a ailfuddsoddiwyd heblaw lle yr ailfuddsoddiwyd mewn rhai asedau gweithredol y mae'r cwmni yn bwriadu eu defnyddio tan ddiwedd eu hoes economaidd ddefnyddiol. Mae'r cwmni'n rhagweld y caiff yr asedau hyn wedyn eu dileu am enillion bach iawn, neu enillion llai na'u sylfaen treth, ac felly nid oes disgwyl i unrhyw ennill taladwy godi yn y dyfodol.

Caiff asedau treth incwm ohiriedig eu cydnabod i'r graddau ei bod yn debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir defnyddio gwahaniaethau dros dro ar ei gyfer.

Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer costau ailstrwythuro, dadfeiliadau a cholledion nas yswiriwyd eu cydnabod pan fydd gan y grŵp rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau er mwyn setlo'r rhwymedigaeth; a phan fydd y swm wedi'i amcangyfrif mewn modd dibynadwy. Mae darpariaethau ailstrwythuro yn cynnwys diswyddo cyflogaion a chostau i ychwanegu at gronfeydd pensiwn. Lle mae'r grŵp yn derbyn hawliadau nad yw wedi'i yswirio rhagddynt neu lle mae elfen o'r hawliad nad oes yswiriant ar gael ar ei chyfer, gwneir darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaethau disgwylidig yn y dyfodol. Ni chydabyddir darpariaethau am golledion gweithredu yn y dyfodol.

Pan fydd nifer o rhwymedigaethau tebyg, pennir y tebygolrwydd y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried dosbarthiad y rhwymedigaethau yn gyffredinol. Cydnabyddir darpariaeth hyd yn oed os yw'r tebygolrwydd y bydd all-lif mewn perthynas ag unrhyw eitem unigol a gynhwysir yn yr un dosbarth o rhwymedigaethau yn fach.

Costau benthyca

Caiff costau benthyca cyffredinol a phenodol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu a chynhyrchu asedau sy'n meintiol, sy'n asedau y mae'n cymryd cyfnod sylweddol o amser, o reidrwydd, i baratoi ar gyfer y nod bwriadedig o'u defnyddio neu eu gwerthu, eu hychwanegu at gost y rheini nes bod yr asedau'n barod i raddau helaeth am eu defnydd bwriadedig.

Amcanion a pholisïau rheoli risg gyllido

Rheolir gweithgareddau trysorlys o fewn cyfres ffurfiol o bolisïau ac amcanion trysorlys, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r polisïau yn gwahardd yn benodol unrhyw drafodion o natur hapfasnachol a'r defnydd o offerynnau ariannol cymhleth. Caiff polisïau manwl penodol ar gyfer rheoli cyfradd llog, arian cyfred a risg chwyddiant a risg rheoli hylifedd eu cymeradwyo gan y Bwrdd a dim ond gyda

chaniatâd Ymddiriedolwr Sicrwydd Dŵr Cymru Cyfyngedig y gellir eu newid. Caiff y risg ei lliniaru ymhellach drwy gyfyngu ar yr amlygiad i unrhyw wrthbarti penodol. Mae'r grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi arian ac i reoli risg weithredol; yn bennaf, mae'r offerynnau hyn yn cynnwys bondiau a restrwyd, prydlesau cyllidol, cyfleusterau benthyciadau banc a deilliannau.

Y risg o ran credyd

Mae gan y grŵp bolisi doeth ar gyfer buddsoddi arian parod ac adneuo banc byrdymor, a nodwyd gan y ddogfennaeth bondiau yn y Cytundeb Telerau Cyffredin. Gellir gosod adneuo am hyd at flwyddyn gyda gwrthbartion sydd â gradd fyrdymor o A1/P1/F1 o leiaf gan Standard & Poor's, Moody's a Fitch Ratings yn y drefn honno. Dylid gosod adneuo am dros flwyddyn gyda gwrthbartion â gradd o AA-/Aa3/AA- o leiaf.

Yn ymarferol, yn yr amgylchedd economaidd sydd ohoni, mae'r grŵp wedi mabwysiadu dull mwy darbodus o reoli arian parod a gosodir adneuo am uchafswm o dri mis gyda banciau yn amodol ar feini prawf o radd fyrdymor o A1/P1/F1 o leiaf. Dim ond gydag uwchfanciau cenedlaethol gradd AAA penodol y gellir gosod bondiau a phryniannau papur masnachol o hyd at flwyddyn. Yr uchafswm buddsoddiad arian parod gyda gwrthbarti unigol oedd £25m (2013: £60m).

Y risg o ran cyfraddau llog

Mae'r grŵp yn rhagfantoli o leiaf 85% o'i holl rhwymedigaethau ariannol sydd heb eu bodloni, gan gynnwys prydlesau cyllidol, naill ai'n rhwymedigaethau mynegrifol neu'n rhwymedigaethau cyfradd sefydlog. At y diben hwn, caiff rhwymedigaethau llog cyfradd gyfnewidiol eu rhagfantoli drwy gyfuniad o offerynnau deilliadol a balansau arian parod. Mae'r fframwaith rheoleiddio, y mae referniw a gwerth asedau rheoliadol yn cael eu mynegeo yn unol ag ef, hefyd yn amlygu'r grŵp i risg o chwyddiant. Felly, yn amodol ar gyfyngiadau'r farchnad a chymeradwyaeth y Bwrdd, gallai'r grŵp geisio codi dyled newydd drwy offerynnau mynegrifol neu lunio trafodion rhagfantoli priodol.

Mae'r grŵp yn dadansoddi ei amlygiad i gyfraddau llog ar sail ddynamig. Caiff gwahanol senarios eu hefelychu gan ystyried ailgyllido, adnewyddu'r safleoedd presennol, cyllido amgen a rhagfantoli. O gyfanswm y benthyciadau o £2,910m ar 31 Mawrth 2014 (2013: £2,895m), nid oedd dim yn ymwneud â dyled cyfradd gyfnewidiol (2013: dim). Felly, mae'r grŵp yn ystyried bod ei amlygiad cyffredinol i gyfraddau llog ar ddyddiad y fantolen mor fach â phosibl.

Ar 31 Mawrth 2014, roedd 100% (2013: 100%) o ddyled gros y grŵp ar gyfraddau llog sefydlog neu fynegrifol ('RPI') ar ôl ystyried cyfnewidiadau mewn cyfraddau llog ac RPI. Mae'r 'rhagfantolion' a sefydlwyd i reoli risgiau o ran cyfraddau llog yn economaidd o ran natur, ond nid ydynt yn bodloni gofynion penodol IAS 39 er mwyn cael eu trin fel rhagfantolion at ddibenion cyfrifyddu. Yn unol â hynny, adlewyrchir pob symudiad yng ngwerth teg offerynnau ariannol deilliadol yn y datganiad incwm. Mae hyn wedi arwain at rwymedigaeth net o £265m ar y fantolen ar 31 Mawrth 2014 (2013: £359m) ond, gan dybio bod y cyfnewidiadau wedi eu dal nes eu bod yn aeddfedu, bydd hyn yn lleihau i ddim yn y pen draw.

Rhagfantolion pris pŵer

Mae'r cwmni yn llunio contractau sy'n pennu pris cyfran o bryniannau pŵer yn y dyfodol er mwyn lleddfu effaith amrywiannau mewn prisiau pŵer. Mae'r cwmni wedi blaen-brynu tua 70% o ofyniad pŵer tybiedig y busnes dros weddill y cyfnod rheoliadol hyd at 31 Mawrth 2015. Nid yw'r contractau hyn yn gymwys fel offerynnau ariannol o dan IAS 39 nac fel contractau rhwymedigaethau o dan IAS 37 ac, o ganlyniad, ni chânt eu cynnwys yn y datganiadau ariannol nes bod y contractau yn effeithiol.

Ailgyllido risg

Caiff y broses o ailgyllido risg ei rheoli drwy gadw cydbwysedd rhwng parhad cyllid a hyblygrwydd drwy'r defnydd o fenthyciadau ar draws amrywiaeth o offerynnau, mathau a dyddiadau aeddfedu. Polisi'r grŵp yw sicrhau nad yw'r proffil aeddfedrwydd yn rhoi straen gormodol ar ei allu i ad-dalu

benthyciadau. O dan y polisi hwn, ni all mwy nag 20% o brifswm benthyciadau'r grŵp o £2,910m (2013: £2,895m) fod yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o 24 mis.

Y risg o ran hylifedd

Mae'r grŵp yn cynnal cyfleusterau bancio penodol er mwyn cael hyblygrwydd wrth reoli ei hylifedd.

O dan y Cytundeb Telerau Cyffredin sy'n rheoli rhwymedigaethau i ddeiliaid bond a chredydwy'r ariannol eraill, mae'n ofynnol i'r grŵp sicrhau bod arian parod ar gael i ariannu gweithrediadau am 12 mis. Ar 31 Mawrth 2014, roedd y grŵp wedi ymrwymo cyfleusterau benthycia nas hawliwyd o £140m (2013: £215m) ac arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod (ac eithrio cyfrif taliadau gwasanaeth dyledion) o £73m (2013: £98m).

Mae gan y grŵp gyfleusterau credyd cylchdro gwerth £140m â grŵp o chwe banc. Bydd £30m o'r cyfleusterau hyn yn dod i ben ym mis Mai 2014, bydd £20m ar gael i'w ddefnyddio tan fis Mai 2016 a bydd £90m ar gael tan fis Mai 2017. Ceir cyfleuster gorddrafft o £10m hefyd (2013: £10m).

Ar 31 Mawrth 2014 hefyd roedd cyfleuster hylifedd arbennig o £135m (2013: £135m); mae angen hyn er mwyn bodloni rhwymedigaethau o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal, os bydd y grŵp yn methu â chyflawni cyfmodau cyllido dyled. Gellir adnewyddu'r cyfleuster yn flynyddol.

Risg cyfalaf

Amcan y grŵp wrth reoli cyfalaf yw diogelu ei allu i barhau fel busnes gweithredol. O ystyried yr amgylchedd rheoleiddio y mae'r grŵp yn gweithredu ynddo, mae'r grŵp yn monitro cyfalaf ar sail y gymhareb gerio. Cyfrifir hyn fel dyled net (fel y'i diffiniwyd yng nghyfmodau benthycia'r grŵp) fel cyfran o'i Gwerth Cyfalaf Rheoliadol (RCV) fel y'i cysylltir â symudiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu ac fel y'i pennwyd gan Ofwat. Ar 31 Mawrth 2014 roedd gerio yn 63%.

Mewn perthynas â'r risgiau a nodir uchod, darperir datgeliadau meintiol eraill yn nodyn 15.

Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio ag IFRS mae angen defnyddio amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau o asedau a rhwymedigaethau a nodir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau o reffeniw a threuliau a nodir yn ystod cyfnod yr adroddiad. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar wybodaeth rheolwyr am y swm, digwyddiad neu gamau gweithredu hyd y gellir, gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny yn y pen draw.

Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy

Cyfrifir colledion unigol oherwydd lleihad mewn gwerth ar ddyledion cwsmeriaid ar sail asesiad unigol o'r llifau arian parod a ddisgwylir. Cyfrifir colledion ar y cyd oherwydd lleihad mewn gwerth ar symiau derbyniadwy gyda risg credyd debyg gan ddefnyddio model ystadegol. Y dybiaeth allweddol yn y model yw'r tebygolrwydd o fethu ag adennill symiau pan fyddant yn ôl-ddyledus.

Pennir y tebygolrwydd o fethu ag adennill symiau gan brofiad yn y gorffennol, wedi'i addasu ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol. Felly byddai newidiadau annisgwyl yn y sefyllfa economaidd, ac yn ymddygiad cwsmeriaid, yn effeithio ar gywirdeb cyfrifiadau o leihad mewn gwerth. I'r graddau y mae'r methiant i adennill ôl-ddyledion yn newid 1%, byddai'r ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn cynyddu neu'n gostwng £0.7 miliwn (2013: £0.6 miliwn).

Buddiannau pensiwn

Mae gwerth presennol y rhwymedigaethau pensiwn yn dibynnu ar y cyfrifiad actiaraidd, sy'n cynnwys nifer o dybiaethau. Mae'r tybiaethau hyn yn cynnwys y gyfradd ddisgowntio, a ddefnyddir i gyfrifo gwerth presennol yr all-lifau arian parod amcangyfrifedig y bydd eu hangen yn y dyfodol i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn.

Wrth bennu'r gyfradd ddisgowntio sydd i'w defnyddio, mae'r grŵp yn ystyried arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o safon, wedi'u mynegi mewn sterling, a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn yn codi. Pe bai'r gyfradd ddisgowntio hon yn gostwng neu'n cynyddu 0.1%, byddai gwerth cario'r rhwymedigaethau pensiwn ar 31 Mawrth 2014 yn cynyddu neu'n lleihau £6.8 miliwn (2013: £8.0 miliwn).

Croniad incwm a fesurwyd

Mae reffeniw yn cynnwys croniad ar gyfer taliadau nas biliwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Amcangyfrifir y cronid drwy ddefnyddio methodoleg ddiffiniedig yn seiliedig ar y defnydd cyfartalog, wedi'i bwysoli o ddŵr yn ôl tariff, a gyfrifir ar sail gwybodaeth filio hanesyddol wedi'i haddasu ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol, megis y tywydd. Roedd cyfanswm y cronid ar 31 Mawrth 2014 yn £64.2 miliwn (2013: £65.9 miliwn). Byddai newid o 1% mewn defnydd gwirioneddol o'r hyn a amcangyfrifwyd yn cynyddu neu'n lleihau'r cronid £0.7 miliwn (2013: £0.7 miliwn).

Amcangyfrif gwerth teg

Yn unol ag IFRS 13 Mesur Gwerth Teg caiff deilliadau masnachu a thrysorlys y grŵp eu categorioedd mewn lefelau gwahanol:

Lefel 1: Prisiau a restrir (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rhwymedigaethau union debyg.

Lefel 2: Mewnbynau heblaw am y prisiau a restrir a gynhwysir yn Lefel 1 sy'n ganfyddadwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol (hynny yw, fel prisiau) neu'n anuniongyrchol (hynny yw, yn deillio o brisiau).

Lefel 3: Mewnbynau ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth nad ydynt yn seiliedig ar ddata marchnad canfyddadwy (hynny yw, mewnbynau nad ydynt yn ganfyddadwy).

Caiff holl ddeilliadau masnachu a thrysorlys y grŵp eu categorioedd ar Lefel 2 ac ar 31 Mawrth 2014 fe'u prisiwyd fel a ganlyn:

Asedau: Deilliadau masnachu £0.0m, deilliadau'r trysorlys £3.7m. (Mawrth 2013: Deilliadau masnachu £0.8m, deilliadau'r trysorlys £4.4m)

Rhwymedigaethau: Deilliadau masnachu £7.7m, Deilliadau'r trysorlys £268.6m. (Mawrth 2013: Deilliadau masnachu £1.9m, Deilliadau'r trysorlys £363.6m).

Mae deilliadau masnachu yn ymwneud â rhagfantoli prisiau pŵer ac ni chânt eu cofnodi ar y fantolen. Mae deilliadau'r trysorlys yn ymwneud â contractau cyfnewidiadau cyfradd llog ac fe'u cofnodir ar y fantolen ar werth teg. Mae'r rhain i gyd wedi cael eu hasesu ar Lefel 2.

Mae contractau rhagfantoli prisiau pŵer wedi cael eu prisio ar werth teg gan ddefnyddio cyfraddau a restrir mewn marchnad weithredol. Tra bod cyfnewidiadau cyfradd llog yn cael eu prisio ar werth teg gan ddefnyddio blaengyfraddau llog a dynnir o gromliniau arenillion canfyddadwy. Mae effeithiau disgowntio fel arfer yn fach ar gyfer deilliadau Lefel 2.

Caiff buddsoddiadau dyledion Lefel 2 eu prisio gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio, sy'n disgowntio'r llifau arian parod cytundebol gan ddefnyddio cyfraddau disgownt sy'n deillio o brisiau canfyddadwy'r farchnad o offerynnau dyledion eraill a restrir y gwrthbartion.

Ni fu unrhyw drosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2 yn ystod y flwyddyn.

2 GWYBODAETH SEGMENTOL

Mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn mai dim ond un segment gweithredu sydd, sef gweithredu'r busnes dŵr a charthffosiaeth yn y DU. Gan mai dim ond gweithgareddau domestig sydd gan y grŵp dim ond un segment daearyddol sydd; felly, mae'r datgeliadau ar gyfer y segment hwn eisoes wedi'u rhoi yn y datganiadau ariannol hyn.

3 ELW/(COLLED) CYN TRETHIANT

Mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r elw/(colled) cyn trethiant:

	2014 £m	Grŵp Fel yr ailldatganwyd 2013 £m
Taliadau gweithredu		
- Pŵer	42.6	38.8
- Cemegion	8.6	8.4
- Deunyddiau a chyfarpar	5.1	2.8
- Cerbydau ac offer	7.7	9.8
- Treuliau swyddfa	6.3	6.1
- Costau eiddo	4.4	4.1
- Yswiriant	5.6	7.2
- Contractwyr carthffosiaeth	19.4	19.3
- Contract gwasanaethau cwsmeriaid	-	5.7
- Gwasanaethau labordai a dadansoddi	1.1	3.2
- Comisiynau casglu	4.0	3.9
- Contractau TG	21.8	20.4
- Gwasanaethau a gaiff eu prynu a chostau eraill	24.7	26.7
	151.3	156.4
Costau cyflogeion (nodyn 19)	113.7	104.2
Costau staff wedi'u cyfalafu	(43.5)	(35.9)
	70.2	68.3
Gwariant ar ymchwil a datblygu	0.4	0.5
Lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy	28.5	27.4
Ardrethi	29.7	29.3
Taliadau Asiantaeth yr Amgylchedd	16.0	15.6
Ffioedd sy'n daladwy i archwilydwr	0.3	0.2
Cyfanswm y gwariant gweithredol	296.4	297.7
Gwariant ar adnewyddu seilwaith	71.8	79.4
Dibrisiant ac amorteiddiad		
- Asedau a berchenogir	118.0	112.0
- O dan brydlesau cyllidol	33.9	33.9
- Amorteiddio asedau anniriaethol	12.5	13.0
- Elw o waredu eiddo, offer a chyfarpar	(0.7)	(0.2)
	163.7	158.7
	531.9	533.1

Caiff ffigur cymharol y flwyddyn flaenorol ei ailldatgan o ganlyniad i'r diwygiadau i IAS 19 lle mae angen newid i gyfrifiadau'r gost llog mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 1.

Gwasanaethau a ddarperir gan archwilwyr y grŵp

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y grŵp y gwasanaethau canlynol gan ei archwilwyr statudol:

	2014 £000	Grŵp 2013 £000
Ffioedd archwilio		
Archwiliad o'r rhiant-gwmni a'r datganiadau ariannol cyfunol	13	12
Archwiliad o'r is-gwmnïau	91	87
Cyfanswm y ffioedd archwilio statudol	104	99
Gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio		
Adolygiad o'r datganiadau ariannol interim	23	23
Gwasanaethau archwilio rheoliadol yn unol â deddfwriaeth	28	41
Gwaith sicrwydd adolygu prisiau rheoliadol	49	–
Adolygiadau adroddiadau buddsoddwyr	8	8
Cyfanswm y gwasanaethau archwilio a gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio	212	171
Gwasanaethau eraill		
Gwaith sicrwydd prosiect systemau bilio newydd	74	
Arall	27	24
Cyfanswm y gwasanaethau eraill	101	24
Cyfanswm cost gwasanaethau a ddarperir gan archwilwyr y grŵp	313	195

Mae gwasanaethau archwilio rheoliadol yn cynnwys gwaith archwilio ar y Cyfrifon Rheoliadol a'r Prif Ddatganiad.

Yn ogystal â'r gwasanaethau uchod, gweithredodd PricewaterhouseCoopers LLP fel archwilwyr Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Cytunir ar benodiad archwilwyr y cynllun pensiwn a'r ffioedd i'w talu mewn perthynas â'r archwiliad gan ymddiriedolwyr y cynllun, sy'n gweithredu'n annibynnol ar reolwyr y grŵp. Y ffioedd a dalwyd mewn perthynas â gwasanaethau archwilio i'r cynllun pensiwn yn ystod y flwyddyn oedd £18,000 (2013: £13,000).

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu polisi ffurfiol mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd gan archwilwyr allanol. Ni chaiff yr archwilwyr allanol eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol a bydd gwaith nad yw'n waith archwilio sy'n uwch na throthwy o £25,000 yn destun proses dendro gystadleuol a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ymlaen llaw.

4 COSTAU CYLLIDO

a) Cost cyllido cyn enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol

	2014 £m	Grŵp 2013 £m
Llog sy'n daladwy ar fondiau	(86.3)	(85.1)
Mynegeo ar fondiau mynegrifol	(38.5)	(38.9)
Llog sy'n daladwy ar brydlesau cyllidol (gan gynnwys cyfnewidiadau i RPI)	(27.7)	(28.1)
Llog benthychiadau eraill	(12.3)	(12.1)
Llog arall sy'n daladwy a chostau cyllid	(2.4)	(2.2)
Llog net a gredydir/(a godir) ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	(1.3)	(1.5)
Elw cyfrifyddu adeg terfynu prydles	–	20.1
Cyfalafu costau benthyca o dan IAS 23 (2014: 5.7%; 2013: 4.9%)	7.9	6.5
	(160.6)	(141.3)
Incwm cyllid	6.3	7.0
Incwm cyllid net cyn addasiadau gwerth teg	(154.3)	(134.3)

b) Enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd er nad ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu o dan IAS 39. O ganlyniad, mae cyfnewidiadau cyfraddau llog a chyfnewidiadau mynegrifol y grŵp wedi'u pennu ar werth teg ar ddyddiad pob mantolen gyda'r golled neu elw net wedi eu datgelu yn y datganiad incwm. Yn ystod oes y cyfnewidiadau hyn, os y'u delir nes iddynt aeddfedu, bydd yr addasiadau gwerth teg hyn yn cael eu gwrthdroi ac yn gostwng i ddim. (Gweler nodyn 14 mewn perthynas ag offerynnau ariannol deilliadol a ddelir ar y fantolen).

	2014 £m	Grŵp 2013 £m
Enillion/(colledion) gwerth teg ar gyfnewidiadau cyfradd llog	22.6	(12.5)
Enillion/(colledion) gwerth teg ar gyfnewidiadau mynegrifol	71.6	(48.7)
Cyfanswm colledion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	94.2	(61.2)

Achosir symudiadau ar gyfnewidiadau cyfradd llog gan amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewidiadau hirdymor, ac achosir symudiadau ar gyfnewidiadau mynegrifol gan amrywiadau yng ngwerth giliau mynegrifol mewn LIBOR 3-mis.

5 TRETHIANT

Dadansoddiad o'r credyd yn ystod y flwyddyn

	2014 £m	Grŵp 2013 £m
Treth gyfredol		
- Treth gyfredol ar yr elw am y flwyddyn	0.9	-
- Addasiad mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	1.5	0.4
Cyfanswm y dreth gyfredol	2.4	0.4
Treth ohiriedig		
- Cychwyn a gwrthdroi gwahaniaethau amseru	(39.9)	2.4
- Addasiad mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol	6.3	(0.6)
- Effaith newid yn y gyfradd dreth	36.2	10.7
Cyfanswm treth ohiriedig (nodyn 6)	2.6	12.5
Credyd trethiant	5.0	12.9
Dadansoddir fel a ganlyn:		
Credyd i'r Datganiad Incwm	10.8	13.8
Tâl a godwyd ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr	(5.8)	(0.9)
	5.0	12.9

Mae'r colledion masnachu treth a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2014 tua £300m (2013: tua £400m).

Mae'r gyfradd dreth weithredol ar gyfer y flwyddyn yn is (2013: yn is) na'r gyfradd treth gorfforaeth safonol yn y DU (2014: 23%, 2013: 24%). Esbonnir y gwahaniaethau isod:

	2014 £m	Grŵp 2013 £m
Elw/(colled) cyn treth	144.5	(12.2)
Elw/(colled) cyn treth wedi'i lluosu â'r gyfradd treth gorfforaeth yn y DU sef 23% (2013: 24%)	33.2	(2.9)
Effaith:		
- Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	(7.8)	0.2
- Gwahaniaethau parhaol eraill	(0.2)	(0.2)
- Effaith newidiadau yn y gyfradd dreth	(36.0)	(10.9)
- Symudiad ar ased treth ohiriedig mewn perthynas â'r cynllun pensiwn	5.8	0.9
Cyfanswm credyd trethiant	(5.0)	(12.9)

6 TRETH OHIRIEDIG

Cyfrifir treth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau dros dro o dan y dull rhwymedigaeth o ddefnyddio cyfradd dreth o 20% (2013: 23%).

Dangosir y symudiad yn y ddarpariaeth treth ohiriedig isod:

	2014 £m	Grŵp 2013 £m
Ar 1 Ebrill	243.9	256.4
Credyd i'r Datganiad Incwm	(8.4)	(13.4)
Tâl a godwyd ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr	5.8	0.9
Ar 31 Mawrth	241.3	243.9

	2014 £m	Grŵp 2013 £m
Effaith:		
- Lwfansau treth sy'n fwy na dibrisiant	353.9	441.7
- Enillion cyfalaf a ailfuddsoddwyd	3.2	3.7
	357.1	445.4
- Treth ohiriedig ar golledion treth a gariwyd ymlaen	(61.2)	(109.3)
- Treth ohiriedig ar golledion ar offerynnau ariannol deilliadol	(53.1)	(82.9)
- Pensiynau	(0.2)	(7.4)
- Gwahaniaethau treth eraill	(1.3)	(1.9)
Darpariaeth net ar gyfer treth ohiriedig	241.3	243.9

Mae asedau treth ohiriedig wedi cael eu cydnabod mewn perthynas â phob colled treth a gwahaniaethau dros dro eraill sy'n arwain at asedau treth ohiriedig am ei bod yn debygol y caiff yr asedau hyn eu hadennill. O dan y drefn dreth gyfredol, bydd colledion treth masnachu a gariwyd ymlaen ar gael i wrthbwysio elw masnachu yn y dyfodol.

Yn Neddf Cyllid 2014 cyflwynodd y Llywodraeth ostyngiadau yng nghyfradd y dreth gorfforaeth i 21% ac 20% o 1 Ebrill 2014 ac 1 Ebrill 2015 yn y drefn honno. Defnyddiwyd y gostyngiad yng nghyfradd y dreth gorfforaeth i 20% i gyfrifo'r dreth ohiriedig yn y datganiadau ariannol hyn.

Nid oes gan y cwmni falans treth ohiriedig.

7 EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Grŵp

Blwyddyn gyfredol	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol £m	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol £m	Cyfanswm £m
Cost					
Ar 1 Ebrill 2013	35.7	1,680.3	3,117.4	238.8	5,072.2
Ychwanegiadau yn glir o grantiau a chyfraniadau	1.1	55.5	189.9	14.0	260.5
Ar 31 Mawrth 2014	36.8	1,735.8	3,307.3	252.8	5,332.7
Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2013	18.3	236.6	1,246.1	235.1	1,736.1
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.4	26.0	117.3	10.6	154.3
Ar 31 Mawrth 2014	18.7	262.6	1,363.4	245.7	1,890.4
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2014	18.1	1,473.2	1,943.9	7.1	3,442.3

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £126m mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd (2013: £140.1m).

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £28.8m o gostau benthyca wedi'u cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2013: £20.2m), yr oedd £7.2m ohonynt yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2013: £6.2m).

Ar 1 Hydref 2011, aeth Dŵr Cymru Cyfyngedig yn gyfrifol am reoli'r rhwydwaith o garthffosydd preifat yn ei ardal weithredu. Mae'r broses o drosglwyddo tua 17,000km o ddraeniau a charthffosydd preifat wedi cynyddu maint y rhwydwaith yn sylweddol. Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael i farnu cyflwr y carthffosydd hyn - ac unrhyw werth a briodolir - ond fel arfer disgwylir iddynt fod yn wael ac yn is na safon yr asedau y mae'n ofynnol i'r diwydiant yn gyffredinol weithredu yn unol â hi. O ystyried hyn, a'r ffaith nad ydynt yn creu cynnydd yng ngwerth cyfalaf rheoliadol y busnes, priodolwyd gwerth o ddim i'r asedau hyn yn y datganiadau ariannol ar 31 Mawrth 2014 (2013: dim).

Blwyddyn flaenorol	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol £m	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol £m	Cyfanswm £m
Cost					
Ar 1 Ebrill 2012	35.1	1,627.1	2,920.7	237.4	4,820.3
Ychwanegiadau yn glir o grantiau a chyfraniadau	0.6	53.2	196.7	1.4	251.9
Ar 31 Mawrth 2013	35.7	1,680.3	3,117.4	238.8	5,072.2
Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2012	17.9	212.3	1,132.8	225.4	1,588.4
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.4	24.3	113.3	9.7	147.7
Ar 31 Mawrth 2013	18.3	236.6	1,246.1	235.1	1,736.1
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2013	17.4	1,443.7	1,871.3	3.7	3,336.1

Asedau a ddelir o dan brydlesau cyllidol

Mae asedau a ddelir o dan brydlesau cyllidol wedi'u cynnwys yn yr uchod, fel y'u dadansoddir isod:

Grŵp

Blwyddyn gyfredol	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Ar 31 Mawrth 2014			
Cost	611.8	275.5	887.3
Dibrisiant cronedig	(90.2)	(155.2)	(245.4)
Gwerth llyfr net	521.6	120.3	641.9

Blwyddyn flaenorol	Infrastructure assets £m	Operational structures £m	Total £m
Ar 31 Mawrth 2013			
Cost	611.8	307.7	919.5
Dibrisiant cronedig	(82.4)	(170.0)	(252.4)
Gwerth llyfr net	529.4	137.7	667.1

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw eiddo, offer na chyfarpar.

8 ASEDAU ANNIRIAETHOL**Grŵp**

Blwyddyn gyfredol	Cost £m	Amorteiddiad £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2013	154.7	(88.6)	66.1
Ychwanegiadau/(tâl a godwyd am y flwyddyn)	30.3	(12.5)	17.8
Ar 31 Mawrth 2014	185.0	(101.1)	83.9

Blwyddyn flaenorol	Cost £m	Amorteiddiad £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2012	142.2	(75.6)	66.6
Ychwanegiadau/(tâl a godwyd am y flwyddyn)	12.5	(13.0)	(0.5)
Ar 31 Mawrth 2013	154.7	(88.6)	66.1

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol a datblygiadau system cysylltiedig.

Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £2.0m mewn perthynas ag asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (2013: £13.0m). Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £1.1m o gostau benthyca a gyfalafir yn unol ag IAS 23 (2013: £1.1m), yr oedd £0.3m ohonynt yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2013: £0.3m).

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw asedau anniriaethol.

9 BUDDSODDIADAU

(a) Grŵp

	2014	2013
	£m	£m
Cost a gwerth llyfr net		
Ar 1 Ebrill a 31 Mawrth	-	-

Delir ecwiti o lai na 10% yn y cwmni canlynol nas rhestrwyd:

	Prif weithgareddau	Gwlad corffori	Daliad
Water Research Centre (1989) plc	Ymchwil dŵr	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau Cyffredin 'B' o £1

Hefyd, mae'r grŵp yn dal 5% o Stoc Benthg Trosadwy Anwarantedig 2014 ar gost o £23,326 yn Water Research Centre (1989) plc. Adbrynwyd hyn ar 31 Mawrth 2014.

(b) Rhiant-gwmni

Mae gan y cwmni fuddsoddiad o £1 yn Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig (daliad 100%) a buddsoddiadau anuniongyrchol yn ymgymeriadau'r is-gwmnïau canlynol:

	Prif weithgareddau	Gwlad corffori	Daliad
Dŵr Cymru (Holdings) Limited	Cwmni daliannol	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru Cyfyngedig	Dŵr a charthffosiaeth	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru (Financing) Limited	Codi cyllid	Ynysoedd Cayman	100%
Welsh Water Utilities Finance plc	Segur	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru Customer Services Limited	Gwasanaethau incwm a bilio	Cymru a Lloegr	100%

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur y grŵp yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 57.

10 SYMAU MASNACH DERBYNIADWY A SYMAU DERBYNIADWY ERAILL

	2014	Grŵp	2014	Cwmni
	£m	2013	£m	2013
		£m		£m
Cyfredol				
Symiau masnach derbyniadwy	502.8	498.5	-	-
Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy	[65.9]	[61.4]	-	-
Symiau masnach derbyniadwy – net	436.9	437.1	-	-
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	67.4	72.1	-	-
Symiau derbyniadwy eraill	22.4	16.9	-	-
	526.7	526.1	-	-
Anghyfredol				
Symiau sy'n dderbyniadwy gan ymgymeriadau'r grŵp	-	-	3.4	3.4
	-	-	3.4	3.4
Cyfanswm y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	526.7	526.1	3.4	3.4

Mae pob swm derbyniadwy anghyfredol yn ddyledus o fewn pum mlynedd i ddyddiad y fantolen.

Ar 31 Mawrth 2014, yn seiliedig ar adolygiad o gyfraddau casglu hanesyddol, ystyriwyd bod gwerth £65.9m (2013: £61.4m) o symiau masnach derbyniadwy wedi lleihau mewn gwerth ac felly darparwyd ar eu cyfer (2013: £61.4m). Mae'r symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau yn ymwneud yn bennaf â chyflenwi dŵr wedi'i fesur a heb ei fesur. Mae symiau masnach derbyniadwy sy'n fwy na mis oed yn ddyledus; mae'r golofn net yn dangos symiau y tybir nad ydynt wedi lleihau mewn gwerth.

Roedd oedran symiau derbyniadwy fel a ganlyn:

Blwyddyn gyfredol	Cyfanswm	Darparwyd am	Net
Symiau masnach derbyniadwy	£m	£m	£m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	387.6	–	387.6
O dan fis	11.2	(5.3)	5.9
Rhwng un a chwe mis	27.7	(13.5)	14.2
Rhwng chwe mis a blwyddyn	25.8	(12.7)	13.1
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	27.1	(19.5)	7.6
Rhwng dwy a thair blynedd	19.1	(14.1)	5.0
Dros dair blynedd	4.3	(0.8)	3.5
	502.8	(65.9)	436.9

Blwyddyn flaenorol	Cyfanswm	Darparwyd am	Net
Symiau masnach derbyniadwy	£m	£m	£m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	389.9	–	389.9
O dan fis	16.8	(4.2)	12.6
Rhwng un a chwe mis	31.1	(13.1)	18.0
Rhwng chwe mis a blwyddyn	22.6	(9.9)	12.7
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	22.3	(18.7)	3.6
Rhwng dwy a thair blynedd	14.5	(14.2)	0.3
Dros dair blynedd	1.3	(1.3)	–
	498.5	(61.4)	437.1

Yr amlygiad uchaf i risgiau credyd ar y dyddiad adrodd yw gwerth cario pob dosbarth o symiau derbyniadwy a nodwyd uchod. Nid yw'r grŵp yn dal unrhyw warant gyfochrog fel sicrwydd.

Mae symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihau gwerth symiau masnach derbyniadwy fel a ganlyn:

	2014	2013
	£m	£m
Ar 1 Ebrill	61.4	54.6
Tâl a godir ar y Datganiad Incwm	27.9	26.7
Symiau derbyniadwy a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn fel rhai na ellir eu casglu	(23.4)	(19.9)
Ar 31 Mawrth	65.9	61.4

Mae achosion o greu a rhyddhau darpariaeth ar gyfer symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau wedi cael eu cynnwys mewn gwariant gweithredol.

Nid yw'r dosbarthiadau eraill o symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill yn cynnwys asedau y mae eu gwerth wedi lleihau. Mynegwyd pob swm masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill mewn sterling.

Yn ystod y flwyddyn mae'r grŵp wedi dileu £24.0m o ddyledion y darparwyd yn llawn ar eu cyfer (2013: £19.9m).

11 ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

	Grŵp		Cwmni	
	2014	2013	2014	2013
	£m	£m	£m	£m
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	4.8	(13.7)	0.1	0.1
Adneuon byrdymor	89.6	171.1	–	–
	94.4	157.4	0.1	0.1

Y gyfradd llog weithredol ar adneuon byrdymor ar 31 Mawrth 2014 oedd 0.5% (2013: 0.4%) ac mae gan yr adneuon hyn gyfnod aeddfedrwydd cyfartalog o 5 diwrnod (2013: 12 diwrnod). Delir yr holl arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod mewn sterling.

12 SYMIAU MASNACH TALADWY A SYMIAU TALADWY ERAILL

Cyfredol	Grŵp		Cwmni	
	2014	2013	2014	2013
	£m	£m	£m	£m
Symiau masnach taladwy	47.1	49.3	–	–
Symiau cyfalaf taladwy	30.2	33.9	–	–
Symiau sy'n ddyledus i ymgymeriadau'r grŵp	–	–	3.5	3.5
Nawdd cymdeithasol a threthi eraill	3.8	3.4	–	–
Croniadau ac incwm gohiriedig	454.4	456.0	–	–
	535.5	542.6	3.5	3.5

Anghyfredol	Grŵp		Cwmni	
	2014	2013	2014	2013
	£m	£m	£m	£m
Incwm gohiriedig	80.2	67.7	–	–

13 RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL – BENTHYCIADAU

Cyfredol	2014	Grŵp 2013
	£m	£m
Croniadau llog	0.9	51.3
Premiwm bond heb ei amorteiddio	0.6	0.6
Costau dyroddi bondiau heb eu hamorteiddio	(0.3)	(0.3)
Benthyciadau Banc Buddsoddi Ewrop	15.9	13.5
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.3	0.3
Rhwymedigaethau prydlesau cyllidol	13.2	14.3
	30.6	79.7

Anghyfredol	2014	Grŵp 2013
	£m	£m
Croniadau llog	49.2	38.5
Bondiau	1,976.8	1,938.4
Premiwm bond heb ei amorteiddio	7.9	8.4
Costau dyroddi bondiau heb eu hamorteiddio	(5.1)	(5.6)
Benthyciad Banc KfW	35.0	35.0
Benthyciadau Banc Buddsoddi Ewrop	256.6	197.5
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.8	1.0
Rhwymedigaethau prydlesau cyllidol	558.1	602.0
	2,879.3	2,815.2

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw fenthyciadau.

Rhodddwyd pecyn sicrwydd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig (DCC), fel rhan o raglen fondiau'r grŵp er budd deiliaid uwch fondiau, prydleswyr cyllidol ac uwch gredydwyr ariannol eraill.

Gwarentir rhwymedigaethau DCC gan y cwmni, Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Holdings) Limited. Prif elfennau'r pecyn sicrwydd yw:

- i) sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol cyntaf dros holl asedau ac ymgymeriadau DCC, i'r graddau a ganiateir gan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, cyfraith berthnasol arall a'i drwydded;
- ii) sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol a roddir gan y gwarantwyr y cyfeirir atynt uchod a gaiff ei gronni ar bob un o asedau'r cwmnïau hyn gan gynnwys, yn achos Dŵr Cymru (Holdings) Limited, arwystl sefydlog cyntaf dros ei gyfranddaliadau yn DCC.

Mae Bondiau Dosbarth A y grŵp o £988.8m (2013: £969.5m) yn elwa ar warant gan MBIA UK Insurance Limited ("MBIA"). Mae Moody's ac S&P wedi gostwng graddau credyd MBIA i B3 a BBB+ yn y drefn honno, ac nid yw Fitch Ratings yn rhoi gradd mwyach. Felly, mae graddau credyd y bondiau Dosbarth A wedi dychwelyd at radd sylfaenol uwch y bondiau hyn, sef A3/A/A gan Moody's, S&P a Fitch yn y drefn honno. Mae'r radd sylfaenol yn adlewyrchu ansawdd credyd y bondiau hyn ar eu pen eu hunain heb warant MBIA, a'r un yw'r radd hon â graddau credyd bondiau Dosbarth B y grŵp o £988.1m (2013: £968.9m).

14 OFFERYNNAU ARIANNOL DEILLIADOL

Delir yr holl offerynnau deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn gymwys gan fod rhagfantolion cyfrifyddu o dan symudiadau IAS 39 a symudiadau yn eu gwerth teg yn cael eu rhoi ar y Datganiad Incwm (gweler nodyn 4b). Canlyniad dull o brisio yn unol â'r farchnad a ddefnyddir gan y gwrthbartïon sy'n dyroddi yw gwerthoedd teg yr holl offerynnau ariannol deilliadol a ddelir gan y grŵp ac fel y cyfryw byddant yn cael eu cynnwys o fewn lefel 2 o'r hierarchaeth gwerth teg a nodwyd yn IFRS 7.

Grŵp - 2014	Gwerthoedd teg	
	Asedau £m	Rhwymedigaethau £m
Cyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	3.7	(21.4)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(10.9)
	3.7	(32.3)
Anghyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	-	(175.0)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(61.4)
	-	(236.4)
Cyfanswm	3.7	(268.7)

Grŵp - 2013	Gwerthoedd teg	
	Asedau £m	Rhwymedigaethau £m
Cyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	4.4	(26.5)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(11.4)
	4.4	(37.9)
Anghyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	-	(240.0)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(85.7)
	-	(325.7)
Cyfanswm	4.4	(363.6)

Yn unol ag IAS 39, 'Offerynnau ariannol: Cydnabod a Mesur', mae'r grŵp wedi adolygu pob contract ar gyfer deilliadau sefydledig y mae angen rhoi cyfrif amdanynt ar wahân os nad ydynt yn bodloni gofynion penodol a nodwyd yn y safon. Nid oes gan y grŵp unrhyw ddeilliadau sefydledig o'r fath yn unol ag IAS 39.

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw offerynnau ariannol deilliadol na deilliadau sefydledig.

Cyfnewidiadau cyfradd llog

Ar 31 Mawrth 2014 mae'r cyfnewidiad cyfradd llog yn pennu'r gyfradd llog ar £192m (2013: £192m) o rwymedigaethau cyfnewidiol a ddelir gan y grŵp. Dyddiad aeddfedu'r cyfnewidiad yw 31 Mawrth 2031 a'r gyfradd llog sefydlog LIBOR chwarterol yw 5.67%. Hefyd, cyfnewidiwyd £50m (2013: £50m) o rwymedigaethau prydlesau cyllidol o gyfradd gyfnewidiol i gyfradd sefydlog LIBOR o 3.57% tan fis Mawrth 2017. Swm tybiannol y cyfnewidiad yw £48m (2013: £50m).

Cyfnwidiadau mynegrifol**Cyfnwidiadau prydlesau cyllidol**

Effaith y cyfnwidiadau mynegrifol yw mynegriŵ'r gyfradd llog ar £436m (2013: £439m) o rwymedigaethau prydlesau cyllidol drwy gyfeirio at y Mynegai Prisiau Manwerthu ("RPI").

Swm tybiannol y cyfnwidiadau mynegrifol a ddyrannwyd i brydlesau cyllidol ar 31 Mawrth 2014 yw £440m (2013: £528m), gan gynrychioli'r balans cyfartalog ar y prydlesau cyllidol yn amodol ar gyfraddau llog cyfnwidiol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014. Mae'r swm tybiannol yn amorteiddio yn ystod oes y cyfnwidiadau i gyfateb i falansau cyfraddau cyfnwidiol cyfartalog y prydlesau.

Mae'r prif delerau fel a ganlyn:

Swm tybiannol	£440m amorteiddio (2013: £528m amorteiddio)
Aeddfedrwydd cyfnwidiad cyfartalog	23 mlynedd (2013: 24 mlynedd)
Cyfradd llog gyfartalog	1.63% sefydlog ynghyd ag RPI (2013: 1.63% sefydlog ynghyd ag RPI)

Cyfnwidiad bond

Effaith y cyfnwidiadau mynegrifol yw mynegeio'r gyfradd llog ar £100m o fondiau cyfradd sefydlog drwy gyfeirio at yr RPI.

Mae'r prif delerau fel a ganlyn:

Swm tybiannol a fynegeiwyd	£128m (2013: £124m)
Aeddfedrwydd cyfnwidiad	43 mlynedd (2013: 44 mlynedd)
Cyfradd llog	1.35% a fynegeiwyd yn ôl RPI (2013: 1.35% a fynegeiwyd yn ôl RPI)

15 RHEOLI RISG ARIANNOL

Mae polisiâu'r grŵp mewn perthynas â rheoli risg ariannol wedi'u cynnwys yn y nodyn ar bolisiau cyfrifyddu ar dudalen 95. Nodir datgeliadau rhifiadol offerynnau ariannol sy'n ofynnol o dan IFRS 7 isod.

a) Y risg o ran cyfradd llog

Roedd y cyfraddau llog a oedd yn weithredol ar ddyddiadau'r fantolen fel a ganlyn:

	2014	2013
Asedau:		
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	0.5%	0.4%
Rhwymedigaethau:		
Bondiau	5.2%	5.1%
Benthyciadau Banc Buddsoddi Ewrop	1.1%	1.0%
Benthyciad KfW	1.2%	1.2%
Benthyciadau awdurdodau lleol	5.0%	6.0%
Rhwymedigaethau prydlesau cyllidol	1.0%	1.2%

Nid yw symiau masnach derbyniadwy a thaladwy na symiau derbyniadwy a thaladwy eraill yn dwyn llog.

Mae'r cyfraddau llog gweithredol yn anwybyddu effaith y cyfnwidiadau cyfradd llog a mynegrifol a nodir yn nodyn 14. Nid ydynt yn cynnwys y tâl mynegeio sy'n gymwys i fondiau mynegrifol ychwaith.

b) Y risg o ran hylifedd

Grŵp - 2014	O fewn blwyddyn £m	1-2 flynedd £m	2-5 mlynedd £m	>5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	94.4	–	–	–	94.4
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	526.7	–	–	–	526.7
	621.1	–	–	–	621.1
Rhwymedigaethau:					
Bondiau	0.6	0.6	0.6	1,983.5	1,985.3
Benthyciad Banc KfW	–	–	35.0	–	35.0
Benthyciadau Banc Buddsoddi Ewrop	15.9	11.6	92.6	152.4	272.5
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.3	0.3	0.5	–	1.1
Rhwymedigaethau prydlesau cyllidol	13.2	14.2	86.9	456.9	571.2
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	535.5	1.8	4.9	73.7	615.9
	565.5	28.5	220.5	2,666.5	3,481.0

Grŵp - 2013	O fewn blwyddyn £m	1 - 2 flynedd £m	2 - 5 mlynedd £m	>5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	157.4	–	–	–	157.4
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	454.0	–	–	–	454.0
	611.4	–	–	–	611.4
Rhwymedigaethau:					
Bondiau	0.6	0.7	1.8	1,944.3	1,947.4
Benthyciad Banc KfW	–	–	35.0	–	35.0
Benthyciadau Banc Buddsoddi Ewrop	13.5	15.9	53.5	128.1	211.0
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.3	0.3	0.5	0.2	1.3
Rhwymedigaethau prydlesau cyllidol	14.3	43.3	83.8	474.9	616.3
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	505.3	1.8	4.7	61.2	150.9
	571.3	59.6	173.7	2,616.7	3,420.5

Mae'r taliadau prydlesau gofynnol o dan brydlesau cyllidol yn ddyledus fel a ganlyn:

	2014 £m	2013 £m
Rhwymedigaethau prydlesau cyllidol gros		
O fewn blwyddyn	18.9	21.1
Rhwng dwy a phum mlynedd	123.4	153.9
Ar ôl pum mlynedd	514.2	542.4
	656.5	717.4
Llog yn y dyfodol	(85.3)	(101.1)
Rhwymedigaethau prydlesau cyllidol net	571.2	616.3

Mae rhwymedigaethau prydlesau cyllidol net yn ad-daladwy fel a ganlyn:

O fewn blwyddyn (nodyn 14)	13.2	14.3
Rhwng dwy a phum mlynedd	101.1	127.1
Ar ôl pum mlynedd	456.9	474.9
Cyfanswm dros flwyddyn (nodyn 14)	558.0	602.0

c) Gwerthoedd teg

Nodir gwerthoedd teg offerynnau ariannol deilliadol y grŵp yn nodyn 14. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwerth teg a gwerth llyfr bondiau'r grŵp.

		2014		2013
	Gwerth llyfr £m	Gwerth teg £m	Gwerth llyfr £m	Gwerth teg £m
Bondiau (nodyn 14)	1,985.3	2,168.9	1,947.4	2,498.7

Mae gwerthoedd teg yr holl offerynnau ariannol eraill yn hafal i'r gwerthoedd llyfr.

ch) Cyfleusterau benthyca

Ar 31 Mawrth 2014, roedd gan y grŵp gyfleusterau benthyca ymrwymedig nas hawliwyd o £140m a oedd yn dod i ben fel y nodir isod, ac roedd pob amod blaenorol mewn perthynas â hwy wedi cael ei fodloni (2013: £215m).

	2014 £m	2013 £m
Yn dod i ben ymhen llai na blwyddyn:		
- cyfleuster cyfnod benthyciad	-	75
- cyfleusterau credyd cylchdro	30	-
Yn dod i ben ymhen mwy na blwyddyn:		
- cyfleusterau credyd cylchdro	110	140
	140	215

Mae gan Dŵr Cymru Cyfyngedig gyfleuster gorddrafft o £10 miliwn hefyd sy'n adnewyddadwy bob blwyddyn.

Ar 16 Rhagfyr 2013 hawliodd y grŵp y cyfleuster benthyg o £75m a oedd yn weddill gyda chyfleuster Banc Buddsoddi Ewrop.

Mae gan y grŵp £140 miliwn o gyfleusterau credyd cylchdro, a daw £30 miliwn ohono i ben ym mis Mai 2014. Mae £20 miliwn ar gael i'w hawlio hyd at fis Mai 2016 a £90 miliwn ar gael hyd at fis Mai 2017.

Ar 31 Mawrth 2014, roedd gan Dŵr Cymru (Financing) Limited gyfleuster hylifedd arbennig o £135m (2013: £135m) y mae'n ofynnol iddo ei gadw er mwyn bodloni rhai rhwymedigaethau grŵp o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu'r grŵp, os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal. Byddai cyfnod atal yn digwydd pe bai Dŵr Cymru Cyfyngedig yn methu â bodloni ei gyfamodau cyllido dyled. Ni fethwyd â bodloni unrhyw gyfamod o'r fath yn ystod y flwyddyn. Gellir adnewyddu'r cyfleuster yn flynyddol.

Telir cyfraddau llog cyfnewidiol ar yr holl gyfleusterau uchod.

d) Rheoli risg cyfalaf**Cymarebau gerio**

	2014 £m	2013 £m
Cyfanswm benthyciadau	(2,909)	(2,895)
Llai: arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	94	157
Dyled net	(2,815)	(2,738)
Gwerth cyfalaf rheoliadol (RCV)	4,468	4,344
Cyfanswm cyfalaf	1,653	1,606
Llai: costau bondiau heb eu hamorteiddio	(5)	(6)
Cyfanswm cyfalaf fesul cyfamodau bond	1,648	1,600
Cymhareb gerio	63%	63%

Fel y nodwyd ar dudalen 96, mae'r grŵp yn monitro ei strwythur cyfalaf yn seiliedig ar gymhareb gerio rheoliadol sy'n cymharu ei ddyled net â gwerth cyfalaf rheoliadol (RCV) a bennwyd gan Ofwat.

16 DARPARIAETHAU

	Darpariaeth ailstrwythuro £m	Darpariaeth dadfeiliadau £m	Darpariaeth ar gyfer colled anyswiriedig £m	Darpariaethau eraill £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2013	7.0	2.1	7.2	4.3	20.6
Codwyd ar y datganiad incwm	–	0.1	1.0	0.2	1.3
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(3.9)	–	(1.6)	(1.5)	(7.0)
Ar 31 Mawrth 2014	3.1	2.2	6.6	3.0	14.9
Wedi'u rhannu fel a ganlyn:					
Symiau i'w defnyddio o fewn blwyddyn	3.1	–	–	1.5	4.6
Symiau i'w defnyddio ar ôl mwy na blwyddyn	–	2.2	6.6	1.5	10.3
Ar 31 Mawrth 2014	3.1	2.2	6.6	3.0	14.9

Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw ddarpariaethau ar 31 Mawrth 2014 (2013: £dim).

Darpariaeth ailstrwythuro

Mae hyn yn darparu ar gyfer costau terfynu'r contractau allanol gydag United Utilities Operational Services a Kelda Water Services yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 ynghyd â'r costau ailstrwythuro amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â chwtogi nifer y staff tua 300.

Darpariaeth dadfeiliadau

Mae'r ddarpariaeth hon mewn perthynas â chostau dadfeiliadau amcangyfrifedig, yr eir iddynt dros y pum mlynedd nesaf.

Darpariaeth ar gyfer colled anysuiriedig

Mae'r ddarpariaeth hon mewn perthynas â cholledion anysuiriedig a lle nad yw'r yswiriant yn cwmpasu swm didynadwy. Mae'r cyfnod defnyddio ar gyfer y rhwymedigaethau hyn yn ansicr oherwydd natur yr hawliadau, ond amcangyfrifir mai cyfnod o bum mlynedd ydyw.

Darpariaethau eraill

Gwneir darpariaethau eraill ar gyfer rhwymedigaethau penodol eraill sy'n codi fel rhan o fusnes arferol y grŵp.

17 MEWNLIF ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

a) Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau

Cysoni elw gweithredu ag arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau:

	2014 £m	Grŵp 2013 £m
Elw gweithredu	204.6	183.3
Addasiadau ar gyfer:		
- Dibrisio ac amorteiddio	163.7	158.7
- Newidiadau mewn cyfalaf gwaith:		
Cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	(0.5)	(18.8)
Cynnydd yn y rhestr eiddo	(0.7)	(0.7)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	(3.2)	1.7
Cyfraniadau pensiwn (uwchben)/islaw cost gwasanaeth	(10.0)	1.6
(Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau	(2.1)	0.2
	(16.5)	(16.0)
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	351.8	326.0

b) Llog a dalwyd

	2014 £m	Grŵp 2013 £m
Llog sy'n daladwy fesul datganiad incwm	160.6	141.3
Llai eitemau anariannol:		
- Mynegeo ar fondiau mynegrifol	(38.5)	(38.9)
- Amorteiddio costau dyroddi bondiau	(0.3)	(0.3)
- Llog a godir ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	(1.3)	(1.5)
- Amorteiddio premiwm dyroddi bondiau	0.6	0.6
Effaith cyfalafu o dan IAS 23	7.9	6.5
- Elw cyfrifyddu adeg terfynu prydles	-	14.4
- Gostyngiad mewn croniadau	45.7	2.4
	14.1	(16.8)
Llog a dalwyd	174.7	124.5

18 DADANSODDI A CHYSONI DYLED NET**a) Gellir dadansoddi dyled net ar ddyddiad y fantolen fel:**

	Grŵp		Cwmni	
	2014 £m	2013 £m	2014 £m	2013 £m
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	94.4	157.4	0.1	0.1
Dyled sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	(2,272.1)	(2,174.7)	-	-
Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(16.5)	(14.1)	-	-
Prydlesau cyllidol	(571.2)	(616.3)	-	-
Llog cronedig	(50.1)	(89.8)	-	-
	(2,909.9)	(2,894.9)	-	-
(Dyled)/arian parod net	(2,815.5)	(2,737.5)	0.1	0.1

b) Gellir crynhoi'r symudiad mewn dyled net yn ystod y flwyddyn fel:

	Grŵp		Cwmni	
	2014 £m	2013 £m	2014 £m	2013 £m
(Dyled)/arian parod net ar ddechrau'r flwyddyn	(2,737.5)	(2,689.6)	0.1	0.1
Symudiad mewn arian parod net	(63.0)	(143.1)	-	-
Symudiad mewn dyled sy'n deillio o lifau arian parod	(21.9)	117.4	-	-
Symudiad mewn dyled net sy'n deillio o lifau arian parod	(84.9)	(25.7)	-	-
Symudiad mewn llog cronedig	39.7	2.4	-	-
Mynegeo dyled fynegrifol	(38.5)	(38.9)	-	-
Elw cyfrifyddu adeg terfynu prydles	-	14.4	-	-
Symudiadau anariannol eraill	5.7	(0.1)	-	-
Symudiad mewn dyled net yn ystod y flwyddyn	(78.0)	(47.9)	-	-
(Dyled)/arian parod net ar ddiwedd y flwyddyn	(2,815.5)	(2,737.5)	0.1	0.1

19 CYFLOGEION A CHYFARWYDDWYR

Costau staff ar gyfer y grŵp yn ystod y flwyddyn

	2014 £m	Fel yr ailldatganwyd 2013 £m
Cyflogau	98.0	82.5
Costau nawdd cymdeithasol	8.1	7.0
Costau pensiwn eraill	7.6	14.7
	113.7	104.2

O'r uchod, mae £43.5m (2013: £35.9m) wedi'i gyfartaledd.

Nifer y bobl a gyflogir gan y grŵp bob mis ar gyfartaledd (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol)	2014 Nifer	2013 Nifer
Gweithgareddau dŵr a charthffosiaeth wedi'u rheoleiddio	2,871	2,617

20 YMRWYMIADAU PENSIWN

Mae'r grŵp yn gweithredu cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ariennir ar gyfer cyflogeion cyfredol (yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol a gwasanaeth pensiynadwy), sef Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Mae asedau'r cynllun wedi'u dal mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Caewyd Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru i aelodau newydd o 31 Rhagfyr 2005 a chyflwynwyd cynllun cyfraniadau diffiniedig newydd, sef Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig Dŵr Cymru, o 1 Ionawr 2006.

Cynllun buddiannau diffiniedig

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2013 gan Joanne Eynon o Quantum Advisory, actiwari proffesiynol cymwysedig annibynnol, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Diweddarwyd y prisiad hwn ar 31 Mawrth 2014 a'r prif dybiaethau a wnaed gan yr actiwariad oedd:

	2014	2013
Cyfradd ddisgowntio	4.4%	4.5%
Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant	3.4%	3.2%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau pensiynadwy	2.3%	3.2%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu	3.2%	3.1%
Marwoldeb ar ôl ymddeol (disgwyliad oes):		
- Pensiynwyr cyfredol 65 oed – dynion	87.1 blwyddyn	86.9 blwyddyn
- Pensiynwyr cyfredol 65 oed – menywod	89.3 blwyddyn	89.6 blwyddyn
- Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) – dynion	88.4 blwyddyn	89.8 blwyddyn
- Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) – menywod	90.8 blwyddyn	92.5 blwyddyn

Mae tybiaethau ynglŷn â marwoldeb ar ôl ymddeol yn seiliedig ar y rhai mewn tablau actiwaraidd cyhoeddus "PA92", sy'n berthnasol i flwyddyn geni aelodau gydag addasiadau carfan hir.

Roedd prif categorïau asedau'r cynllun, fel canran o gyfanswm yr asedau a'r cyfraddau adenillion hirdymor disgwyliedig arnynt, fel a ganlyn:

	2014		2013	
	Adenillion disgwyliedig	% o gyfanswm yr asedau	Adenillion disgwyliedig	% o gyfanswm yr asedau
Ecwitiâu	6.5%	54.6%	6.5%	54.8%
Bondiau	5.0%	32.2%	5.0%	28.6%
Arall	3.0%	2.5%	3.0%	6.0%

	Gwerth presennol y rhwymedigaeth £m	Gwerth teg asedau'r cynllun £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2013 (Ailddatganwyd)	323.3	(291.2)	32.1
Cost gwasanaeth cyfredol	9.9	–	9.9
Traul/incwm llog	14.7	(13.4)	1.3
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	0.2	–	0.2
Treuliau	0.7	0.6	1.3
	25.5	(12.8)	12.7
Ailfesuriadau			
Ennill o newid mewn tybiaethau demograffig	(8.7)	–	(8.7)
Ennill o newid mewn tybiaethau ariannol	(14.6)	–	(14.6)
Enillion profiad	–	(1.5)	(1.5)
	(23.3)	(1.5)	(24.8)
Cyfraniadau		(16.5)	(16.5)
Buddiannau a dalwyd	(5.4)	5.4	–
Trosglwyddo asedau mewn swmp		(2.3)	(2.3)
	(5.4)	(13.4)	(18.8)
Ar 31 Mawrth 2014	320.1	(318.9)	1.2

	Gwerth presennol y rhwymedigaeth £m	Gwerth teg asedau'r cynllun £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2012 (Ailddatganwyd)	272.8	(240.8)	32.0
Cost gwasanaeth cyfredol	11.1	–	11.1
Traul/incwm llog	14.1	(12.5)	1.6
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	2.3	2.3	4.6
Treuliau	–	0.4	0.4
	27.5	(9.8)	17.7
Ailfesuriadau			
Ennill o newid mewn tybiaethau demograffi	(5.1)	–	(5.1)
Colled/(Ennill) o newid mewn tybiaethau ariannol (Enillion)/colledion profiad	20.8	(20.7)	0.1
	–	–	–
	15.7	(20.7)	(5.0)
Cyfraniadau		(11.7)	(11.7)
Buddiannau a dalwyd	(6.4)	6.4	–
Trosglwyddo asedau mewn swmp	13.7	(14.6)	(0.9)
	7.3	(19.9)	(12.6)
Ar 31 Mawrth 2013 (ailddatganwyd)	323.3	(291.2)	32.1

Mae'r cyfanswm a gydnabyddir ar y Fantolen yn cynnwys y canlynol:

	2014 £m	2013 £m
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir	(320.1)	(323.3)
Gwerth teg asedau'r cynllun	318.9	291.2
	(1.2)	(32.1)
Rhwymedigaeth EFRBS nas ariannwyd	(1.6)	(0.7)
Rhwymedigaeth net a gydnabuwyd ar y Fantolen	(2.8)	(32.8)

	2014	2013	2012	2011	2010
Addasiadau oherwydd profiad sy'n codi ar asedau'r cynllun:					
Swm (£m)	(2.9)	17.9	(9.5)	(8.2)	10.0
Canran asedau'r cynllun	(3%)	(6%)	(4%)	(4%)	21%
Addasiadau oherwydd profiad sy'n codi ar rhwymedigaethau'r cynllun:					
Swm (£m)	(5.1)	(15.7)	(16.4)	3.6	11.5
Canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(5%)	(5%)	(6%)	2%	21%
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (£m)	320.0	323.3	272.8	238.4	54.8
Gwerth teg asedau'r cynllun (£m)	318.8	291.1	240.7	222.9	46.8
Diffyg (£m)	(1.2)	(32.1)	(31.9)	(15.5)	(8.0)

Mae'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 yn cynnwys cyfraniadau arbennig o £1.2m (2013: £0.5m). Talwyd £3.5m pellach i'r cynllun i ychwanegu at y buddiannau mewn perthynas ag aelodau'r cynllun a adawodd y cwmni drwy gynllun diswyddo gwirfoddol dethol (2013: £0.9m). Mae'r cyfraniadau arbennig y disgwylir iddynt gael eu talu yn unol â'r rhestr o gyfraniadau sydd ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31 Mawrth 2015 yn gwneud cyfanswm o £1.4m.

	Newid mewn tybiaeth	Cynnydd mewn Rhwymedigaethau
Cyfradd ddisgowntio	0.1%	£6.8m
Chwyddiant mewn prisiau	0.1%	£6.5m
Disgwyliad oes	1 blwyddyn	£6.8m

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd uchod yn seiliedig ar ambell newid ym mhob tybiaeth tra'n cadw tybiaeth gyffredinol yn gyson. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, ac mae'n debygol y bydd rhyw lefel o gydberthyn rhwng y symudiadau mewn tybiaethau gwahanol.

21 EFFAITH NEWID MEWN POLISI CYFRIFYDDU

Mabwysiadu IAS 19 (diwygiwyd yn 2011)

Mae'r safon buddiannau cyflogaion diwygiedig yn cyflwyno newidiadau i ddulliau cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu buddiannau ôl-gyflogaeth. Mae'r safon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i draul/incwm llog net gael ei gyfrifo fel cynnyrch y rhwymedigaeth/ ased buddiannau diffiniedig net fel y'i pennir ar ddechrau'r flwyddyn. Effaith hyw yw dileu'r cysyniad blaenorol o gydnabod enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun.

Dangosir effeithiau'r newidiadau mewn polisi cyfrifyddu yn y tablau canlynol.

Effaith newid ar newid mewn polisi cyfrifyddu ar y datganiad incwm cyfunol

	Mawrth 2014	Mabwysiadu IAS 19 (diwygiwyd 2011)	Mawrth 2014 fel y'i cyflwynwyd	Mawrth 2013	Mabwysiadu IAS 19 (diwygiwyd 2011)	Mawrth 2013 fel y'i cyflwynwyd
Refeniw	736.5		736.5	716.4		716.4
Costau gweithredu	(526.9)	(5.0)	(531.9)	(533.1)	(2.7)	(535.8)
Elw gweithredu	209.6		204.6	183.3	(2.7)	180.6
Costau cyllido	(60.1)		(60.1)	(195.5)		(195.5)
Elw/(colled) cyn treth	149.5	(5.0)	144.5	(12.2)	(2.7)	(14.9)
Trethiant	10.8		10.8	13.8		13.8
Elw am y flwyddyn	160.3	(5.0)	155.3	1.6	(2.7)	(1.1)

Effaith newid ar newid mewn polisi cyfrifyddu ar y datganiad cyfunol o incwm cyfunol

	Mawrth 2014	Mabwysiadu IAS 19 (diwygiwyd 2011)	Mawrth 2014 fel y'i cyflwynwyd	Mawrth 2013	Mabwysiadu IAS 19 (diwygiwyd 2011)	Mawrth 2013 fel y'i cyflwynwyd
Elw am y flwyddyn	160.3	(5.0)	155.3	1.6	(2.7)	(1.1)
Ennill/(colled) actiwaraid						
yn y cynllun pensiwn	19.9	5.0	24.9	2.3	2.7	5.0
Symudiad ar dreth ohiriedig	(5.8)		(5.8)	(0.9)	-	(0.9)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr	174.4	-	174.4	3.0	-	3.0

22 CYFALAF AC YMRWYMIADAU ARIANNOL ERAILL

Mae cynllun busnes y grŵp ar 31 Mawrth 2014 yn dangos gwariant cyfalaf net a gwariant adnewyddu seilwaith o £330m (2013: £313m) yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Er mai dim ond cyfran o'r swm hwn y contractiwyd yn ffurfiol yn ei chylch, mae'r grŵp i bob diben yn ymrwymedig i'r cyfanswm fel rhan o'i raglen gwariant cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd gan ei reoleiddiwr.

23 TRAFODION Â PHARTÏON CYSYLLTIEDIG

Yn unol â'r eithriad a roddwyd o dan IAS 24 nid oes unrhyw ddatgeliad yn y datganiadau ariannol cyfunol o drafodion ag endidau sy'n rhan o grŵp Glas Cymru Cyfyngedig. Nid yw'r rhiant-gwmni wedi cytuno i gynnal trafodion ag unrhyw gwmni grŵp arall yn ystod y flwyddyn (2013: dim).

24 STATWS Y CWMNI

Cwmni cyfyngedig drwy warant ydyw ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Os caiff y cwmni ei ddirwyn i ben, mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig i £1 yr un.

25 CRONFA YMDDIRIEDOLAETH CWM ELAN

Yn 1984 lluniodd Awdurdod Dŵr Cymru gytundeb gwerthu a phrynu amodol gydag Awdurdod Dŵr Hafren Trent ar gyfer gwerthu'r draphont ddŵr a gwaith cysylltiedig a ddefnyddir i gludo'r swmpgyflenwad i gronfeydd dŵr Hafren Trent.

Buddsoddwyd y swm o £31.7m, sef y gydnabyddiaeth am y gwerthiant amodol, mewn cronfa ymddiriedolaeth. Prif swyddogaeth y gronfa oedd rhoi incwm i Awdurdod Dŵr Cymru, tra'n cadw gwerth cyfalaf y gronfa mewn termau real. Breiniwyd budd Awdurdod Dŵr Cymru yn y gronfa hon yn Dŵr Cymru Cyfyngedig o dan ddarpariaethau Deddf Dŵr 1989.

Nid yw asedau'r gronfa wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn. Ar 31 Mawrth 2014, gwerth y gronfa ymddiriedolaeth ar y farchnad oedd £103m (2013: £112m).

Mae llog derbyniadwy yn cynnwys £5.6m (2013: £4.6m) mewn perthynas â symiau a ddosbarthwyd o Gronfa Ymddiriedolaeth Cwm Elan.

26 RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol heblaw'r rheini a gododd yn ystod busnes arferol y grŵp ac ni ragwelir y gwneir unrhyw golledion sylweddol ar y rhain.

RHESTR TERMAU

Achosion o lygredd	Rhyddhau halogyddion ar ddamwain neu'n fwriadol fel olew, tanwydd a chemegion a all fod yn niweidiol i iechyd pobl a'r amgylchedd.
Adnodd Cymhelliant Gwasanaeth	Mesur gan Ofwat yw hwn a luniwyd i wella lefel y gwasanaeth cwsmeriaid a ddarperir gan gwmnïau dŵr.
Algâu	Organebau unigol neu aml-gell sy'n gyffredin mewn dŵr wyneb.
AMP	Mae'r diwydiant dŵr yn gweithredu yn ôl cylchoedd pum mlynedd o'r enw 'Cynllun Rheoli Asedau'. Mae AMP5 yn rhedeg o 2010 i 2015 ac AMP6 o 2015 i 2020.
Asedau	Mae hyn yn cynnwys seilwaith megis prif bibellau dŵr a charthffosydd, argaeau a chronfeydd dŵr, gwaith trin dŵr a charthion, gorsafoedd pwmpio, labordai, depos a gweithdai'r cwmni.
Asiantaeth yr Amgylchedd	Corff gweithredol, anadrannol o'r Llywodraeth sydd â dyletswydd statudol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd yn Lloegr.
AVPS	Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Blyneddol – elfen cofnod perfformiad o enillion.
Blŵm algâu	Cyfnodau o dyfiant algaidd mawr sy'n effeithio ar ansawdd y dŵr.
Caniatadau Gollwng	Cytundebau cyfreithiol a gyhoeddir gan y rheoleiddiwr amgylcheddol sy'n ymwneud â faint o ddŵr gwastraff, ei ansawdd a'i amllder y gellir ei anfon yn ôl i'r amgylchedd.
Carthffos	Pibell o dan y ddaear sy'n mynd â dŵr gwastraff cartrefi a dŵr gwastraff o fannau eraill i ffwrdd o eiddo er mwyn ei drin a'i waredu.
Carthffosydd yn gorlifo	Mae hyn yn digwydd pan fydd dŵr gwastraff yn dianc o bibellau carthffosydd drwy glawr twll caead neu ddraen, neu o doiledau sydd wedi'u blocio.
Cerdyn sgorio	Cofnod ystadegol a ddefnyddir gan Dŵr Cymru i fesur cyflawniad neu gynnydd tuag at nod penodol.
Costau gweithredu	Cyfanswm gwariant gweithredu'r busnes, yn glir o unrhyw incwm gweithredu, sef unrhyw elw neu golled yn bennaf wrth waredu asedau sefydlog.
Cronfa ddŵr	Llyn naturiol neu artiffisial lle y caiff dŵr ei gasglu a'i storio nes bod ei angen.
Cronfa ddŵr gwasanaethu	Tanc yn cynnwys dŵr yfed yw hwn a leolir fel arfer o fewn neu wrth ymyl system dosbarthu dŵr.
CSO	Mae golllngfeydd carthffosydd cyfunol yn gweithredu fel falfau rhyddhau sy'n atal carthffosydd rhag gorlenwi a allai fel arall arwain at eiddo a gwaith trin charthion yn gorlifo.
Cwmni cyfyngedig drwy warant	Cwmni preifat nad oes ganddo gyfranddalwyr na chyfalaf cyfrannau.
Cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw	Faint o ddŵr sydd ar gael.
Cydymffurfiaeth 'Look-up'	Dyma lle mae gwaith trin dŵr gwastraff yn methu â bodloni'r paramedrau a ganiateir gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd am lai na 95% o'r amser.
Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig	Mae cydymffurfiaeth barthol gymedrig yn mesur cydymffurfiaeth ym mhob un o'r parthau ansawdd dŵr ar gyfer 39 o baramedrau cemegol a bacteriolegol allweddol fel y'u mesurir gan y rhaglen fonitro statudol o samplau a gymerir o dapiau dŵr cwsmeriaid.
Cyfarwyddwyr Anweithredol	Aelodau o Fwrdd Dŵr Cymru. Nid yw Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gyfrifol am y gwaith o redeg y cwmni o ddydd i ddydd ond maent yn herio rheolwyr ac yn goruchwyllo'r ffordd y caiff y cwmni ei redeg.

Cyfoeth Naturiol Cymru	Gweler tudalen 17.
Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Gweler tudalen 17.
Cynllun Cyflog Cyfnewidiol Hirdymor	Elfen perfformiad o enillion.
Cynllun Diogelwch Dŵr Yfed	Dull rhagweithiol o asesu risg i ansawdd dŵr yfed, sy'n diogelu iechyd y cyhoedd yn well.
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd cwmni dŵr yn cadw cydbwysedd cynaliadwy rhwng cyflenwadau dŵr a'r galw dros y 25 mlynedd nesaf.
Cynllun Sychder	Cynllun statudol a lunnir gan gwmni dŵr sy'n rhoi manylion am y camau y gellir eu cymryd i reoli'r cyflenwad dŵr ar adeg o sychder.
Dalgylch	Ardal o dir y mae dŵr yn draenio i gorff o ddŵr drwyddi (fel afon neu gronfa ddŵr).
Deddf Dŵr 2014	Cafodd y Ddeddf Gydysyniad Brenhinol ym mis Mai 2014. Ceir rhagor o wybodaeth yn www.parliament.uk
Defnyddioldeb	Gallu system o asedau i ddarparu lefel ddisgwyliedig o wasanaeth i ddefnyddwyr ac i'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol.
Draenio dŵr wyneb	Cael gwared ar ddŵr glaw, eira neu iâ sydd wedi dadmer o ardaloedd allanol eiddo (fel toeau a thramwyfeydd) yn aml i garthffos dŵr wyneb neu garthffos gyfunol.
DWI	Gweler tudalen 17.
Dŵr daear	Dŵr y ceir hyd iddo yn y rhan ddirlawn o'r pridd.
Dŵr gwastraff	Deunydd gwastraff o gartrefi neu fathau eraill o eiddo a gaiff ei gludo i ffwrdd o'r eiddo drwy garthffosydd neu ddraeniau.
Dŵr wyneb	Dŵr ffo o ddŵr glaw sy'n syrthio ar eiddo cwsmeriaid (fel toeau, llwybrau a thramwyfeydd).
Elifion	Dŵr sy'n llifo o waith trin carthion ar ôl iddo gael ei drin.
Gallu i gyllido	Gallu cwmnïau dŵr penodedig i gyllido eu swyddogaethau drwy ddyledion, ecwiti neu enillion a gedwir.
Gerio	Dyled net cwmni dŵr wedi ei mynegi fel canran o gyfanswm ei gyfalaf.
Glas Cymru	Ffurfiwyd Glas Cymru er mwyn bod yn berchen ar Dŵr Cymru, ei ariannu a'i reoli.
GlawLif	Dull arloesol Dŵr Cymru o reoli dŵr wyneb a charthffosydd gorlawn (systemau draenio trefol cynaliadwy).
Gollwng	Dŵr a gollir rhwng y gwaith trin a chartref neu fusnes y cwsmer.
Gorsaf bwmpio	Fe'i defnyddir i bwmpio dŵr neu garthffosiaeth o un lle i un arall.
Grŵp Herio Cwsmeriaid	Grŵp annibynnol a sefydlwyd i gynrychioli buddiannau cwsmeriaid yn ystod proses Cynllunio Busnes PR14.
Gwaith trin dŵr	Mae gweithfeydd trin dŵr yn cynhyrchu dŵr yfed i bobl ei yfed neu ddŵr diwydiannol ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu neu weithrediadau busnes eraill.
Gwaith trin dŵr gwastraff	Nod gwaith trin dŵr gwastraff yw cael gwared ar gynhyrchion gwastraff biolegol neu gemegol o ddŵr cyn iddo gael ei anfon yn ôl i ffynonellau dŵr.
IEAP	Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol – grŵp annibynnol o arbenigwyr allanol a sefydlwyd gan Dŵr Cymru er mwyn helpu i lywio penderfyniadau polisi.

Megalitrau	Mae un megalitr yn cyfateb i 1,000 metr ciwbig neu un filiwn o litrau. Mae pwll nofio safonol o'r un faint â phwll nofio gemau Olympaidd yn cynnwys 2.5 megalitr o ddŵr.
Methiannau bacteriolegol	Caiff y dŵr yfed a gyflenwir i gwsmeriaid ei samplu a'i ddadansoddi yn erbyn ystod o baramedrau cemegol a bacteriolegol. Os bydd sampl yn dangos paramedr bacteriolegol sy'n fwy na'r terfyn a nodwyd yn y rheoliadau, tybir ei fod yn Fethiant Bacteriolegol.
Ofwat	Y rheoleiddiwr economaidd ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr.
PR09	Adolygiad Cyfnodol 2009; adolygiad cyfnodol Ofwat o derfynau prisiau a gwblhawyd yn 2009 er mwyn gosod prisiau ar gyfer 2010-2015.
PR14	Adolygiad Cyfnodol 2014; adolygiad cyfnodol Ofwat o derfynau prisiau a gwblhawyd yn 2014 er mwyn gosod prisiau ar gyfer 2015-2020.
Prif bibell	Prif bibell lle caiff dŵr ei borthi i mewn i system dosbarthu dŵr. Bydd prif bibell yn aml yn rhedeg o waith trin dŵr i gronfa ddŵr gwasanaethu.
Prif bibell ddŵr	Pibell fawr sy'n cario dŵr wedi ei drin i gartrefi.
Prif garthffos bwmpio	Piblinell dan bwysedd sy'n cario dŵr yfed/dŵr gwastraff.
Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd	Pwyllgor lefel Bwrdd yn Dŵr Cymru sy'n mynd i'r afael â materion o ran perfformiad a risg weithredol ym mhob rhan o'r cwmni.
Rhaglen buddsoddi cyfalaf	Gwaith adeiladu arfaethedig cwmni dŵr i adeiladu, disodli neu adnewyddu asedau.
Safety Takes Every Person (STEP)	Hyfforddiant ar ddiogelwch ymddygiadol sy'n pwysleisio bod gan bob unigolyn gyfrifoldeb am faterion lechyd a Diogelwch.
Statws credyd	Mae statws credyd yn cynnig barn ar ansawdd credyd cwmni a all effeithio ar gost benthyca.
Stop cyn Creu Bloc	Ymgrych newid ymddygiad gan Dŵr Cymru sy'n gofyn i gwsmeriaid helpu i leihau nifer y carthffosydd sy'n blocio.
Strategaeth Ddŵr i Gymru	Strategaeth Llywodraeth Cymru (ymgynghoriad arni yn mynd rhagddo) sy'n anelu at sicrhau bod ein hadnodd dŵr yn gydnerth, yn gynaliadwy ac yn cael ei reoli er mwyn rhoi budd i Gymru a'i dinasyddion.
Sychder	Sychder yw cyfnod estynedig o lefel eithriadol o isel o law, sy'n rhoi pwysau ar adnoddau dŵr.
System Ddraenio Drefol Gynaliadwy (SuDS)	Caiff system ddraenio gynaliadwy ei chynllunio i leihau effaith bosibl datblygiadau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes o ran gollyngiadau o ddraeniau dŵr wyneb.
Tanc storm	Tanc lle y caiff dŵr storm a dŵr gwastraff, mewn tywydd gwlyb, ei storio nes y gall y gwaith trin gwastraff dŵr ei drin.
Termau real	Mae hyn yn golygu'r newid mewn rhif ariannol ar ôl ei gywiro oherwydd chwyddiant.
TGCh	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
Treulio anaerobig	Proses lle y caiff y deunydd organig ei ddadelfennu gan facteria a micro-organebau eraill i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
Trosglwyddo Carthffosydd Preifat	Yn 2010, trosglwyddodd Llywodraeth y DU berchenogaeth y rhan fwyaf o'r carthffosydd preifat yng Nghymru a Lloegr i'r 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth, er mwyn iddynt fod yn rhan o'r rhwydwaith o garthffosydd cyhoeddus.
Tynnu dŵr	Tynnu dŵr o unrhyw ffynhonnell.

